

Gorffennaf 2021

Diweddariad Blynyddol - Gwerthusiad o Gronfa Trawsnewid 'Cymru Iachach'



Gorffennaf 2021

Diweddariad Blynyddol - Gwerthusiad o Gronfa Trawsnewid 'Cymru Iachach'

Adroddiad i
Lywodraeth Cymru

Awduron:
Heledd Bebb, Nia Bryer ac Einir
Burrowes

Browerdd, Heol yr Ysgol
Llanarthne, Sir Gaerfyrddin
SA32 8HJ

07792 609821
nia@ob3research.co.uk

38 Llewelyn Goch
Sain Ffagan, Caerdydd
CF5 6HR

029 2089 1724
heledd@ob3research.co.uk

| Cynnwys | Tudalen |
|---|----------------|
| Geirfa | 3 |
| Rhestr o dablau a ffigurau | 4 |
| Crynodeb Gweithredol | 5 |
| 1. Cyflwyniad | 11 |
| 2. Methodoleg y Gwerthusiad | 13 |
| 3. Trosolwg o'r Gronfa Trawsnewid | 15 |
| 4. Cyflawni'r rhaglen | 21 |
| 5. Allbynnau a deilliannau | 42 |
| 6. Cynaliadwyedd yn y dyfodol | 65 |
| 7. Casgliadau ac argymhellion | 71 |
| | |
| Atodiad A: Model Rhesymeg Theori Newid ar gyfer Rhaglen y Gronfa Trawsnewid | 76 |
| Atodiad B: Crynodeb o brosiectau'r Gronfa Drawnewid | 77 |
| Atodiad C: Cwestiynau Ymchwil Diwygiedig ar gyfer y Gronfa Drawnewid | 84 |
| Atodiad Ch: Canllaw Trafod ar gyfer Cyfweliadau Gwerthusiad y Gronfa Trawsnewid | 86 |

Geirfa

| Acronym/Allweddair | Diffiniad |
|---------------------------|---|
| ACE | Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod |
| BIP | Bwrdd Iechyd Prifysgol |
| BPRh | Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol |
| CT | Cronfa Trawsnewid |
| GIG | Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| PABM | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg |
| TG | Technoleg Gwybodaeth |

Rhestr o dablau a ffigurau

| | |
|--|----|
| Tabl 4.1: Cyllideb a gwariant y Gronfa Trawsnewid (Ionawr 2019 - Mawrth 2021) | 30 |
| Tabl 5.1: Allbynnau cyffredin y CT | 46 |
| Tabl 5.2: Deilliannau cyffredin y CT | 46 |
| | |
| Ffigwr 3.1: Crynodeb o Argymhellion Gwerthusiad Canol Cyfnod y CT | 17 |
| Ffigwr 5.1: Deilliannau Allweddol Rhaglen y Gronfa Trawsnewid Caerdydd a Bro Morgannwg | 42 |
| Ffigwr 5.2: Deilliannau Allweddol Rhaglen y Gronfa Trawsnewid ar gyfer Powys | 42 |

Crynodeb Gweithredol

Nodau'r ymchwil

Comisiynwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru ym mis Medi 2019 i gynnal gwerthusiad o Gronfa Trawsnewid (CT) 'Cymru Iachach'.

Sefydlwyd y CT i ariannu modelau newydd o iechyd a gofal cymdeithasol di-dor fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid i wireddu'r uchelgeisiau a amlinellir yn nogfen Cymru Iachach Llywodraeth Cymru. Roedd cyllid ar gael i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol (BPRh) i gefnogi prosiectau a oedd yn canolbwyntio ar gysoni gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor, darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol a chymunedol lleol, a gwasanaethau a gweithgareddau atal integredig newydd.

Nod y gwerthusiad yw:

- gwerthuso i ba raddau y mae'r CT wedi cyflymu'r broses o fabwysiadu ac ehangu ffyrdd newydd o weithio i ddisodli neu ad-drefnu gwasanaethau presennol er mwyn gwella deilliannau i bobl
- gwerthuso elfennau unigol o fodolau newydd sydd wedi arwain at fabwysiadu ac ehangu ffyrdd newydd o weithio yn llwyddiannus (ac yn aflwyddiannus).

Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r gwerthusiad yn cynnwys tri cham: gwerthusiad canol cyfnod yn 2020, gwerthusiad terfynol yn 2021 ac adroddiad dilynol yn 2022. Cyhoeddwyd y gwerthusiad canol cyfnod yn 2020¹ ac mae'n darparu adolygiad o brosesau'r rhaglen ac asesiad dros dro o'i heffaith.

Ym mis Awst 2020 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r CT yn cael ei hymestyn am gyfnod o flwyddyn. Cytunwyd y byddai gwerthusiad 2021 yn ddiweddariad blynyddol ac y byddai gwerthusiad terfynol yn cael ei gynhyrchu ym mis Mai 2022.

Dull

Mae'r diweddariad blynyddol o'r gwerthusiad wedi cynnwys:

- cam cychwynnol, a oedd yn cynnwys cyfarfod cychwynnol rhithwir gyda swyddog o Lywodraeth Cymru
- ymchwil desg i gynnwys adolygiad o ddatblygiadau diweddar

¹ [Cronfa trawsnewid gwasanaethau iechyd a chymdeithasol 2018 i 2021: gwerthusiad canol cyfnod | LLYW.CYMRU](#)

- datblygu templed adrodd ar werthuso rhanbarthol ac ymgymryd â meta-ddadansoddiad manwl o'r adroddiadau gwerthuso rhanbarthol hyn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021
- paratoi cyfres o ganllawiau trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio gydag ystod o gyfranwyr yn Llywodraeth Cymru a BPRh
- cynnal pecyn o waith maes ansoddol gyda 21 o gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru a BPRh²
- cyflwyno canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r gwerthusiad a syntheseiddio canfyddiadau'r gwaith maes a'r adolygiad desg a pharatoi adroddiad terfynol.

Canfyddiadau allweddol y gwerthusiad

Mae'r canfyddiadau allweddol mewn perthynas â chyflawni'r rhaglen yn cynnwys y canlynol:

- ni fu unrhyw newidiadau mawr i fodolau gweithio ers yr adroddiad canol cyfnod, ond mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar lawer o brosiectau drwy orfod addasu eu ffyrdd o weithio, cyflymu eu gweithgareddau neu eu gohirio.
- gwelodd sawl prosiect, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â rhwydweithiau cymunedol, osgoi debyniadau i ysbytai, darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, a gofal a alluogir gan dechnoleg, gynnydd yn y galw a gwell dealltwriaeth ar draws y sector iechyd a gofal o'u galluoedd i dynnu pwysau oddi ar wasanaethau allweddol.
- ceir darlun cymysg o ran cyflymder y newid. Er bod rhai prosiectau wedi gweld newid cyflymach (yn bennaf y rhai sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth a nodir uchod) nid yw eraill wedi gweld datblygiad tebyg dros y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf oherwydd effaith y pandemig ar argaeledd staff ac anawsterau o ran ymgysylltu â phobl yn ystod y cyfnod hwn
- mae gwariant y CT wedi cynyddu'n sylweddol ers yr adroddiad canol cyfnod, ac mae rhan helaethaf y cyllid bellach wedi'i ddyrannu
- mae prosiectau yn adrodd ar ffactorau tebyg sy'n eu galluogi i gyflawni eu hamcanion. Maent yn cynnwys dull system gyfan, y defnydd o ddatrysiadau digidol a newid amlwg yn niwylliant y gweithle
- erys heriau i brosiectau, yn enwedig lle mae angen gwneud gwaith traws-sefydliadol gyda sawl awdurdod lleol neu lle mae cwmpas a phwrpas prosiect yn parhau i fod yn aneglur. Mae'r prosiectau hynny sydd â systemau rheoli prosiectau llai cadarn hefyd wedi cael trafferthion
- mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar drefniadau llywodraethu, a chafodd y rhain eu cwtogi neu eu hatal. Lle mae trefniadau llywodraethu wedi parhau, cynhaliwyd cyfarfodydd ar-

² Mae prosiect ychwanegol, Gofal Arennol Cydweithredol, a noddir gan BPRh Cwm Taf Morgannwg hefyd wedi'i gynnwys yn y gwaith maes hwn.

lein sydd wedi arwain at ymgysylltu â rhanddeiliaid yn well, proses symlach o wneud penderfyniadau a phartneriaid yn gweithio'n fwy effeithiol i gyflawni pethau

- ailsefydlwyd trefniadau llywodraethu ar ddiwedd 2020-21 ac, mewn sawl rhanbarth, lluniwyd trefniadau llywodraethu newydd i sicrhau eu bod yn gymesur ac yn addas ar gyfer yr amgylchiadau presennol
- cyn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn sgil COVID-19, roedd ymgysylltiad dinasyddion, y gweithlu a rhanddeiliaid yn dod yn fwy amlwg mewn prosiectau, a gwelwyd ambell enghraifft o gyd-gynhyrchu. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar yr agwedd hon ac mae cyfranogiad dinasyddion wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ofyn am adborth gan ddefnyddwyr drwy arolygon. Defnyddiwyd dulliau tebyg i gael barn staff a rhanddeiliaid.

Mae'r canfyddiadau allweddol mewn perthynas â thystiolaeth werthuso ers yr adroddiad canol cyfnod fel a ganlyn:

- Mae BPRh wedi mynd ati i ddatblygu damcaniaethau newid a fframweithiau gwerthuso sy'n sail i'w prosiectau. Mewn rhai achosion, mae'r fframweithiau gwerthuso hyn wedi'u llywio gan ddata gwaelodlin ac mae rhanbarthau'n mabwysiadu dangosfwrdd o ddangosyddion i fonitro'r cyflawniadau. Mae'r cynnydd a wnaed i weithredu fframweithiau gwerthuso yn amrywio o un rhanbarth i'r llall, gyda diffyg cynnydd yn cael ei briodoli'n bennaf i effeithiau'r pandemig COVID-19. Daw llawer o adroddiadau gwerthuso ar lefel prosiect/rhanbarthol i'r casgliad fod angen gwaith pellach ar ddatblygu a gweithredu fframweithiau deilliannau'r rhaglen, gan gynnwys mabwysiadu dangosfwrdd o ddangosyddion er mwyn monitro effaith y rhaglen yn yr hirdymor.
- bu symudiad ar draws llawer o ranbarthau/prosiectau i fabwysiadu mesurau y gellir eu meintoli i ddangos eu cynnydd ac i adrodd ar yr allbynnau sy'n cael eu cyflawni. Mae llawer o brosiectau bellach yn gallu adrodd ar nifer y defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi ymgysylltu â nhw a/neu ar y gweithgareddau a gynhaliwyd
- mae rhywfaint o dystiolaeth ar waith bellach i ddarparu arwyddion cynnar o leiaf o'r manteision a ddaw yn sgil prosiectau i ddefnyddwyr gwasanaethau a gwasanaethau yn fwy cyffredinol, er nad yw hyn yn gyson ar draws pob prosiect neu ranbarth
- ychydig iawn o brosiectau'r CT sy'n ystyried ac yn adrodd ar fetrigau sy'n rhoi darlun o fanteision ariannol eu gweithgareddau, er bod llawer bellach yn mabwysiadu mesurau y gellir eu meintoli ar gyfer y cynnydd a'r allbynnau a gyflawnir. Dros y flwyddyn sy'n weddill o'r

cyfnod cyflawni, byddai gwerth i'r BPRh ganolbwyntio ar gyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad neu'r arbedion ariannol sy'n deillio o brosiectau'r CT

- Mae BPRh yn ymwybodol iawn o'r angen i ystyried opsiynau cyllido ar gyfer y dyfodol a chynaliadwyedd y gweithgareddau a ariennir ar hyn o bryd drwy raglen y CT. Mae angen cynllun ymadael ar lefel prosiect neu raglen, yn seiliedig ar dystiolaeth werthuso. Mae angen ystyried a fydd prosiectau'n parhau, ac a fyddant yn cael eu cyllido o gronfeydd prif ffrwd neu a fydd angen buddsoddiad tymor byr o fath arall arnynt.

Mae'r canfyddiadau allweddol o ran y dyfodol yn cynnwys y canlynol:

- mae'r rhanbarthau bellach yn gweithio ar gysoni eu prosiectau i greu model mwy cydlynol ac mae diddordeb cynyddol yn yr hyn y mae'r CT wedi'i gyllido a gwerthfawrogiad cynyddol o hynny, gyda sawl agwedd ar raglenni'r CT, yn enwedig ymyriadau yn y gymuned, yn darparu cymorth hanfodol yn ystod y pandemig.
- mae'r prosiectau a ariennir mewn sefyllfa fregus ar hyn o bryd oherwydd mai dim ond tan ddechrau 2022 y mae cyllid ar gael. Ceir diffyg eglurder ynghylch sut y bydd darpariaethau'n cael eu hariannu ar ôl y dyddiad hwn ac mae staff allweddol eisoes yn symud ymlaen i swyddi eraill mwy diogel
- gyda llai na blwyddyn yn weddill, a'r angen i lunio achosion busnes a strategaethau ymadael, mae prosiectau'n sylweddoli, yn absenoldeb gwaelodlinau, fframweithiau gwerthuso ac felly dystiolaeth gadarn o'r effaith a'r gwahaniaeth a wnaed, ei bod yn dod yn fwyfwy anodd cyflwyno dadl dros brif ffrydio neu barhau â'r cyllid ar gyfer rhai prosiectau
- ni ellir trawsnewid gwasanaethau dros gyfnod o dair blynedd ac mae dadl gref dros ymchwilio i'r angen am raglen sengl tymor hwy i ariannu'r broses o drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, lle y gellid cyfuno gwasanaethau integredig fel y rhai a ariennir drwy'r CT a'r Gronfa Gofal Integredig ar hyn o bryd yn un gronfa ac iddi gylch gwaith a phwrpas strategol wedi'u diffinio'n glir
- gwerau allweddol i unrhyw raglen gyllido yn y dyfodol yw'r angen am fframwaith gwerthuso gyda metrigau a deilliannau perfformiad clir a chyson sydd wedi'u diffinio'n dda ac wedi'u hamlinellu o'r dechrau.

Argymhellion

Mae'r adroddiad yn cynnig cyfres o argymhellion, y dylid eu hystyried ochr yn ochr â'r gwerthusiad canol tymor:

Argymhellion ar gyfer gweddill cyfnod cyflawni'r CT

Argymhelliad 1: Ar gyfer y cyfnod sy'n weddill, mae angen i brosiectau a ariennir gan y CT ganolbwyntio o'r newydd ar weithgareddau ymgysylltu â dinasyddion ac ystyried cynnwys hyn fel rhan o'u gweithgareddau adolygu a gwerthuso parhaus.

Argymhelliad 2: Mae angen i BPRh gofnodi tystiolaeth a chyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad neu'r arbedion ariannol a gyflawnir, gan mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael o hyn ar draws y rhaglen a bydd yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r achos busnes dros gyllid prif ffrwd neu barhad unrhyw gyllid drwy unrhyw ddulliau cyllido yn y dyfodol.

Argymhelliad 3: Yn ystod y cyfnod sy'n weddill, mae angen i brosiectau a rhaglenni flaenoriaethu eu cynlluniau ymadael ar gyfer prosiectau a rhaglenni a ariennir. Mae hyn yn cynnwys dod ag unrhyw brosiectau sy'n annhebygol o gael eu gwireddu yn ystod yr amser sy'n weddill i ben a rhoi ystyriaeth fanwl i'r opsiynau tebygol ar gyfer y prosiectau hynny y bydd angen cefnogaeth barhaus arnynt.

Argymhelliad 4: Dylai BPRh barhau i weithredu'r trefniadau llywodraethu symlach ac effeithiol a gyflwynwyd mewn ymateb i COVID-19.

Argymhellion strategol tymor hwy:

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod bod trawsnewid yn broses hirdymor ac o'r herwydd ystyried sut y gall gefnogi prosiectau presennol y Gronfa Drawsnewid y mae angen mwy o amser arnynt i ddangos eu heffaith. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellid rhoi trefniadau pontio di-dor ar waith o fis Ebrill 2022 ymlaen a thrwy hynny gael gwared ar y clogwyn cyllido presennol sy'n peri pryder i ranbarthau. Dylai unrhyw drefniadau cyllido yn y dyfodol fabwysiadu'r egwyddor o gyllid graddedig, i atgyfnerthu pwysigrwydd dangos effaith a chefnogi'r symudiad tuag at fwy o hunangynaliadwyedd.

Argymhelliad 6: Yn yr hirdymor fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth briodol i gyfuno ffrydiau cyllido iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig y CT a'r Gronfa Gofal Integredig, yn un gronfa strategol tymor hwy i ysgogi trawsnewidiad ar draws y sector. Byddem yn awgrymu y dylid cynllunio'r gronfa strategol hon mewn cydweithrediad â'r rhanbarthau fel un hirdymor i gefnogi trawsnewidiad cynaliadwy ar draws y sector.

Argymhelliad 7: Dylai unrhyw raglen gyllido strategol newydd gael ei hategu gan ddamcaniaeth newid a fframwaith gwerthuso clir sy'n amlinellu deilliannau lefel uchel sydd wedi'u diffinio'n glir o'r cychwyn cyntaf. Dylai'r deilliannau hyn gael eu hategu gan fesurau neu ddangosyddion y gellir eu monitro dros amser i olrhain effaith y rhaglen. Dylid disgwyl i ddarpariaethau a ariennir gyfrannu at y deilliannau strategol hyn ac adrodd yn erbyn set gyffredin o ddangosyddion.

Argymhelliad 8: Dylai unrhyw raglen gyllido strategol newydd ddarparu eglurder ar y themâu/meysydd blaenoriaeth trosfwaol ar gyfer cyllid. Dylid datblygu'r themâu hyn a chytuno arnynt mewn ar y cyd â'r BPRh a dylai'r rhaglen gyllido anelu at ariannu prosiectau sydd â chynlluniau clir a photensial i ehangu dros amser.

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Medi 2019, comisiynwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o Gronfa Trawsnewid (CT) 'Cymru Iachach'.
- 1.2 Mae dau nod i'r gwerthusiad:
 - gwerthuso i ba raddau y mae'r CT wedi cyflymu'r broses o fabwysiadu ac ehangu ffyrdd newydd o weithio i ddisodli neu ad-drefnu gwasanaethau presennol er mwyn gwella deilliannau i bobl
 - gwerthuso elfennau unigol o fodolau newydd sydd wedi arwain at fabwysiadu ac ehangu ffyrdd newydd o weithio yn llwyddiannus (ac yn aflwyddiannus).
- 1.3 Y bwriad gwreiddiol oedd y byddai'r gwerthusiad yn cynnwys tri cham: gwerthusiad canol cyfnod yn 2020, gwerthusiad terfynol yn 2021 ac adroddiad dilynol yn 2022.
- 1.4 Cynhaliwyd gwerthusiad canol cyfnod yn 2020³ ac mae'r adroddiad yn darparu adolygiad o brosesau'r rhaglen ac asesiad dros dro o'i heffaith. Cwblhawyd y gwerthusiad cyn y brigiad o'r pandemig COVID-19 ac roedd yn seiliedig ar adroddiadau gwerthuso canol cyfnod rhanbarthol a baratowyd gan BPRh, ynghyd â gwaith maes gyda swyddogion Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr BPRh.
- 1.5 Ym mis Awst 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Gronfa Trawsnewid yn cael ei hymestyn am gyfnod o flwyddyn, a chytunwyd y byddai gwerthusiad 2021 yn ddiweddariad blynyddol yn hytrach na gwerthusiad terfynol. Cytunwyd hefyd y byddai adroddiad gwerthuso terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Mai 2022, yn hytrach nag adroddiad dilynol fel y cynlluniwyd.

Strwythur yr adroddiad hwn

- 1.6 Cyflwynir y diweddariad blynyddol hwn mewn saith pennod, fel a ganlyn:
 - pennod un: y cyflwyniad hwn i'r adroddiad
 - pennod dau: amlinelliad o'r fethodoleg werthuso
 - pennod tri: diweddariad byr ar y CT a datblygiadau ers yr adroddiad canol tymor
 - penodau pedwar i chwech: y canfyddiadau allweddol mewn perthynas â chyflawni'r rhaglenni (gan gynnwys modelau gweithio, cyflymder y newid, llywodraethu ac ymgysylltu), yr allbynnau, y deilliannau a chynaliadwyedd

³ [Cronfa trawsnewid gwasanaethau iechyd a chymdeithasol 2018 i 2021: gwerthusiad canol cyfnod | LLYW.CYMRU](#)

- pennod saith: casgliadau ac argymhellion, gan ystyried y gwersi a ddysgwyd.

2. Methodoleg y Gwerthusiad

- 2.1 Mae'r bennod hon yn amlinellu'r dull a ddefnyddiwyd i gynnal y diweddariad blynyddol o'r gwerthusiad ac mae'n rhoi darlun o gryfderau a chyfyngiadau'r dull a fabwysiadwyd.
- 2.2 Amlinellir nodau gwerthusiad cenedlaethol o'r CT yn y cyflwyniad (pennod 1) ac maent yn seiliedig ar gwestiynau ymchwil penodol sy'n gyffredin i elfennau cenedlaethol a rhanbarthol y gwerthusiad o'r CT. Mae'r cwestiynau ymchwil (a amlinellir yn llawn yn Atodiad B) yn ymdrin â chwe phwnc gwahanol:
- Modelau gweithio - i ba raddau y mae prosiectau'n newydd ac yn drawsnewidiol; yn gallu dangos newid i wasanaethau ataliol parhaus; yn gallu ehangu yn unol â'r anghenion
 - Cyflymder y newid - sut y mae hyn wedi amrywio yn ôl ffocws y prosiect a nodi ffactorau dylanwadu critigol
 - Deilliannau a mesurau perfformiad - perfformiad gwaelodlin; perfformiad cyfredol yn erbyn llinellau sylfaen; arfer gorau ar gyfer mesur deilliannau a bylchau a nodwyd yn y sylfaen dystiolaeth
 - Cost a budd - effaith ariannol y CT; enillion ar fuddsoddiad neu arbedion ariannol a wnaed; cynaliadwyedd yn y dyfodol
 - Ymgysylltu - maint cyfranogiad y gweithlu a dinasyddion; manteision a heriau
 - Llywodraethu - trefniadau; perchnogaeth a rhwystrau i newid.

Dull

- 2.3 Roedd y diweddariad blynyddol o'r gwerthusiad, a gynhaliwyd rhwng mis Ebrill a mis Gorffennaf 2021, yn cwmpasu'r elfennau gwaith canlynol:
- cam sefydlu a oedd yn cynnwys mynychu cyfarfod sefydlu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i drafod y rhaglen waith a chael mynediad at ddogfennau gan gynnwys adroddiadau diweddar blynyddol rhanbarthol o'r gwerthusiad
 - ymchwil desg i gynnwys adolygiad o ddatblygiadau diweddar
 - datblygu templed adrodd ar gyfer y gwerthusiad rhanbarthol gan ddefnyddio'r cwestiynau ymchwil a'r gofynion gwerthuso a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn y trefniadau cytundebol gyda'r BPRh a chynnal meta-ddadansoddiad manwl o'r

adroddiadau gwerthuso rhanbarthol hyn a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2021

- paratoi cyfres o ganllawiau trafod lled-strwythuredig i'w defnyddio gydag ystod o gyfranwyr yn Llywodraeth Cymru a BPRh
- cynnal pecyn o waith maes ansoddol ar draws Llywodraeth Cymru a'r saith BPRh⁴. Roedd y gwaith maes yn cynnwys cyfweiliadau dros Teams/dros y ffôn gyda chyfanswm o 21 o randdeiliaid
- cyflwyno canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o'r gwerthusiad
- syntheseiddio canfyddiadau'r gwaith maes a'r adolygiad desg a pharatoi'r adroddiad hwn.

Ystyriaethau methodolegol

- 2.4 Dylid ystyried ambell fater sydd wedi effeithio ar y fethodoleg a'r dystiolaeth sydd ar gael fel rhan o'r adroddiad diweddar hwn.
- 2.5 Yn gyntaf, newidiwyd cylch gwaith yr adroddiad hwn o'i bwrpas gwreiddiol. O ganlyniad, mae'r adroddiad hwn bellach yn adroddiad diweddar byrrach, yn dilyn yr adolygiad canol tymor a gynhaliwyd yn ystod 2019-20. Bydd adroddiad gwerthuso manylach, terfynol a fydd yn ystyried ystod ehangach o gyfweiliadau a dadansoddiad dyfnach o ddeilliannau ac effeithiau terfynol, yn cael ei baratoi yn 2022.
- 2.6 Yn ail, mae'r pandemig parhaus COVID-19 wedi golygu bod pob cyfweiliad wedi'i gynnal drwy Teams neu dros y ffôn yn hytrach nag wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd y gwaith maes ar adeg pan oedd iechyd a gofal cymdeithasol yn parhau i fod dan bwysau mawr. Fodd bynnag, gweithiodd y dull hwn yn dda gan gynnig mwy o hyblygrwydd i gyfranogwyr gael trafodaethau sy'n canolbwyntio ar faterion penodol gydag aelod o'r tîm ymchwil.

⁴ Mae prosiect ychwanegol, Gofal Arennol Cydweithredol, a noddir gan BPRh Cwm Taf Morgannwg hefyd wedi'i gynnwys yn y gwaith maes hwn.

3. Trosolwg o'r Gronfa Trawsnewid

3.1 Mae'r bennod hon yn rhoi trosolwg o'r CT a chrynodeb o ganfyddiadau ac argymhellion allweddol gwerthusiad canol cyfnod y rhaglen. Mae hefyd yn cynnwys diweddariad ar ddatblygiadau polisi a datblygiadau gweithredol perthnasol ers cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso canol cyfnod ac yn ystyried effaith y pandemig COVID-19 ar weithgaredd y CT.

Trosolwg o'r Gronfa Trawsnewid

- 3.2 Amlinellodd 'Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol'⁵, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018, weledigaeth hirdymor o 'system gyfan iechyd a gofal cymdeithasol' ar gyfer y dyfodol. Yn Cymru Iachach, roedd cam gweithredu i 'sefydlu Cronfa Drawsnewid benodol i gefnogi'r gwaith o weithredu'r Cynllun hwn', yn enwedig modelau newydd o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol di-dor a hyrwyddir gan BPRh.
- 3.3 Pwrpas y CT gwerth £100m yw cyflymu'r broses o ddatblygu ac ehangu modelau newydd o ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol a dangos eu gwerth. Mae'r CT yn rhan o'r Rhaglen Trawsnewid ehangach a sefydlwyd i gyflawni'r ymrwymadau yn Cymru Iachach.
- 3.4 Lanswyd y gronfa yn haf 2018, a gwahoddwyd pob un o'r saith BPRh i gyflwyno cynigion ar gyfer cyllid a'u hannog i ganolbwyntio ar fodolau a fyddai'n gwneud cynnydd cynnar ar:
- alinio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn ddi-dor
 - darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sylfaenol a chymunedol yn lleol, a
 - gwasanaethau a gweithgareddau atal integredig newydd.
- 3.5 Y nod yn yr hirdymor oedd y byddai'r rhain, a modelau newydd eraill, yn cael eu mabwysiadu gan ddarparwyr iechyd a gofal cymdeithasol, ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, wedi'u hariannu o'u hadnoddau eu hunain.
- 3.6 Cymeradwywyd cyfanswm o 12 cynnig ar draws y saith BPRh ym mis Mehefin 2019, a ddaeth yn wreiddiol i gyfanswm o £88.5m, fel a ganlyn:
- £6.9m ar gyfer BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg
 - £22.7m ar gyfer BPRh Cwm Taf Morgannwg
 - £13.5m ar gyfer BPRh Gwent

⁵ [Llywodraeth Cymru \(2018\) Cymru Iachach: Ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol](#)

- £13m ar gyfer BPRh Gogledd Cymru
- £2.6m ar gyfer BPRh Powys
- £16.5m ar gyfer BPRh Gorllewin Morgannwg
- £12m ar gyfer BPRh Gorllewin Cymru.

3.7 Yn ogystal, mae'r prosiect Gofal Arennol Cydweithredol gwerth £2m wedi'i ariannu gan y CT. Rhwydwaith Clinigol Arennol Cymru yw'r noddwr gyda Chwm Taf Morgannwg yn gweithredu fel yr BPRh noddedig.

3.8 Ar y cam hwn, rhoddwyd y cyllid i BPRh i'w gyflawni rhwng mis Hydref 2018 a diwedd mis Rhagfyr 2021.

Gwerthusiad Canol Cyfnod o'r Gronfa Trawsnewid

3.9 Cyhoeddwyd y gwerthusiad canol cyfnod o'r Gronfa Trawsnewid ym mis Gorffennaf 2020 ond ystyriodd dystiolaeth a gasglwyd cyn i'r pandemig COVID-19 ddechrau.

3.10 Roedd yn werthusiad proses a oedd yn cynnwys sawl canfyddiad allweddol ynghylch y ffordd y cafodd rhaglen y CT ei dylunio a'i chyflawni gan gynnwys y canlynol:

- ystyriwyd bod gan y rhan fwyaf o'r modelau y potensial i fod yn drawsnewidiol ond roedd y themâu sy'n gorgyffwrdd a dulliau gweithredu tebyg mewn gwahanol ranbarthau yn creu'r risg o ddyblygu ymdrechion
- cyfanswm gwariant cyllideb y CT erbyn diwedd mis Mawrth 2020 oedd 41% o gyfanswm y gyllideb, ond roedd y gwariant wedi cynyddu'n sylweddol yn ystod y chwarter diwethaf (Ionawr - Mawrth 2020)
- roedd yr amserlen wreiddiol ar gyfer cyflawni gwir drawsnewidiad yn ymddangos yn uchelgeisiol a chafodd ei llesteirio ymhellach gan sawl ffactor
- derbyniodd 30 o 'brosiectau' gyllid, ac roedd 22 ohonynt yn weithredol adeg y gwerthusiad canol tymor. Roedd prosiectau a oedd wedi esblygu o'r dulliau presennol ac wedi'u hymgorffori'n fwy yn y ddarpariaeth brif ffrwd yn fwy heriol i'w nodi fel modelau gwahanol
- ni fu'n bosibl adrodd ar ddeilliannau a gyflawnwyd gan brosiectau a ariannwyd, yn bennaf oherwydd bod llawer o brosiectau'n rhai diweddar ac roedd yn rhy gynnar i ddangos dystiolaeth o'r gwahaniaeth a wnaed

- nid oedd llawer o dystiolaeth ar gael i ffurfio barn wybodus ynghylch a ellid cynnal modelau a'u hehangu pan ddaeth cyllid i ben
- roedd angen i brosiectau flaenoriaethu casglu tystiolaeth er mwyn gallu dangos y cyfraniad a wneir gan ymyriadau.

3.11 Yn y gwerthusiad canol cyfnod gwnaed cyfres o argymhellion gweithredol (un i saith) ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen a set arall o argymhellion strategol tymor hwy (wyth i 15) gyda'r nod o ddysgu gwersi ehangach o'r CT hyd yma. Crynhoir yr argymhellion isod:

Ffigur 3.1: Crynodeb o Argymhellion Gwerthusiad Canol Cyfnod y CT

| |
|---|
| <p>Argymhelliad 1</p> <p>Dylai'r BPRh weithio gyda'u gwerthuswyr allanol penodedig er mwyn sicrhau bod gan bob prosiect fframwaith gwerthuso cadarn i gasglu tystiolaeth am ddeilliannau at ddibenion adrodd yn y dyfodol</p> |
| <p>Argymhelliad 2</p> <p>Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ymestyn yr amserlen o leiaf 12 mis. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch datblygiad pandemig y coronafeirws COVID-19, dylid parhau i adolygu'r argymhelliad hwn ac ymestyn yr amserlen eto fyth os oes angen.</p> |
| <p>Argymhelliad 3</p> <p>Lle bo safbwynt y BPRh yn glir nad yw rhai ymyraethau'n gweithio neu nad ydynt wedi dwyn ffrwyth eto, dylid clustnodi'r rhain a sefydlu proses i gau pen y mwdwl ar y prosiectau hyn.</p> |
| <p>Argymhelliad 4</p> <p>Yng ngoleuni pandemig y coronafeirws COVID-19, dylai Llywodraeth Cymru a BPRh ystyried newid ffocws prosiectau'r CT ar gyfer gweddill cyfnod y gweithgareddau a all helpu i leddfu'r pwysau ar iechyd a gofal cymdeithasol. Dylid aildrynnu unrhyw gyllid CT sy'n weddill i weithgareddau COVID-19.</p> |
| <p>Argymhelliad 5</p> <p>Dylai'r BPRh ganolbwyntio ar ddatblygu strategaethau ymadael clir a chadarn ar gyfer eu prosiectau CT yn ystod gweddill y cyfnod fel y gellir cynnal y chwistrelliad o gyllid a ddarperir gan y CT at y dyfodol.</p> |
| <p>Argymhelliad 6</p> |

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried alinio gofynion adrodd y gwahanol gronfeydd fel bod yr holl wybodaeth yn cael ei chyflwyno yn yr un fformat yr un pryd.

Argymhelliad 7

Yn y dyfodol, fel rhan o'r model dylunio a chyflawni ar gyfer trawsnewid, dylid rhyddhau mwy o amser i reolwyr prosiectau ystyried rhannu'r hyn a ddysgwyd o brosiectau'r CT.

Argymhelliad 8

Yn y dyfodol, rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru neilltuo digon o amser yn ystod cyfnod dylunio unrhyw raglen ariannu i weithio mewn partneriaeth â BPRh i ystyried a dadansoddi eu blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer cyllid o'r fath. Dylid datblygu canllawiau manylach sy'n parhau i ddarparu hyblygrwydd, ond sy'n fwy strategol ac wedi eu targedu'n well.

Argymhelliad 9

Yn y dyfodol, dylai fod yna gyfeiriad cliriach gan Lywodraeth Cymru a chyllid ar gyfer llai o brosiectau trawsnewid ond rhai sy'n fwy strategol.

Argymhelliad 10

I ddilyn y CT, dylai Llywodraeth Cymru ystyried rhyddhau cyllid i'r BPRh i gyflawni nifer benodol o fodelau strategol y profwyd eu bod yn gweithio o fewn y cylch ariannu cyfredol hwn (os yw'r dystiolaeth yma ar gael erbyn diwedd y cyfnod ariannu).

Argymhelliad 11

Rydyn ni'n argymhell y dylai unrhyw gronfa drawsnewid yn y dyfodol gynnwys cyfnod cynllunio o chwech i ddeuddeg mis i'r prosiectau a gymeradwyir.

Argymhelliad 12

Dylai fframweithiau gwerthuso cadarn a chlir hefyd gael eu cymeradwyo o fewn cyfnod cynllunio'r prosiectau sy'n cael sêl bendith.

Argymhelliad 13

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried cyfleoedd i gyfuno ffrydiau ariannu yn y dyfodol. Yn benodol mae yna gyfleoedd i edrych ar y posibilrwydd o integreiddio cyllid y Gronfa Gofal Integredig a CT.

Argymhelliad 14

Rydyn ni'n argymhell bod Llywodraeth Cymru'n datblygu meini prawf clir ar gyfer gwerthuso a thempledi ymgeisio ochr yn ochr â chanllawiau, prosesau cymeradwyo a phrosesau rheoli ac adrodd gweithredol cyson. Yn ogystal, dylai BPRh ddangos yn glir sut y byddant yn bodloni'r gofynion adrodd a rheoli gweithredu a gwerthuso o'r cychwyn cyntaf.

Argymhelliad 15

Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd ag AaGIC, Gofal Cymdeithasol Cymru a CGGC roi ystyriaeth, ar lefel genedlaethol, i sut i gynyddu'r capasiti rheoli prosiectau a sgiliau'r rheolwyr o fewn yr adnoddau staffio sydd ar gael yn y system iechyd a gofal cymdeithasol.

Effaith COVID-19

- 3.12 Yn dilyn dyfodiad y pandemig COVID-19 ym mis Mawrth 2020, rhoddwyd canllawiau i bob BPRh yn unol â chyngor wedi'i ddiweddarau a gyhoeddwyd gan Ganolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys atal yr holl weithgaredd monitro, adrodd a gwerthuso arferol yn ymwneud â grantiau ar gyfer y Gronfa Trawsnewid fel bod modd rhyddhau staff i ganolbwyntio ar yr ymateb i COVID-19.
- 3.13 Rhoddwyd hyblygrwydd i BPRh ail-flaenoriaethu adnoddau yn eu prosiectau er mwyn cyflymu neu wella'r gwasanaethau hynny a allai gefnogi'r ymateb i COVID-19. O ganlyniad, cafodd rhywfaint o weithgaredd prosiectau'r CT ei ohirio yn ystod y cyfnod hwn.
- 3.14 Diweddarwyd gofynion gwerthuso BPRh hefyd yn ystod y cyfnod hwn. Gofynnwyd i BPRh gynnal adolygiad o waelodlinau prosiectau lle y gwnaed newidiadau fel y gellid parhau i gasglu tystiolaeth o ddeilliannau a ph'un a allai'r modelau gael eu cynnal neu eu hehangu.
- 3.15 Ar yr adeg hon, roedd llawer o BPRh eisoes wedi bod yn datblygu achosion busnes a strategaethau ymadael ar gyfer prosiectau'r CT (gan eu bod i fod i ddod i ben ym mis Mawrth 2021 yn wreiddiol) i flaenoriaethu unrhyw fuddsoddiad parhaus ac i ystyried sut y gellid cynnal gwasanaethau yn y dyfodol. Yn sgil hynny, gofynnodd Llywodraeth Cymru i bob BPRh gyflwyno eu hachosion busnes / strategaethau ymadael i Lywodraeth Cymru erbyn diwedd mis Medi 2020.
- 3.16 Ym mis Awst 2020, cyhoeddwyd estyniad 12 mis arall o'r Gronfa Drawnewid i fis Ebrill 2022 Vaughan Gething AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd. Roedd y cyhoeddiad yn cydnabod y rôl hanfodol yr oedd cyllid y CT wedi'i chwarae wrth ymgorffori a

chefnogi ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol ehangach yng Nghymru, a'i rôl sylfaenol wrth ymateb i'r pandemig COVID-19.

- 3.17 Ystyriwyd bod y £50m o gyllid ychwanegol ar gyfer y cyfnod o 12 mis yn hanfodol o ran darparu sefydlogrwydd i BPRh a sicrhau parhad ar gyfer gwasanaethau iechyd a gofal allweddol yn ystod misoedd y gaeaf gan dynnu sylw at y ffordd yr oedd prosiectau adref o'r ysbyty a modelau osgoi derbyniadau a ddatblygwyd drwy'r CT ochr yn ochr â defnyddio technoleg ddigidol wedi darparu gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig.

4. Cyflawni'r rhaglen

4.1 Mae'r bennod hon yn edrych ar y modelau gwaith a ddefnyddiwyd gan brosiectau'r CT ac yn adrodd ar unrhyw newidiadau sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf i'r modelau eu hunain ac i gyflymder y newid o fewn prosiectau. Mae hefyd yn ystyried effaith y pandemig COVID-19 ar gyflawni'r rhaglen ac yn adrodd ar unrhyw ddatblygiadau sy'n gysylltiedig â llywodraethu neu ymgysylltu. Mae'r bennod hon hefyd yn tynnu sylw at wersi a ddysgwyd o ran yr hyn sydd wedi bod yn gweithio'n dda a'r rhwystrau sy'n wynebu prosiectau'r CT. Mae'n seiliedig ar adroddiadau diweddaru blynyddol o'r gwerthusiad ar lefel prosiect a lefel ranbarthol a chanfyddiadau gwaith maes.

Modelau Gweithio

4.2 Nid yw'r rhan fwyaf o brosiectau'r CT wedi gwneud unrhyw newidiadau mawr i'w modelau gweithio. Er bod y pandemig COVID-19 wedi effeithio arnynt a bod yn rhaid iddynt newid eu dull gweithredu i gyd-fynd â gofynion penodol i addasu yn ystod y cyfyngiadau symud, mae'r mwyafrif wedi dychwelyd at eu dull gweithredu gwreiddiol a'u modelau gweithio ers hynny.

4.3 Yn sgil dyfodiad y pandemig, ac yn arbennig y cyfyngiadau symud cyntaf rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2020, gorfu i lawer o brosiectau, yn enwedig y rhai a oedd yn ymwneud â gwasanaethau ataliol a gofal a alluogir gan dechnoleg, ehangu ac addasu eu darpariaeth yn eithaf sylweddol yn ystod y cyfnod hwnnw er mwyn cefnogi'r ymateb i'r pandemig.

Rhwydweithiau cymunedol

4.4 Canfu mwyafrif y prosiectau o fewn rhwydweithiau cymunedol eu bod yn chwarae rhan allweddol mewn gweithgareddau a oedd yn rhan o'r ymateb i'r pandemig. Roedd y rhain yn cynnwys:

- **yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg**, Gweithgaredd Hyb Gofal Integredig fel rhan o'r prosiect Model Cyflymu'r Clwstwr
- **yng Ngwent**, y Rhwydwaith Llesiant Integredig
- **yng Ngorllewin Morgannwg**, y prosiect Cydgysylltu Ardal Leol yn Abertawe a Gwasanaeth Diogel ac Iach yng Nghastell-nedd Port Talbot fel rhan o Ein Cynllun Cymdogaeth⁶

⁶ Ad-drefnodd SCVS (Gwasanaeth Gwirfoddol Sirol Abertawe) eu sefydliad cyfan i weithredu ar sail clwstwr i ddarparu gwasanaeth ymateb i COVID

- **yng Ngorllewin Cymru**, prosiect Integreiddio cyflym a chyson.

4.5 Helpodd y rhwydweithiau cymunedol a'r cysylltiadau a sefydlwyd drwy'r prosiectau hyn, ochr yn ochr â rôl hanfodol gan bartneriaid y trydydd sector gan gynnwys Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol, i gefnogi gwaith cynllunio cymunedol a darparu cymorth ymarferol yn ystod yr ymateb i'r pandemig mewn sawl ffordd gan gynnwys:

- trefnu ceisiadau am wasanaeth fferyllol a danfon meddyginiaeth
- cynnal gwiriadau llesiant ar gleifion sy'n agored i niwed
- trefnu gwirfoddolwyr e.e. cynorthwyo gyda chlinigau brechu a chydlynw cludiant i ganolfannau brechu torfol
- dosbarthu adnoddau e.e. pecynnau bwyd, pecynnau crefftiau a bocsys ryseitiau
- lledaenu gwybodaeth a chyfeirio pobl at gymorth perthnasol.

Adre o'r Ysbyty

4.6 Roedd prosiectau Adref o'r Ysbyty y CT hefyd yn rhan ganolog o'r ymateb lleol i COVID-19:

- Parhaodd Ewch â Fi Adref ac Ewch â Fi Adref a Mwy yng **Nghaerdydd a Bro Morgannwg** i ddarparu gweithgareddau a dibynnwyd yn drwm arnynt yn yr ysbyty fel pwynt cyswllt ar gyfer gwasanaethau cymunedol ac i gefnogi'r gwasanaeth cynllunio ar gyfer hyddhau cleifion. Ehangwyd eu gwasanaethau i gynnwys Ysbyty Calon y Ddraig i ddarparu cefnogaeth ar gyfer gynllunio i ryddhau'r rhai sy'n gwella o COVID-19. Mynychodd Ewch â Fi Adref wardiau COVID-19, gan siarad yn uniongyrchol â chleifion a datblygu llwybrau rhyddhau
- yng **Nghwm Taf Morgannwg** parhaodd y prosiect Cadw'n Iach Gartref 2 i ddarparu ei wasanaeth yn Rhondda Cynon Taf drwy gydol y pandemig ond ymatebodd i'r newid yn y galw drwy symud tuag at osgoi ymweliadau ag ysbytai a chefnogi carfan newydd o bobl a oedd yn gorfod gwarchod eu hunain
- yng **Ngwent**, chwaraeodd y prosiect Home First ran allweddol o ran darparu cymorth rheng flaen mewn dau safle aciwt a chafodd ei ail-alinio fel rhan o ddull rhanbarthol o ryddhau cleifion ar draws ardal Gwent cyn dychwelyd at ei gyloch gwaith gwreiddiol o osgoi derbyniadau i'r ysbyty

- yng **Ngogledd Cymru**, drwy Swyddfa benodedig llwyddodd Home First i gynyddu ei weithlu i ddarparu cymorth cofleidiol i bobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty y mae angen cymorth ychwanegol arnynt e mwyn gallu aros gartref.
- Yng Ngorllewin Morgannwg, datblygodd y Gwasanaeth Gwirfoddol Sirol ar y cyd â chydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol, y Llwybr Llesiant Cymunedol fel rhan o'r Gwaith Rhyddhau Cleifion yn Gyflym. Nod y Llwybr oedd cefnogi unigolion sy'n cael eu rhyddhau yr oedd angen lefel isel o gymorth arnynt megis cyfeillio, cymorth emosiynol, bwyd a danfon presgripsiynau. Cafodd rhai rolau staff yn y Cynghrau Gwirfoddol Cymunedol eu had-drefnu i ganolbwyntio ar y cymorth broceriaeth hwn - gan gynnal asesiad cychwynol ac atgyfeirio neu gyfeirio pobl at y trydydd sector.

- 4.7 Awgrymodd rhanddeiliaid fod defnyddioldeb gwasanaethau Adref o'r Ysbyty wedi cael eu tanbriso cyn y pandemig, a bod lefelau gwell o ymddiriedaeth bellach rhwng timau prosiectau a chydweithwyr mewn ysbytai a bod hyn wedi arwain at ganlyniad anfwriadol, sef dileu rhwystr.
- 4.8 Cyflwynwyd Cymuned Ymarfer o ymarferwyr Adref o'r Ysbyty hefyd yn ystod haf 2020, sy'n cael ei redeg ar y cyd gan Lywodraeth Cymru ac Uned Gyflenwi GIG Cymru i gefnogi dysgu ar y cyd a graddio modelau gofal ac arfer da ar draws rhanbarthau sy'n darparu gwasanaethau Home First ac Adref o'r Ysbyty. Edrychodd y Gymuned Ymarfer ar yr elfennau allweddol a ddysgwyd o'r modelau Home First ac Adref o'r Ysbyty presennol yng Nghymru ac ar draws y DU ac archwiliodd sut y gellid datblygu diwylliant mwy cadarnhaol ar gyfer rheoli risg i wella deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Yn sesiynau'r Gymuned Ymarfer ystyriwyd hefyd pa fesurau perfformiad systematig a safonedig y gellid eu mabwysiadu i adeiladu sylfaen dystiolaeth ar gyfer dangos llwyddiant a chawsant adborth gan gyfranogwyr i helpu i lywio datblygiad rhaglenni cyllido'r dyfodol ar ôl mis Mawrth 2022. Mae trafodaethau'r Gymuned Ymarfer wedi arwain at gyhoeddi adroddiad sy'n mynd i'r afael â'r heriau a achosir gan COVID-19 ac sy'n nodi'r gwersi allweddol a ddysgwyd o ran sut y daeth y gwasanaethau hyn yn offeryn hanfodol yn ymateb Llywodraeth Cymru i'r pandemig.

Plant a phobl ifanc

- 4.9 Yn gyffredinol, roedd yn rhaid i brosiectau sy'n gofyn am ryngweithio â phlant a phobl ifanc leihau eu darpariaeth ac addasu i ddarparu eu gwasanaethu ar-lein, lle bo hynny'n bosibl:
- parhaodd prosiect Ymwybyddiaeth o ACEs **Caerdydd a Bro Morgannwg** yn ystod y pandemig, ond roedd y ddarpariaeth ar ffurf sesiynau rhyngweithio rhithwir yn hytrach

nag wyneb yn wyneb. Roedd darpariaeth ar-lein ar gael ar sail un i un gan nad oedd yn bosibl ymgysylltu â grwpiau mawr o blant ar-lein. Datblygwyd adnoddau ar-lein yn llwyddiannus hefyd, gan gynnwys drwy YouTube. Yn ogystal, datblygwyd sesiwn benodol i annog trafodaeth ac ymchwilio i unigrwydd ac ynysigrwydd o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 a oedd i'w gynnal yn 2021/22

- fe wnaeth tîm prosiect y rhaglen Trawsnewid i Blant a Phobl Ifanc yng **Ngogledd Cymru** addasu ei ffyrdd o weithio o ran yr elfen Therapi Amlsystem i sicrhau nad amharwyd ar y gwaith yn ystod y cyfyngiadau symud. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio dulliau o bell a dulliau digidol ynghyd â defnyddio cyfarfodydd wyneb yn wyneb a chymryd y rhagofalon angenrheidiol
- ym **Mhowys** bu'n rhaid i'r ffrwd waith Plant sy'n Derbyn Gofal newid ei dull gweithredu. Er enghraifft, addasodd i recriwtio gofalwyr drwy ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd yn y wasg leol yn hytrach na'r dull llwyddiannus blaenorol o gael stondinau mewn archfarchnadoedd. Canolbwyntiodd y tîm lleoliadau ei ymdrechion hefyd ar ddod o hyd i leoliadau addas yn agosach at adref oherwydd heriau ychwanegol yn ymwneud â'r pandemig a'r amharu ar addysg
- nid oedd modd i Dîm Ysgolion Iach **Powys** gyflawni ei waith yn unol â'r cynllun oherwydd nad oedd modd cael mynediad at gyfleusterau addysg ond fe wnaeth addasiadau er mwyn darparu ei wasanaeth yn ddiogel mewn ysgolion neu drwy ddarpariaeth ar-lein - gyda mwy o staff ysgol yn mynychu o ganlyniad.
- dechreuodd y ffrwd waith Plant yn Gyntaf (Y Trallwng) ym **Mhowys** raglen allgymorth mewn partneriaeth â'r heddlu, gweithwyr ieuenctid ac asiantaethau eraill. Sefydlwyd prosiect newydd o'r enw Safe and Sound a oedd yn darparu lle diogel i bobl ifanc ofyn am gymorth a chael sgwrs a diod boeth. Sefydlwyd grŵp ar-lein hefyd i helpu rhieni ifanc i gael gafael ar gymorth a chyngor.

Gofal a alluogir gan dechnoleg

- 4.10 Soniodd sawl adroddiad diweddar rhanbarthol am sut yr oedd y pandemig wedi dangos yr hyn sy'n bosibl o ran gofal a alluogir gan dechnoleg a sut mae pobl yn ymgysylltu ag ef. Roedd y pandemig yn caniatáu i bobl brofi drostynt eu hunain werth cael mynediad at wasanaethau'n ddigidol. Roedd pobl yn croesawu technoleg a datrysiadau digidol, ac roedd y pandemig yn helpu i dynnu sylw ar bwysigrwydd asesiadau ac ymgynghoriadau o bell mewn lleoliadau cymunedol, er y bu gwrthwynebiad i hyn o'r blaen. Er enghraifft:

- blaenoriaethwyd elfen un y prosiect **Gofal Arennol Cydweithredol** o ganlyniad i COVID-19 i ddarparu gwasanaeth wedi'i alluogi'n ddigidol i gleifion sy'n agored i niwed yn glinigol yng Nghymru. Canfu'r prosiect fod argaeledd gwasanaethau digidol a ddatblygwyd gan y prosiect yn galluogi gwasanaethau i aildrefnu eu darpariaeth yn gyflym ac ar yn helaeth. Roedd cyfraniad y prosiect at barhad y gwasanaeth yn sylweddol. Gan ddefnyddio presgripsiynu digidol, monitro lefelau gwaed yn awtomataidd yn rhanbarth De-orllewin Cymru a rhith-glinigau, llwyddodd y prosiect i leihau sesiynau dialysis o dair gwaith yr wythnos i ddwywaith yr wythnos a thrwy hynny gyfyngu ar y risg y byddai cleifion sy'n agored i niwed yn dal COVID-19. Yn yr un modd, roedd y gofrestr ddigidol (rEPR) yn galluogi adnabod cleifion a ddylai fod yn gwarchod eu hunain na chawsant eu hadnabod i ddechrau drwy'r dull gweithredu canolog.
- yng **Ngogledd Cymru**, llwyddodd y ffrwd waith Trawsnewid Digidol yn y model Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol i dreialu system amserlennu gan ddefnyddio meddalwedd amserlennu. Prynwyd dros 400 o ddyfeisiau llechen ac iPads hefyd i'w defnyddio mewn ysbytai, cartrefi gofal a llety byw â chymorth i hwyluso ymweliadau rhithwir a chefnogi cyfathrebu mewn perthynas â gofal clinigol a gofal cymdeithasol
- yng **Ngorllewin Morgannwg**, cafodd AskMyGP ac agweddau rhith-wardiau prosiect Dull System Gyfan Clwstwr eu hehangu i ymateb i'r pandemig oherwydd yr angen dybryd i ddarparu'r gwasanaeth hwn ar draws meddygfeydd teulu. Bellach defnyddir y gwasanaeth AskMyGP gan ddwy ran o dair o'r holl feddygfeydd yn y clwstwr. Fe wnaeth y prosiect hefyd helpu i ailgynllunio'r gwasanaeth Fflebotomi Ysbyty a Chymuned presennol a fydd yn parhau i fabwysiadu system trefnu apwyntiadau ar-lein. Roedd Gwasanaeth Gwirfoddol Sirol Abertawe, drwy bartneriaeth Cymunedau Digidol Cymru, hefyd yn cefnogi unigolion yr oedd angen cymorth arnynt i gael mynediad at y cyfleusterau ar-lein hyn.

Oedi neu brosiectau wedi'u gohirio oherwydd y pandemig COVID-19

- 4.11 Darperir llawer o enghreifftiau yn yr adroddiadau diweddarau'r gwerthusiad rhanbarthol o brosiectau a oedd naill ai wedi'u gohirio, wedi eu cwtogi neu wedi eu hatal yn gyfan gwbl fel ymateb uniongyrchol i'r pandemig. Yn gyffredinol, roedd y rhain yn brosiectau a oedd yn dal i fod ar gamau datblygu cychwynnol neu'n rhai lle y cafodd timau'r prosiectau eu hadleoli i wasanaethau eraill fel rhan o'r ymateb lleol i'r pandemig. Dyma rai enghreifftiau:

- roedd model plattform ag un pwynt mynediad ar gyfer prosiect Presgripsiynau Cymdeithasol Di-dor **Caerdydd a'r Fro** i fod i gael ei dreialu ddiwedd mis Mawrth 2020. Fodd bynnag, nid oedd modd i'r cwmni a gomisiynwyd i adeiladu'r porth deithio i Gymru i orffen y camau olaf yn unol â'r cynllun. Cyflawnwyd hyn ym mis Medi 2020 ac ers hynny mae'r system wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus i bob meddygfa yn y clwstwr
- byddai model Brysbennu Meddygon Teulu **Caerdydd a Bro Morgannwg** wedi bod yn ddull defnyddiol yn ystod y pandemig ond effeithiwyd yn ddifrifol ar y gwaith o'i gyflawni wrth i dîm y prosiect gael ei adleoli i weithgareddau ymateb i COVID-19 gan gynnwys Profi, Olrhain, Diogelu a'r gwasanaeth CAV24/7 newydd
- mae **Cwm Taf a Morgannwg** yn adrodd y bu oedi cyn gweithredu asesiadau llesiant gan i staff gael eu hadleoli i gynorthwyo gyda'r pwysau uniongyrchol yn sgil y pandemig. Bu'n rhaid gohirio gosod system TGCh Tunstall, sy'n sail i'r ffrwd waith Technoleg Gynorthwyol hefyd
- yng **Ngwent**, bu'n rhaid atal sawl ffrwd waith ym mhrosiect ICEBERG. Nid oedd modd gweithredu clinigau galw heibio nyrsys ysgol, ac nid oedd modd rhoi'r dull gweithredu ar lesiant ysgol gyfan ar waith. Roedd rhai plant a theuluoedd hefyd yn cael anhawster i ymgysylltu â chymjorth o bell, gan ddweud ei bod yn well ganddynt ryngweithio wyneb yn wyneb
- llesteiriwyd y broses o recriwtio staff i weithio ar agweddau ar y rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc yng **Ngogledd Cymru** yn sgil dyfodiad y pandemig, a symudwyd staff eraill i swyddi eraill am sawl mis. Gwelwyd twf yn y rhestrau aros ar gyfer plant ag anghenion ymddygiadol cymhleth a heriol hefyd yn ystod y pandemig
- yn Null System Gyfan Clwstwr **Gorllewin Morgannwg**, bu'n rhaid addasu neu leihau chwech o'r 19 is-brosiect. O ganlyniad, cafodd clinigau cleifion allanol eu gohirio, rhoddwyd y gorau i recriwtio a blaenoriaethwyd ffrydiau gwaith ar gyflyrau cronig penodol
- ym mhrosiect Ein Cynllun Cymdogaeth **Gorllewin Morgannwg**, cafodd dau o'r pum is-brosiect eu haddasu neu eu lleihau. Effeithiwyd yn ddifrifol ar yr is-brosiect Cymorth Cynnar a Phontio wrth i adnoddau gael eu dargyfeirio. Roedd hefyd yn anodd gweithredu Hybiau Cymorth Cynnar gan na ellid defnyddio'r lleoliadau ffisegol. Roedd dull graddol Ein Cynllun Cymdogaeth hefyd yn golygu bod rhai ardaloedd yn cael eu heffeithio'n fwy nag eraill - gyda'r clystyrau hynny a oedd yn llai sefydledig yn cael eu

heffeithio'n waeth nag eraill gan nad oedd modd i'r model gael ei draed dano yn ystod cyfnod y pandemig.

- 4.12 Yn ogystal, roedd staff rhaglenni'r CT yn aml yn cael eu dargyfeirio i gefnogi'r ymateb i'r pandemig ac felly cafodd y dyletswyddau rheoli prosiectau, gan gynnwys casglu tystiolaeth a data, eu gohirio yn y mwyafrif o ranbarthau.

Addasiadau eraill i fodelau gweithio

- 4.13 Amlinellir ambell enghraifft o arloesi yn yr adroddiadau diweddarau rhanbarthol, lle y cafodd modelau eu newid neu eu haddasu am resymau heblaw'r pandemig COVID-19. Er enghraifft:

Cafodd y prosiect Model Cyflymu'r Clwstwr ei integreiddio'n fwy clos ar draws **Caerdydd a Bro Morgannwg** a chytunodd pob un o'r deg practis yn y clwstwr i fod yn rhan o Gwmni Buddiannau Cymunedol. Mae'r broses hon yn gymhleth ac yn ei gwneud yn ofynnol i randdeiliaid ddeall ystod o heriau llywodraethu a gweithredol. O ganlyniad, comisynwyd Canolfan Cydweithredol Cymru i gynghori a chefnogi'r prosiect i ddatblygu model, telerau cytundeb a chynllun dwy flynedd ar gyfer Cwmni Buddiannau Cymunedol.

Yn y **Prosiect Gofal Arenol Cydweithredol**, roedd cyflwyno'r cofnod cleifion electronig yn genedlaethol yn dibynnu ar system unedig ar gyfer Cymru gyfan i ddechrau. Roedd oedi o ran cael rhyngwyneb System Rheoli Gwybodaeth Labordai Cymru (WLIMS) yn golygu bod angen mwy o amser i ddatblygu dull ar gyfer Cymru gyfan. Er mwyn osgoi oedi cyn cyflwyno'r cofnod cleifion electronig i Ogledd Cymru yn ystod y pandemig COVID-19, sicrhawyd bod swyddogaethau'r modiwl meddyginiaethau ar gyfer cofnodion electronig cleifion ar gael drwy'r system yn Ne-orllewin Cymru. Arweiniodd hyn at drosglwyddo'r holl unedau dialysis yng Ngogledd Cymru i system bresgripsiynu a rheoli meddyginiaethau ddigidol erbyn mis Chwefror 2021.

Cafwyd oedi o'r cychwyn cyntaf cyn gweithredu ffrwd waith Timau Iechyd a Llesiant Cymunedol **Cwm Taf Morgannwg** oherwydd problemau gyda recriwtio

a sicrhau cytundeb ynghylch modelau gwasanaeth. Fe wnaeth y pandemig oedi ymhellach y broses o gyflwyno timau newydd.

Oherwydd yr oedi a achoswyd gan COVID-19 i un arall o'i ffrydiau gwaith (Segmentu Poblogaeth a Haenu Risg), mae model cyflawni amgen wedi'i fabwysiadu, gyda thimau'n nodi'r cleifion mwyaf priodol sy'n gallu cael gafael ar y cymorth sydd ar gael drwy gyfathrebu â phractisau meddygon teulu yn hytrach na thrwy'r broses haenu risg.

Yn y prosiect Gofal Seiliedig ar Le yng **Ngwent**, mae timau amlddisgyblaeth wedi parhau i weithio ar lefel practis meddyg teulu gyda phob un o'r 10 meddyg teulu yn cyd-gynhyrchu ac yn cytuno ar fodel cyson mewn un ardal (Blaenau Gwent). O fewn y model diwygiedig, mae rôl 'Cysylltydd Cymunedol' wedi esblygu i rôl 'Gweithiwr Cyswllt' sy'n weithiwr cymorth gwasanaethau cymdeithasol sy'n gysylltiedig ag adnoddau cymunedol. Mae pob meddygfa wedi'i chysylltu â Gweithiwr Cyswllt sydd fwyaf addas ar gyfer anghenion ei phoblogaeth. Yn yr un modd, mae cwmpas 'galwadau ar ôl rhyddhau cleifion' wedi esblygu i fod yn 'alwadau llesiant', sef galwadau ffôn rhagweithiol i gleifion. Felly, mae'r model 'Cymunedau Tosturiol' gwreiddiol y seiliwyd y prosiect Gofal Seiliedig ar Le arno, wedi'i addasu i gyd-fynd yn well ag anghenion lleol, gan gydnabod yr angen i ganiatáu rhyddid i feddygfeydd teulu archwilio sut y gall y dull timau amlddisgyblaethol weithio orau iddyn nhw.

Yng **Ngogledd Cymru**, mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol wedi nodi pwyntiau dysgu pwysig o ganlyniad i weithio drwy'r pandemig. Ymchwiliwyd i fentrau newydd y gwelwyd eu bod yn werthfawr - er enghraifft, cyflwyno gofal cartref 'wedi'i arwain gan therapïau' er mwyn rhyddhau pobl o'r ysbyty yn gyflymach a nodi'r angen am waith mwy ataliol ac uwchsgilio'r gweithlu.

Yng **Ngorllewin Morgannwg**, cyflwynwyd rhai dulliau newydd o ganlyniad i'r pandemig, gan gynnwys Vision 360, gwasanaeth Allgymorth Clinigol Acíwt sy'n

gweithredu mewn un clwstwr sy'n caniatáu i staff weld cofnodion cleifion a gwybodaeth am apwyntiadau o bell drwy blatfform. Ariannwyd peilot Lymffoedema Clinigol hefyd i uwchsgilio nyrsys cymunedol yn y dechnoleg newydd.

- 4.18 Er bod rhywfaint o dystiolaeth ar effeithiolrwydd modelau a fabwysiadwyd a chofnod manwl o'r gwersi sy'n cael eu dysgu, mae'n ddyddiau cynnar o hyd i BPRh allu dweud yn hyderus pa fodolau sy'n gweithio, a pha rai sydd ddim. Mae yna lawer o enghreifftiau o brosiectau sy'n defnyddio barn grwpiau penodol (e.e. staff, sefydliadau partner neu ddefnyddwyr gwasanaethau) i dystio eu bod yn gweithio ond mewn llawer o achosion mae angen triogli'r safbwyntiau hyn â ffynonellau data eraill, megis ystyriaethau arbed costau.

Cyflymder y Newid

- 4.19 Mae'n anodd rhoi trosolwg pendant ar lefel rhaglen o gyflymder y newid ar draws y CT o ystyried cymhlethdod ac amrywiaeth y sefyllfa o fewn rhanbarthau ac ar draws prosiectau. Mae rhai agweddau neu ffrydiau gwaith penodol o fewn prosiectau wedi tyfu'n esbonyddol, ond bu'n rhaid gohirio elfennau eraill neu roi'r gorau iddynt yn gyfan gwbl. Fodd bynnag, o edrych ar yr holl brosiectau mae'n amlwg bod y pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar gyflymder y newid ymysg hanner y prosiectau a'r ffrydiau gwaith.
- 4.20 Mae'r adran flaenorol yn ymchwilio i enghreifftiau o brosiectau lle y cyflymodd y newid - yn bennaf y rhai a allai gyfrannu'n uniongyrchol at yr ymateb i'r pandemig. Mae rhai o'r adroddiadau gwerthuso rhanbarthol wedi mesur cyflymder y newid ar lefel ranbarthol:
- yng **Nghaerdydd a Bro Morgannwg**, nododd pedwar prosiect fod y newid wedi cyflymu, tra bod tri phrosiect wedi eu gohirio neu heb weld unrhyw newid
 - oherwydd yr achosion o COVID-19, penderfynodd bwrdd y prosiect **Gofal Arennol Cydweithredol** flaenoriaethu elfen un - Presgripsiynu a Gweinyddu Meddyginiaethau'n Electronig gan ddefnyddio cofnod cleifion electronig arenol Cymru gyfan (EPMA-rEPR) gan y byddai hyn yn caniatáu i wasanaethau a thriniaethau cynnal bywyd digidol barhau i fod ar gael i gleifion â chlefyd cronig yr arenau sy'n agored i niwed ledled Cymru. Felly cafodd elfennau dau i bump o'r prosiect eu gohirio
 - yng **Nghwm Taf Morgannwg**, roedd y newid yn y prosiectau Technoleg Gynorthwyol a Chadw'n Iach Gartref 2 yn gyflym ac yn dangos gwytnwch i ymateb i'r ymchwydd yn

y galw ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Mae pob prosiect arall, ac yn enwedig prosiectau Uchelgais 1, 2 a 3 Pen-y-bont ar Ogwr i gyd wedi profi oedi wrth o ran eu cynnydd neu mae cyflymder y newid wedi arafu

- yng **Ngwent**, arafodd cyflymder y newid yn gyffredinol yn y prosiectau Gofal Seiliedig ar Le ac ICEBERG ond cafodd ei gyflymu neu ei addasu o fewn y prosiectau Rhwydwaith Llesiant Integredig a Home First
- yng **Ngogledd Cymru**, gwelwyd newid cyflymach yn y prosiect Anabledau Dysgu o ganlyniad i'r galw cynyddol. Arafodd cyflymder y newid yn y prosiect Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol gyflymder y newid yn arafu. Parhaodd y prosiectau Iechyd Meddwl a Phlant i ddatblygu ond roedd cyflymder y newid yn amrywio o fewn elfennau o'r prosiectau oherwydd effaith y pandemig
- ym **Mhowys**, cafodd pedwar maes gwaith o blith naw (Meysydd D, F ac I ac elfennau o Faes E) eu cyflawni â llai o gapasiti neu eu gohirio a chafodd un ei gau (Maes C)
- yng **Ngorllewin Morgannwg**, o blith yr 19 o ffrydiau gwaith sy'n rhan o'r prosiect Dull System Gyfan Gymunedol, penderfynwyd parhau â chwech ohonynt neu eu hehangu i gefnogi'r ymateb i COVID-19, a chafodd y tri ar ddeg arall eu gohirio, eu haddasu neu eu cwtogi mewn ymateb i'r pandemig. Yn y prosiect Ein Cynllun Cymdogaeth, o blith yr 11 ffrwd waith, penderfynwyd parhau â phedair neu eu hehangu i gefnogi'r ymateb i COVID-19 tra bod pob un arall wedi'i ohirio, ei gwtogi neu ei addasu
- adroddodd **Gorllewin Cymru** fod cyflymder y newid yn wahanol ar draws ac o fewn pob un o'r tri phrosiect - gyda rhai agweddau wedi cyflymu ac eraill wedi'u gohirio. Erbyn hyn, bernir bod y prosiect Gofal Rhagweithiol â chymorth technoleg, tua blwyddyn ar ei hôl hi gyda Sir Gaerfyrddin yn arwain ar y gwaith o'i gyflwyno fesul cam ond mae angen i feysydd eraill ddal i fyny. Gwnaed cynnydd ar draws prosiect Integreiddio Cyflym a Chyson ers y tymor canol ac mae bellach yn weithredol ar draws y tair sir. Roedd angen cyflymu rhywfaint ar y prosiect Creu Cysylltiadau oherwydd y pandemig ond bu llai o awydd am rai elfennau o'r prosiect a bydd gwaith ar y gweill i bennu ffocws newydd ar gyfer y prosiect dros y misoedd nesaf.

Y gwariant hyd yma

- 4.21 Nodir y gwariant ar lefel rhaglen ac ar lefel ranbarthol yn erbyn y gyllideb a ddyrannwyd, ym mis Mawrth 2021, yn Nhabl 4.1 isod. Mae'n dangos bod £76.5 miliwn o'r £88.5 miliwn a ddyrannwyd bellach wedi'i ymrwymo ar draws y saith rhanbarth. Mae hyn yn cyfateb i 86 y

cant a wariwyd ers sefydlu'r rhaglen - a chynnydd sylweddol ar y 41 y cant (ac ychydig dros £35 miliwn) a wariwyd hyd at fis Mawrth 2020. Mae gwariant y rhaglen wedi cynyddu'n sylweddol, gan fwy na dyblu ers y cyfnod 15 mis cyntaf.

4.22 Ar lefelau rhanbarthol, mae'r gwariant yn erbyn y dyraniad yn uchel ar y cyfan, gyda thri rhanbarth wedi gwario eu cyllid yn llawn (neu bron yn llawn) (**Gwent, Powys a Gorllewin Cymru**). Mae'r gwariant hyd yma fel cyfran o'r dyraniad rhanbarthol ychydig yn is yng **Ngwm Taf Morgannwg, Gogledd Cymru a Gorllewin Morgannwg**. Mae'r gwariant uchel yn debygol o fod yn adlewyrchiad rhannol o ymateb Cymru o fewn prosiectau allweddol i'r pandemig COVID-19.

Tabl 4.1: Cyllideb a gwariant y Gronfa Trawsnewid (Ionawr 2019 - Mawrth 2021)

| £ (000) | Dyraniad | Y gwariant hyd yma | Gwariant fel% o'r dyraniad |
|-----------------------------|-------------|--------------------|----------------------------|
| Caerdydd a Bro Morgannwg | £6,947,984 | £6,554,200 | 94% |
| Cwm Taf Morgannwg | £22,734,000 | £17,976,792 | 79% |
| Gofal Arennol Cydweithredol | £1,385,124 | £876,289 | 63% |
| Gogledd Cymru | £13,014,000 | £9,427,245.65 | 72% |
| Gorllewin Cymru | £11,963,306 | £11,963,306 | 100% |
| Gorllewin Morgannwg | £16,534,840 | £13,724,250.65 | 83% |
| Gwent | £13,459,000 | £13,437,835 | 100% |
| Powys | £2,554,360 | £2,554,361 | 100% |
| Cyfanswm | £88,592,614 | £76,514,279 | 86% |

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

Cyflawniadau hyd yma

4.23 O ran yr hyn sydd wedi bod yn gweithio'n dda ar gyfer prosiectau'r CT, mae'r adroddiadau diweddaru rhanbarthol yn amlinellu sawl ffactor llwyddiant critigol sydd wedi helpu i symud y gwaith cyflawni yn ei flaen neu alluogi'r gwaith i ehangu yn ystod y cyfnod adrodd hwn. Mae'r rhain yn cynnwys:

Dulliau cyflawni

- symudiad cynyddol tuag at 'ddull system gyfan' gyda mwy o ryng-gysylltedd neu ryngweithio rhwng prosiectau neu ffrydiau gwaith sydd â nodau a deilliannau tebyg
- parodrwydd i fod yn ddewr a rhoi cynnig ar rywbeth newydd a gwthio ffiniau, a dull 'profi a dysgu' o ddatblygu modelau newydd o weithio mewn ymateb i anghenion lleol

- mwy o werthfawrogiad o'r ystwythder, yr hyblygrwydd a'r gallu i addasu y gall cyfranogiad y trydydd sector ei gynnig
- mwy o gydnabyddiaeth o rôl ymatebion a arweinir gan y gymuned yn enwedig o ganlyniad i'r pandemig
- mae angen gweithio'n agosach yn ystod y pandemig gan arwain at gyd-gynhyrchu gwasanaethau newydd e.e. gwasanaeth peilot i gynorthwyo gyda chasglu ffurflenni gwaed o feddygfeydd teulu a dull amlasiantaeth mewn prosiect Trawsnewid i Blant a Phobl Ifanc gan arwain at lenwi bylchau a gwella darpariaeth.

Datrysiadau digidol

- prosiectau yn addasu i ddiwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau drwy ddarparu gwasanaethau ar-lein a thechnegau eraill (e.e. brysbennu dros y ffôn ac asesiadau o bell drwy ymgynghoriadau fideo)
- gwell ymgysylltiad a phresenoldeb o ganlyniad i ddefnyddio cyfarfodydd rhithwir
- newidiadau i ymddygiad a fu'n ofynnol ymhlith aelodau'r gymuned a staff o ran derbyn datrysiadau digidol, sydd bellach yn dwyn ffrwyth gyda mwy o barodrwydd i dderbyn ffyrdd digidol o weithio
- defnyddio dull graddedig o gyflwyno/ehangu prosiectau er mwyn pontio'n ddiraffferth i ffordd newydd o weithio, yn enwedig datrysiadau digidol

Staff a diwylliant y gweithle

- gwell cyfathrebu rhwng gwahanol brosiectau, ffrydiau gwaith ac aelodau'r tîm ynghyd â nodau a phwrpas cyffredin yn ystod y pandemig COVID-19 gyda staff yn barod i ystyried atebion ar y cyd ar lefel ymarferol a lleol a rhoi normau diwylliannol hirsefydlog neu ragfarn broffesiynol o'r neilltu
- mwy o ymddiriedaeth a gwell perthnasoedd yn cael eu datblygu rhwng timau prosiectau a chydweithwyr sy'n gweithio mewn gwasanaethau presennol gan arwain at gysylltiadau ehangach a gwell cefnogaeth i gleifion a llif cleifion
- digon o adnoddau rheoli rhaglenni wedi ymrwymo i brosiect gyda gwybodaeth a phrofiad gweithredol i'w galluogi i symud yn gyflym
- recriwtio staff parhaol i weithio ar brosiectau yn hytrach na cheisio gwneud penodiadau dros dro/secondiadau

- cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu â'r gweithlu a'i addysgu pan gyflwynir dulliau newydd, cymhleth neu anghyfarwydd o weithio
- recriwtio 'asiantau dros newid' i weithio o fewn timau craidd i hwyluso newid gyda hyfforddiant yn cael ei roi i staff ac arweinwyr i gefnogi dulliau newydd ac i hyrwyddo arweinyddiaeth ar lefel leol.
- addasu dull ymchwil gweithredol gan dîm cyflawni ar y cyd â'r tîm gwerthuso gan arwain at ddysgu'n cael ei fwydo'n ôl yn barhaus i hwyluso'r broses o gyflwyno ac ehangu prosiect.
- cytuno ar fframwaith mesur deilliannau clir a pherchnogaeth agosach gan dîm y prosiect er mwyn cael tystiolaeth o effaith.

Heriau ar gyfer gweithredu

4.24 Yn yr un modd, mae adroddiadau diweddarau rhanbarthol yn tynnu sylw at nifer o rwystrau neu heriau a wynebir yn ystod y cyfnod adrodd. Y pandemig COVID-19 oedd yr her fwyaf sylweddol ac mae hyn eisoes wedi'i drafod yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn. Yn ogystal, soniodd prosiectau am rwystrau sy'n gysylltiedig â'r canlynol:

Gweithio traws-sefydliadol

- gweithio mewn seilos neu wahanol ffyrdd o weithio ar draws gwasanaethau statudol a'r trydydd sector
- gwahanol safbwyntiau rhanbarthol sy'n arwain at yr angen i drafod amrywiol elfennau cyflawni - o faterion ariannol i oruchwylio ffrydiau gwaith
- llywodraethu gwybodaeth o ran sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau ac o ran rhannu gwybodaeth ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol a chyda'r trydydd sector
- anghysondeb yn y broses gyflawni oherwydd e.e. gwahaniaethau mewn systemau TG a'r platfformau rhithwir a ddefnyddir neu'r ffaith nad yw gwasanaethau dan gontract o fewn clwstwr meddygon teulu yn orfodol
- biwrocratiaeth ddiangen - er bod y pandemig COVID-19 wedi arwain at heriau adeiladol i reolau a rheoliadau a fyddai wedi parhau i fod ar waith fel arall
- prosesau cymeradwyo rhanbarthol hirfaith ar gyfer achosion busnes a chaffael cyfarpar

- diffyg capasiti a chefnogaeth o fewn rolau gweithredol i ymgysylltu'n llawn â phrosiect a'r ffaith bod prosiectau'r CT yn aml yn cael eu hystyried yn 'ddarn ychwanegol o waith' ac felly'n cael lefelau amrywiol o flaenoriaeth
- problemau'n ymwneud â recriwtio i swyddi allweddol oherwydd natur fyrdymor y cyllid.

Cwmpas a phwrpas prosiectau

- roedd y ffaith bod cymaint o randdeiliaid yn cymhlethu pethau gan arwain at yr angen i fabwysiadu iaith gyffredin a sicrhau dealltwriaeth glir o'r hyn y mae'r rhaglen yn ceisio'i gyflawni
- diffyg eglurder ynghylch cwmpas y prosiect, diffyg dealltwriaeth o rolau allweddol o fewn prosiectau neu ddyblygu ymdrech ar draws gwahanol brosiectau
- tanamcangyfrif cwmpas, maint a chymhlethdod y rhaglen ar y cychwyn, gydag amserlenni'n cael eu heffeithio ymhellach gan y pandemig.

Rheoli prosiectau

- rolau tîm prosiectau a'r rhaglen yn cael eu dargyfeirio o'u ffocws gwreiddiol oherwydd gwahanol flaenoriaethau o fewn sefydliadau unigol
- lefelau anghyson o fanylion heb fawr o ddata gwaelodlin ar gyfer llawer o brosiectau, er gwaethaf canllawiau a chefnogaeth Llywodraeth Cymru, sy'n ei gwneud yn anodd monitro cynnydd ac effaith
- yn groes i'r disgwyliadau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, mesurau perfformiad yn cael eu sefydlu a'u hadolygu yn rhy hwyr yn y broses
- problemau brandio ac anawsterau'n gysylltiedig ag egluro cysyniad sy'n ymwneud â darpariaeth yn y gymuned sy'n golygu ei bod yn anodd i bobl yn y gymuned ymgysylltu â'r prosiect.

Trefniadau llywodraethu

Newidiadau allweddol i drefniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn

- 4.25 Nododd yr adroddiad gwerthuso canol cyfnod fod trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith gan BPRh ar gyfer prosiectau/rhaglenni'r CT yn 'briodol' ac yn 'gweithio'n effeithiol'. Er bod manylion y trefniadau hyn yn amrywio o un rhanbarth i'r llall, roeddent i gyd yn cynnwys

strwythur o bwyllgorau cynrychioliadol a oedd yn darparu llinell atebolrwydd glir o brosiectau unigol y CT i BPRh, a oedd yn aml iawn yn cynnwys trawsnewid 'byrddau' neu 'grwpiau'.

- 4.26 Effeithiodd y pandemig COVID-19 yn sylweddol ar weithrediad y strwythurau hyn, yn enwedig rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2020. Ar draws y rhan fwyaf o ranbarthau, cafodd trefniadau llywodraethu eu lleihau neu eu hatal dros dro er mwyn gallu ymgymryd â gwaith cynllunio brys yn gysylltiedig â COVID-19 ac i ganiatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym. Cafodd staff prosiect/rhaglen eu hadleoli, ac roedd y rhanddeiliaid sy'n ymwneud â grwpiau goruchwyllo prosiectau/rhaglenni trawsnewid yn canolbwyntio gryn dipyn ar ddarparu gwasanaethau rheng flaen.
- 4.27 Lle y parhaodd grwpiau llywodraethu i weithredu, fe wnaethant addasu'n gyflym drwy newid i gyfarfodydd ar-lein, lleihau eu disgwyliadau o ran cynnwys dinasyddion/gofalwyr, ac addasu amserlenni adrodd/cyfarfod er mwyn lleihau'r gofynion ar weddill staff y prosiect/rhaglen ac aelodau'r grŵp. Er y gallai'r newidiadau hyn awgrymu llai o ffocws ar brosiectau/rhaglenni trawsnewid, roedd peth tystiolaeth o sgil-ffeithiau cadarnhaol o ran:
- gwell ymgysylltiad â rhanddeiliaid mewn rhith-gyfarfodydd oherwydd nad oes angen teithio
 - prosesau gwneud penderfyniadau gwell a symlach
 - mwy o gydlynw gwasanaethau gyda sefydliadau lleol a chymunedol
 - partneriaid/gweithwyr proffesiynol yn gweithio'n fwy effeithiol gyda'i gilydd 'i gyflawni pethau'.
- 4.28 Erbyn diwedd 2020/21, roedd timau prosiectau/rhaglenni wedi cael eu hadfer yn rhannol o leiaf ac roedd trefniadau llywodraethu yn cael eu hailsefydlu. Fodd bynnag, nid oedd hyn o reidrwydd yn golygu parhau o'r man lle y daeth pethau i ben ar ddechrau'r argyfwng COVID-19. Ystyriwyd gwersi a ddysgwyd dros y flwyddyn flaenorol, ynghyd â pha mor briodol oedd y trefniadau blaenorol i'r sefyllfa bresennol. Mewn sawl rhanbarth, adnewyddwyd trefniadau llywodraethu i sicrhau eu bod yn gymesur, yn addas at y diben yn yr amgylchiadau sydd ohoni, yn cynnwys y rhanddeiliaid cywir ac yn cyd-fynd yn well â blaenoriaethau BPRh.

Ym **Mhowys**, dangosodd yr heriau a gododd yn sgil y pandemig y gellid symleiddio prosesau gwneud penderfyniadau ac argymhellwyd y dylid

adolygu prosesau llywodraethu'r rhaglen, gan fyfyrir ar y gwersi a ddysgwyd yn ystod cyfnod y pandemig.

Ailedrychwyd ar ffrydiau gwaith a disodlwyd y patrwm sefydledig o gyfarfodydd rheolaidd gan system sydd ond yn galw am gyfarfodydd pan fydd eu hangen. Mae ffrydiau gwaith yn cwrdd yn amlach pan fydd penderfyniadau i'w gwneud neu risgiau i fynd i'r afael â nhw, ac yn llai aml pan nad oes busnes perthnasol i'w drafod. Ochr yn ochr â hyn, mae 'adroddiadau uchafbwyntiau prosiect misol' yn bwydo i gyfarfodydd misol ffurfiol Tîm y Rhaglen a hefyd i adroddiadau chwarterol a gyflwynir i Lywodraeth Cymru.

Cydnabyddir bod angen adolygu ac addasu'r trefniadau'n barhaus er mwyn sicrhau y gwneir y gorau ohonynt ac nad ydynt yn wastraffus.

Yng **Ngorllewin Cymru**, yn sgil cwtogi ar strwythurau llywodraethu yn wyneb y pandemig COVID-19 gwelwyd lleihad mewn meddwl yn strategol ar draws prosiectau/rhaglenni'r CT a gwelwyd elfen o 'weithio mewn seilos' yn dechrau ymsefydlu. At hynny, gohiriwyd penderfyniadau strategol allweddol a chafodd penderfyniadau eu gwneud ar y funud olaf wrth i ddiwedd y flwyddyn ariannol agosáu.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r gwaith wedi canolbwyntio ar ailsefydlu'r strwythurau llywodraethu a chynhaliwyd adolygiad o'r ffordd y mae prosiectau/rhaglenni'r CT yn rhyngweithio gydag agenda ehangach y BRhP. Yn sgil yr adolygiad hwn, sefydlwyd 'Bwrdd Rhaglen Gorllewin Cymru Iachach' i sicrhau cysondeb strategol ar draws rhaglenni/prosiectau'r CT, i oruchwylio'r defnydd o gyllid ac i oruchwylio trefniadau monitro a gwerthuso. Drwy wneud hyn, dysgwyd gwersi o'r agweddau cadarnhaol a ddeilliodd o gwtogi ar y trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith pan oedd y pandemig yn ei anterth.

Unwaith eto, tynnodd y diweddariad o'r gwerthusiad sylw at bwysigrwydd monitro effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu diwygiedig yn y dyfodol.

4.29 Yn gysylltiedig â'r adolygiad o drefniadau llywodraethu mae ffocws cynyddol ar fireinio systemau monitro a rhoi gwaelodlinau a metrigau ar waith sy'n berthnasol i'r prosiectau/rhaglenni sy'n cael eu cefnogi drwy'r CT.

Perchnogaeth ar lefel uwch

4.30 Heb os, mae'r sefyllfa gyda COVID-19 wedi herio gallu uwch swyddogion i barhau i ganolbwyntio ar brosiectau/rhaglenni'r CT yn benodol. Lleihaodd cyfranogiad BPRh a byrddau prosiectau/rhaglenni rywfaint wrth i drefniadau llywodraethu sefydledig gael eu rhoi o'r neilltu ac wrth i reolwyr prosiectau/rhaglenni ddod yn bennaf cyfrifol am oruchwylio.

4.31 Er gwaethaf hyn, fodd bynnag, mae BPRh wedi parhau i dderbyn adroddiadau diweddarau ar brosiectau/rhaglenni ac efallai y disgwylir i gyfranogiad ar lefel uwch adfer wrth i drefniadau llywodraethu diwygiedig gael eu sefydlu ac wrth i'r rhaglen dynnu at ei therfyn.

Rhwystrau i newid

4.32 Mae'r sefyllfa o ran COVID-19 wedi bwrw popeth i'r cysgod dros y flwyddyn ddiwethaf. Tarodd y pandemig ar adeg pan oedd prosiectau'r CT yn cael eu sefydlu a staff yn cael eu penodi i rolau allweddol. Yn sgil adleoli staff sy'n ymwneud â monitro a rheoli prosiectau/rhaglenni'r CT, llesteiriwyd cynnydd ac ansefydlogwyd y trefniadau llywodraethu a roddwyd ar waith.

4.33 Gwaethygyd hyn gan yr heriau o orfod gweithio gyda gwahanol strwythurau adrodd a llywodraethu (yn bennaf ar draws awdurdodau lleol a byrddau iechyd), pryderon ynghylch trefniadau llywodraethu gwybodaeth a rhannu data, absenoldeb data gwaelodlin ystyrlon ac anawsterau wrth gofnodi data perthnasol ar y cynnydd neu effeithiau ymyriadau yn ystod y cyfyngiadau symud olynol.

Ymgysylltu

Cynnwys dinasyddion

4.34 Canfu'r gwerthusiad canol cyfnod fod ymgysylltu wedi bod yn elfen wan o ddull gweithredu BPRh hyd at y pwynt hwnnw, ac nad oedd fawr o dystiolaeth o gyd-ddylunio na chyd-gynhyrchu gwasanaethau. Yn y rhan fwyaf o ranbarthau, cydnabuwyd bod angen gwneud mwy, er bod sut yn union y gallai dinasyddion gyfrannu yn parhau i fod braidd yn aneglur.

4.35 Byddai adroddiadau diweddarau'r gwerthusiad yn awgrymu erbyn dechrau 2020, yn y cyfnod rhwng cynhyrchu adroddiadau gwerthuso canol cyfnod rhanbarthol a'r cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn sgil COVID-19, bod ymgysylltu â dinasyddion, y gweithlu a

rhanddeiliaid yn dod yn nodwedd ychydig yn fwy amlwg mewn prosiectau/rhaglenni a oedd wedi cael eu rhoi ar waith ac yr oedd ganddynt staff. Roedd enghreifftiau o gyfranogiad gweithredol dinasyddion wrth gyd-gynhyrchu gwasanaethau yn dechrau dod i'r amlwg.

Daeth diweddariad o'r gwerthusiad Gwasanaethau Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu yng **Ngogledd Cymru** i'r casgliad nad oes unrhyw amheuaeth bod y Rhaglen hon yn dangos ymrwymiad dwfn i gyfranogiad pobl ag anableddau dysgu a'u rhieni/gofalwyr yn y broses o newid a thrawsnewid, o gychwyn y prosiectau, hyd at y camau cyflawni a gwerthuso.

Mae pobl ag anableddau dysgu a'u rhieni/gofalwyr i'w gweld ar bob lefel, gan gynnwys Bwrdd y Rhaglen a'r Grŵp Cyfranogi, lle y clywir eu lleisiau, a lle mae ganddynt ddylanwad ar wneud penderfyniadau strategol. Maent hefyd yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau mwy gweithredol ac wrth lunio'r offer ar gyfer newid, er enghraifft, cyd-greu'r fframwaith gwerthoedd, cydgynhyrchu modiwlau e-ddysgu ar gyfer hyfforddi staff a chymryd rhan mewn grwpiau cyfeirio a gynullwyd i helpu i werthuso gweithgareddau cyd-ddylunio.

- 4.36 Ers hynny, fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar allu timau prosiectau/rhaglenni i ymgysylltu â dinasyddion: roedd cyfnodau olynol o gyfyngiadau symud yn atal cyswllt wyneb yn wyneb â dinasyddion ac roedd negeseuon yn gysylltiedig â COVID-19 yn boddi sgysiaid ar agweddau penodol ar y system iechyd a llesiant. Yn gyffredinol, roedd staff prosiectau/rhaglenni sydd â chyfrifoldeb dros ymgysylltu yn cael eu hadleoli, mewn rhai achosion i ganolbwyntio'n benodol ar gyfathrebu sy'n gysylltiedig â COVID-19 megis yr ymgyrch 'V for Vaccination' yng **Ngwent**.
- 4.37 Mae'r broses o gynnwys dinasyddion wedi'i chyfyngu i raddau helaeth i ofyn am adborth gan ddefnyddwyr ar eu profiad o wasanaethau sydd wedi'u trawsnewid. Mabwysiadwyd amrywiol ddulliau gweithredu, gan gynnwys defnyddio taflenni adborth ar ddiwedd sesiynau rhyngweithio wyneb yn wyneb, arolygon ar-lein a reolir gan dimau prosiect/rhaglen ac arolygon o gleifion a gynhaliwyd gan werthuswyr annibynnol. Byddai adroddiadau diweddarau'r gwerthusiad yn awgrymu bod datblygu offer a dulliau ar gyfer casglu adborth gan ddefnyddwyr yn faes i dimau prosiectau/rhaglenni ganolbwyntio'n barhaus arno.

- 4.38 Mae ymgysylltu â dinasyddion wrth ddylunio a chydgynhyrchu gwasanaethau yn parhau i fod yn her. Mae adroddiadau diweddarau'r gwerthusiad yn tynnu sylw at natur gymhleth prosiectau/rhaglenni trawsnewid gan eu gwneud yn anodd i ddinasyddion eu deall ac mae hyn yn lleihau awydd dinasyddion i gymryd rhan yn y gwaith o lunio mentrau trawsnewid.
- 4.39 Er gwaethaf hyn, mae BPRh a rheolwyr prosiectau/rhaglenni yn ymdrechu i adfywio gweithgareddau ymgysylltu â dinasyddion, er enghraifft, drwy sefydlu 'paneli dinasyddion', gan ddefnyddio staff y trydydd sector i atgyfodi grwpiau cymunedol 'segur' a defnyddio'r porth ar-lein, Engagement HQ. Mae sawl adroddiad diweddarau'r gwerthusiad yn arwydd o fwriad i ganolbwyntio ar ymgysylltu â dinasyddion dros y 12 mis nesaf, ac mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i ddatblygu 'fframwaith ymgysylltu â dinasyddion yng **Nghaerdydd a Bro Morgannwg**, er enghraifft.

Cynnwys y gweithlu a rhanddeiliaid ehangach

- 4.40 Canfu'r gwerthusiad canol cyfnod fwy o dystiolaeth o ymgysylltu â'r gweithlu. Unwaith eto, fodd bynnag, amharwyd ar hyn gan effeithiau COVID-19 a'r broses o adleoli staff prosiectau/rhaglenni yn sgil hynny.
- 4.41 Serch hynny, mae graddau amrywiol o ymgysylltu â'r gweithlu a rhanddeiliaid wedi digwydd dros y flwyddyn ddiwethaf, wedi'i hwyluso'n rhannol gan strwythurau gweithredol a roddwyd ar waith a pherthnasoedd a sefydlwyd cyn i'r pandemig daro. Er enghraifft:
- Yn y prosiect **Gofal Arenol Cydweithredol** croesawyd ymgysylltiad y prosiect â staff nyrsio yng Ngogledd Cymru yn ystod y broses o gyflwyno'r EPMA a galluogodd hyn i'r staff integreiddio'r system ddigidol yn ddi-dor yn eu hymarfer clinigol, gyda chefnogaeth y tîm cyflawni. Mae staff wedi parhau â'r gwaith cyd-ddylunio gyda defnyddwyr gwasanaethau yn ystod y broses o gyflwyno Elfen un yn ehangach, ac mae ymgysylltu â staff i ddylunio a gweithredu gwasanaethau digidol wedi grymuso staff i anelu at ragoriaeth.
 - yng **Nghwm Taf Morgannwg**, mae cyfarfodydd staff Creu Cymunedau Cydlynol Cadarn sy'n cael eu cynnal bob pythefnos wedi galluogi cyfnewid gwybodaeth a nodi cyfleoedd i wella prosesau
 - ym **Mhowys**, adeiladodd tîm y rhaglen ar weithgareddau ymgysylltu a gynhaliwyd cyn-Covid drwy gynyddu'r ymgysylltiad ag ysgolion ac ymgorffori adborth ar anghenion a blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i'r pandemig yn nyluniad llawer o'u prosiectau, gan gynnwys y prosiect 'Bach ac Iach'

- mae'r rhai sy'n ymwneud â chyflawni'r Prosiect Therapi Amlsystem yng **Ngogledd Cymru** wedi gallu cynnig syniadau ar gyfer mireinio'r gwasanaeth drwy grŵp llywio sy'n cynnwys partneriaid o wahanol rannau o'r 'system'.

4.42 Mewn man arall, gwnaed gwaith hefyd i gael syniad o farn y staff am wasanaethau penodol ac i wahodd awgrymiadau ar gyfer gwella drwy arolygon. Dyma rai enghreifftiau:

- cynhaliwyd arolygon yng **Nghaerdydd a Bro Morgannwg** o farn y staff am y gwasanaeth 'Ewch â Fi Adref' a sut y gellid gwella llif cleifion ac
- arolwg o weithwyr proffesiynol asiantaeth bartner yng **Ngwm Taf Morgannwg** ar eu profiadau o'r gwasanaeth Cadw'n Iach Gartref a syniadau ar gyfer sut y gellid ei ddatblygu.

4.43 Agwedd arall ar ymgysylltu â'r gweithlu a rhanddeiliaid oedd gweithgaredd hyrwyddo i sicrhau bod prosiectau/rhaglenni penodol neu drefniadau gwasanaeth wedi'u trawsnewid yn aros ym meddyliau ymarferwyr. Yng **Nghwm Taf Morgannwg** er enghraifft, trefnwyd 'ail-lansiad' o'r Tîm Iechyd a Llesiant Cymunedol gyda phob clwstwr yn y rhanbarth, yn dilyn adleoli staff pan oedd y pandemig yn ei anterth. Bwriad hyn oedd sicrhau bod staff yn glir ynghylch prosesau, rolau tîm a lleoliadau yn ogystal â chyflwyno staff prosiect newydd i'r rhai sy'n gweithio yn y clystyrau. Mewn meysydd eraill, mae cynlluniau bellach yn cael eu rhoi ar waith i sicrhau bod y gweithlu ehangach yn ymwybodol o wasanaethau sydd wedi'u trawsnewid a fydd yn ddefnyddiol wrth i'r wlad adfer o'r argyfwng. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth y gweithlu o brosiect Home First **Gwent** a rhaeadru negeseuon rhanbarthol lefel uchel am fwriad y rhaglen Trawsnewid Cymunedol yng **Ngogledd Cymru** yn ogystal â straeon 'newyddion da' ag elfen ddynol iddynt sydd wedi'u targedu'n fwy lleol.

4.44 Yn allweddol i'r broses o ymgysylltu â'r gweithlu a rhanddeiliaid roedd defnyddio technolegau digidol, a disgrifiwyd Microsoft Teams fel 'porth' mewn un adroddiad diweddarur'r gwerthusiad. Cydnabyddir hefyd botensial 'pyrth gweithwyr proffesiynol' ar gyfer rhannu gwybodaeth allweddol, dogfennau allweddol a sesiynau briffio ar draws y gweithlu, ond ar hyn o bryd, nid yw hyn wedi digwydd yn eang eto.

4.45 Yn gyffredinol, mae symudiadau ar y gweill i ysgogi gweithgareddau ymgysylltu wrth i effaith COVID-19 ar dimau prosiectau/rhaglenni a'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol ehangach leihau:

- yng **Ngogledd Cymru**, mae fframwaith cyfathrebu ac ymgysylltu rhanbarthol wedi'i ddatblygu a phenodwyd arweinydd cyfathrebu rhanbarthol i gefnogi'r gwaith ymgysylltu.
- ym **Mhowys**, disgwylir i gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu rhithwir gael eu cynnal yn fuan
- yng **Ngorllewin Cymru** comisiynwyd capasiti ychwanegol i ddatblygu fframwaith rhanbarthol a disgwylir y bydd swyddog ymgysylltu yn cael ei benodi.

5. Allbynnau a deilliannau

5.1 Mae'r bennod hon yn nodi'r gwaelodlinau, yr allbynnau a'r deilliannau sy'n cael eu hadrodd gan brosiectau'r CT, gan gyfeirio'n bennaf at adroddiadau diweddarau blynyddol rhanbarthol y gwerthusiad.

Trosolwg

5.2 Bu ymdrech nodedig ar draws y rhanbarthau i fynd i'r afael â'r diffyg tystiolaeth werthuso sydd ar gael ar gyfer prosiectau'r CT sydd wedi arwain at rywfaint o welliant i ledaeniad ac ansawdd y data gwerthuso a nodwyd yn adroddiadau diweddarau prosiectau/rhanbarthol. Mae mwy o ranbarthau a phrosiectau'r CT bellach yn casglu ac yn adrodd ar eu cyflawniadau a'u hallbynnau fel mater o drefn, gan ddefnyddio dangosyddion rhifiadol sy'n cyfleu'n glir 'faint' o weithgaredd sy'n digwydd dros gyfnodau o amser sydd wedi'u diffinio'n glir. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir bob amser ac mae manylion ac ansawdd y dystiolaeth werthuso a gyflwynir ar draws adroddiadau rhanbarthol blynyddol yn parhau i amrywio'n sylweddol. Mewn un rhanbarth, nid yw'r adroddiad gwerthuso blynyddol yn nodi unrhyw ddata ar allbynnau neu ddeilliannau a gyflawnwyd sy'n wahanol i adroddiadau rhanbarthol eraill.

5.3 Nid yw gwerthuso manteision ac effeithiau rhaglenni cymhleth a thrawsnewidiol fel y rhai a ariennir drwy'r CT yn syml, yn anad dim oherwydd bod ganddynt amcanion hirdymor. Fodd bynnag, ar yr adeg hon byddai'n rhesymol disgwyl bod prosiectau'n gallu dangos eu bod yn cyflawni deilliannau tymor byr o leiaf fel arwydd eu bod ar y trywydd iawn i gyflawni eu nodau tymor hwy.

5.4 Nid yw sawl prosiect wedi gallu casglu unrhyw dystiolaeth ystyrlon ac adrodd ar hynny i ddangos eu bod yn cyflawni eu hallbynnau neu eu deilliannau arfaethedig. Yn y mwyafrif o'r achosion hyn, mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith negyddol ar eu gallu i ymgysylltu â'r gwerthusiad ac yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, mae'r gwaith o gyflawni'r prosiect wedi cael ei ohirio neu wedi newid cyfeiriad dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r pandemig wedi cael effaith sylweddol ar allu prosiectau i gasglu a gosod data gwaelodlin, gan fod y rhan fwyaf o'r rhanbarthau wedi nodi eu bod yn bwriadu blaenoriaethu'r dasg hon yn ystod 2020. Mae hyn yn ychwanegu at gymhlethdod y gwerthusiad, gan nad yw prosiectau wedi gallu nodi gwaelodlinau cywir a fydd yn caniatáu iddynt fesur newid dros amser ac nid yw'r set ddata llinell sylfaen a bennwyd cyn y pandemig yn berthnasol mwyach.

Gwaelodlinau

- 5.5 Mae tystiolaeth dda ar draws yr adroddiadau diweddarau blynyddol bod pob BPRh wedi dechrau gweithio ar Fframwaith Gwerthuso ar gyfer eu rhaglenni CT priodol, wedi'i ategu gan ddull Damcaniaeth Newid. Mae'n ymddangos bod y Fframweithiau Gwerthuso hyn wedi'u cymeradwyo gan BPRh ac yn nodi allbynnau a deilliannau wedi'u diffinio'n glir, y gellid eu mesur wedyn wrth gyflawni'r prosiect, a'r broses ar gyfer casglu ac adrodd ar y data. Mae tystiolaeth i awgrymu bod pob rhanbarth o leiaf wedi ceisio nodi'r deilliannau disgwylledig ar gyfer prosiectau'r CT ac mae nifer o'r adroddiadau diweddarau blynyddol yn cyfeirio at y deilliannau hyn drwy fodel Damcaniaeth Newid.
- 5.6 Lle y gwnaed hyn yn effeithiol, roedd y rhanbarthau wedi nodi nifer penodol a hylaw o ddeilliannau allweddol a oedd yn cwmpasu eu holl brosiectau CT (e.e. amlinellodd **Caerdydd a Bro Morgannwg** 14 o ddeillannau allweddol ar draws eu saith prosiect CT, fel y dangosir yn Ffigur 5.1, a nododd **Powys** wyth deilliant tymor canolig ar gyfer ei raglen).

Ffigur 5.1: Deilliannau Allweddol Rhaglen y Gronfa Trawsnewid ar gyfer Caerdydd a Bro Morgannwg

| Deilliannau ac effeithiau allweddol: | |
|---|--|
| Prosiectau 1 a 2 | <ul style="list-style-type: none"> • Cleifion yn cael cefnogaeth gan y gwasanaethau priodol • Cleifion yn cael gwell cymorth pan fyddant yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty • Gwell cydweithio rhwng gwahanol wasanaethau • Iechyd meddwl cleifion yn gwella a chleifion yn teimlo'n llai ynysig • Lleihad mewn derbyniadau brys ar gyfer y clwstwr |
| Prosiect 3 | <ul style="list-style-type: none"> • Cleifion yn chwilio am help yn y gymuned cyn ffonio eu meddyg teulu • Lleihad yn nifer y galwadau yn ystod yr awr gyntaf y mae llinellau'r practis ar agor a galwadau wedi'u lleadaenu'n fwy cyfartal drwy gydol y dydd |
| Prosiectau 4+5 | <ul style="list-style-type: none"> • Cleifion yn cael cymorth pan gânt eu rhyddhau o'r ysbyty a'u hannog i aros yn annibynnol • Llai o angen am becynnau gofal cymdeithasol • Aros yn yr ysbyty am lai o amser • Gwell cyfathrebu rhwng gwahanol wasanaethau • Cleifion yn cael eu rhyddhau'n gyflym o'r ysbyty a dim oedi cyn eu rhyddhau |
| Prosiect 6 | <ul style="list-style-type: none"> • Plant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn cael cymorth i ddiwallu eu hanghenion iechyd a llesiant meddyliol • Staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc wedi datblygu arbenigedd a gwella eu hyder |
| Prosiect 7 | <ul style="list-style-type: none"> • Allbynnau ac effeithiau'n hawdd eu mesur a'r prosiect wedi'i ohirio oherwydd COVID-19 |

Ffynhonnell: Adroddiad Diweddarau Blynyddol Rhaglen Trawsnewid Caerdydd a Bro Morgannwg,

Ffigur 5.2: Deilliannau Allweddol Rhaglen y Gronfa Trawsnewid ar gyfer Powys

1. Mwy o ddefnydd o atebion digidol
2. Gwella cydgysylltiad a chysylltedd rhwng partneriaid i ddiwallu anghenion cyfannol unigolion mewn modd amserol
3. Lleihau'r angen i staff deithio
4. Mwy o ffocws ar waith atal mewn perthynas â phlant
5. Gweithio'n fwy integredig i atal anghenion rhag dwysáu
6. Mwy o ddefnydd o gysylltwyr cymunedol
7. Lleihau teithio y tu allan i'r sir
8. Lleihau anghydraddoldeb drwy gysylltedd ehangach ledled Canolbarth Cymru drwy lwybrau integredig

Ffynhonnell: Adroddiad Diweddarau Blynyddol Rhaglen Trawsnewid Powys,

5.7 Roedd enghreifftiau hefyd lle roedd BPRh wedi grwpio eu deilliannau disgwylidig ar gyfer pob prosiect CT ar draws themâu strategol, megis:

- deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau a chymunedau
- deilliannau i staff, gan gynnwys gweithwyr rheng flaen, gwirfoddolwyr ac arweinwyr
- deilliannau ar gyfer darparu gwasanaeth (er bod y rhain yn tueddu i fod yn llai o ran nifer na'r ddau arall).

5.8 Roedd eraill wedi nodi rhestr hwy o ddeilliannau, yn ymwneud yn bennaf â deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau, gyda deilliannau penodol ar gyfer pob prosiect unigol. Mewn rhai achosion, nid yw'r deilliannau hyn wedi'u diffinio'n benodol nac yn fesuradwy. Mewn achosion eraill, nid oes deilliannau ar waith ar gyfer pob prosiect (e.e., nodir 22 o ddeilliannau ar gyfer tri o blith saith o brosiectau **Cwm Taf Morgannwg**).

5.9 Mae'r cynnydd a wnaed i weithredu Fframweithiau Gwerthuso yn amrywio ar draws y rhanbarthau ac ar draws prosiectau unigol. Mae rhai rhanbarthau/prosiectau wedi gwneud cynnydd da: yn yr achosion hyn, mae adroddiadau blynyddol rhanbarthol yn cyfeirio'n glir at allbynnau a deilliannau disgwylidig, ac mae adroddiadau'n cynnwys tystiolaeth fanwl a data

ar gyfer cyflawniadau yn eu herbyn. Mewn rhanbarthau fel **Caerdydd a Bro Morgannwg a Phowys**, gwelwyd newid nodedig o ddefnyddio system raddio Coch, Oren, Gwyrdd i fesur y cynnydd sy'n cael ei wneud gan brosiectau yn erbyn mewnbynnau neu weithgareddau i fesur cynnydd yn erbyn metrigau allbwn a deilliannau allweddol, a adroddir wedyn drwy Ddangosfwrdd o Ddangosyddion y CT. Cydnabuwyd yn gyffredinol yn y rhanbarthau hyn ar y cam adrodd canol cyfnod nad oedd y mesurau cynnydd a ddefnyddiwyd yn fesuradwy ac nad oeddent yn addas ar gyfer asesu llwyddiant neu fethiant yr ymyriadau a oedd ar waith.

Ar draws **Caerdydd a Bro Morgannwg**, mae'r adroddiad gwerthuso blynyddol yn nodi data perfformiad chwarterol a blynyddol ar gyfer 2020/21 ar gyfer pump o'r saith prosiect sydd wedi'u cyflawni ledled y rhanbarth hwn. Mae adrodd ar ddata fel hyn yn galluogi monitro newidiadau yn erbyn y gwaelodlin. Ystyrir tueddiadau cadarnhaol neu negyddol yn y naratif gwerthuso.

- 5.10 Mewn achosion eraill, nid yw'r Fframweithiau Gwerthuso wedi'u gweithredu'n eang er gwaethaf y gwaith paratoi cychwynnol, yn bennaf oherwydd effaith COVID-19 sydd wedi cyfyngu ar allu'r staff i gymryd rhan mewn gweithgaredd gwerthuso ac wedi addasu ffocws rhai prosiectau i helpu gyda'r ymateb i'r pandemig. Mae dyfodiad y pandemig COVID-19 hefyd wedi golygu na chafodd data gwaelodlin ar gyfer deilliannau a nodir yn y Fframweithiau Gwerthuso erioed eu cofnodi yn y rhanbarthau hyn, gan godi materion ar gyfer y dyfodol i ranbarthau fesur effaith eu rhaglen CT yn eu herbyn. Adroddwyd yn gyffredin hefyd bod llawer o ddata gwaelodlin yn ymwneud â derbyniadau i'r ysbyty, aildderbyniadau a rhyddhau cleifion (lle y cawsant eu sefydlu) wedi dod yn amherthnasol yng nghyd-destun y pandemig COVID-19.

Mae'r prosiect Gofal Seiliedig ar Le yng **Ngwent** yn nodi data gwaelodlin cychwynnol, sy'n berthnasol i'w weithgareddau, gan gynnwys data derbyniadau i'r ysbyty. Fodd bynnag, oherwydd i'r data gwaelodlin gael eu sefydlu cyn y pandemig COVID-19, mae'n anodd cymharu allbynnau'r prosiect ag unrhyw ddata blaenorol a gasglwyd.

- 5.11 Mae rhwystr arall a godwyd gan adroddiad gwerthuso un BPRh, yn ymwneud â lefel y ddealltwriaeth sydd gan staff prosiect y CT o allbynnau a deilliannau ar lefel rhaglen. Yn yr

achos hwn, er bod y tîm craidd yn wybodus, adroddwyd nad oedd dealltwriaeth eang o'r allbynnau a'r deilliannau ledled y rhanbarth.

- 5.12 Cydnabu un rhanbarth fod y pandemig wedi cyfyngu ar ei ymdrechion rheoli perfformiad, ond mae disgwyl i benodiad Swyddog Gwella Perfformiad penodedig yn ddiweddar helpu i adnewyddu'r ymdrech i gofnodi data monitro a pherfformiad y CT.
- 5.13 Er gwaethaf y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud, mae anghysondeb o hyd rhwng, ac o fewn rhanbarthau, o ran prosesau casglu a monitro data. Mae tystiolaeth o effaith y rhaglen CT yn cael ei lesteirio gan ddiffyg data gwaelodlin cyson, prosesau monitro prosiectau a thargedau rhifiadol.

Allbynnau

- 5.14 O ran allbynnau a gyflawnir, yn gyntaf rydym yn ystyried y cynnydd sy'n cael ei wneud yn erbyn pedwar allbwn disgwylidig y CT a nodir yn ein Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid gwreiddiol cyn ystyried allbynnau ar lefel prosiect a adroddwyd ar draws adroddiadau diweddar blynyddol prosiectau/rhanbarthol.

Modelau diriaethol, arloesol, rhanbarthol wedi'u profi a'u cyflwyno

- 5.15 Ariannwyd cyfanswm o 30 o brosiectau⁷ ar draws saith BPRh, gan gynnwys un prosiect **Gofal Arenol Cydweithredol**. Ar y cam canol cyfnod, adroddwyd bod 22 o brosiectau'n weithredol er mai dim ond yn ddiweddar yr oedd nifer wedi cael eu sefydlu bryd hynny.
- 5.16 Erbyn mis Ebrill 2021, roedd 29 o brosiectau wedi bod yn weithredol ers peth amser o leiaf, gyda nifer fach fel y prosiect Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc Bwthyn y Ddôl yng **Ngogledd Cymru** ond wedi dod yn weithredol yn ddiweddar iawn. Mae un prosiect (Haenu a Gwahanu Risgiau) yng **Ngwm Taf Morgannwg** yn dal heb ei weithredu.
- 5.17 At ei gilydd, mae'r rhaglenni gwaith sy'n cael eu hariannu ar draws y CT yn ymdrechion gwirioneddol i brofi modelau cyflawni newydd, yn enwedig y rhai sy'n defnyddio timau amlddisgyblaethol a chyllidebau cyfun. Fodd bynnag, nid ydynt i gyd yn gweithredu ar raddfa ranbarthol. Er enghraifft:
- mae'r prosiect Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc yng **Ngogledd Cymru** yn ceisio sefydlu tîm amlddisgyblaeth hyblyg, dwys sy'n canolbwyntio ar y teulu i weithio gyda phlant sydd fwyaf mewn perygl o ymuno â'r

⁷ Mae'r meysydd gweithgareddau ar draws BPRh Powys yn cael eu hystyried fel un prosiect.

system ofal ar draws Conwy a Sir Ddinbych ac mae'n defnyddio dulliau a fu'n llwyddiannus mewn manau eraill gan gynnwys Dim Drws Anghywir, Gwasanaeth Asesu a Chymorth i Deuluoedd Casnewydd (FASS) a Gwasanaethau Dwys ar Gadwraeth Teuluoedd (IFPS)

- ar draws un ffrwd waith o'r prosiect Gwasanaeth Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu yng **Ngogledd Cymru** mae cyllideb gyfun wedi'i sefydlu rhwng Cyngor Ynys Môn a BIPBC i gefnogi oedolion ag anableddau dysgu y mae angen cymorth iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd arnynt.

Datblygu ac ehangu modelau'n gyflymach nag a wnaed yn absenoldeb cyllid

- 5.18 Mae'r adborth a gasglwyd gan randdeiliaid rhanbarthol yn parhau i awgrymu bod y CT wedi bod yn allweddol o ran sefydlu a gweithredu prosiectau yn gyflymach nag a fyddai wedi bod yn bosibl fel arall. Dadleuodd llawer na fyddai prosiectau wedi cael eu hariannu pe na bai'r CT ar gael i BPRh.
- 5.19 Mae'r pandemig COVID-19 wedi cael effaith gymysg ar eu gallu i barhau i ehangu. Neges allweddol oedd bod COVID-19 wedi rhwystro llawer o brosiectau rhag cael eu hehangu, ond mae awydd pendant i ailflaenoriaethu'r uchelgais hon.
- 5.20 Mae **Gofal Arennol Cydweithredol** yn un enghraifft o brosiect a ariannwyd sydd wedi'i ddatblygu ac sy'n cael ei ehangu ledled Cymru o ganlyniad i'r CT. Cafodd elfen un o'r prosiect hwn, sy'n anelu at greu platfform arenol digidol yng Nghymru i alluogi presgripsiynu a gweinyddu meddyginiaethau, ei dreialu yn Ne-orllewin Cymru a'i gyflwyno yn y Gogledd. Disgwylir y bydd y prosiect yn cael ei rannu ledled Cymru maes o law.

Tystiolaeth gadarn ar gael ynghylch pa fodolau sy'n gweithio (a pha rai sydd ddim) a'r gwahaniaeth a wnaed

- 5.21 Er bod rhywfaint o dystiolaeth ar effeithiolrwydd modelau a fabwysiadwyd a chofnod manwl o'r gwersi sy'n cael eu dysgu, mae'n ddyddiau cynnar o hyd i BPRh allu dweud yn hyderus pa fodolau sy'n gweithio, a pha rai sydd ddim. Mae yna lawer o enghreifftiau o brosiectau sy'n defnyddio barn grwpiau penodol (e.e. staff, neu sefydliadau partner neu ddefnyddwyr gwasanaethau) i dystio eu bod yn gweithio ond mewn llawer o achosion mae angen triogli'r safbwyntiau hyn â ffynonellau data eraill, megis ystyriaethau arbed costau.
- 5.22 Gellir tybio efallai fod BPRh yn ystyried bod pob prosiect presennol yn llwyddo i raddau, gan mai dim ond un elfen o brosiect yr adroddwyd ei fod wedi dod i ben. Mae'n ymddangos bod

prosiectau'n cael eu haddasu, ar sail gwersi a ddysgwyd hyd yma, er mwyn gwneud y mwyaf o'r ffenestr ariannu sydd ar gael i brofi dulliau newydd.

Yr allbynnau sy'n cael eu cyflawni gan brosiectau unigol

- 5.23 Mae'r rhan fwyaf o'r prosiectau wedi gallu adrodd ar rywfaint o ddata yn nodi'r hyn y maent wedi'i gyflawni. Mae'r rhain yn gyffredinol yn ymwneud â gweithgareddau sydd wedi'u rhoi ar waith a'r niferoedd sydd wedi bod yn ymwneud â'r gwasanaeth. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf o brosiectau wedi gallu darparu data ar nifer y defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi ymgysylltu â'r prosiect neu gael cefnogaeth ganddo neu ddata am weithgareddau neu sesiynau a gynhaliwyd.
- 5.24 Mae Tabl 5.1 yn nodi'r allbynnau yr adroddir arnynt yn gyffredin ar draws prosiectau'r CT. Maent wedi'u cyffredinoli cyn belled ag sy'n bosibl - gan fod prosiectau yn aml wedi mabwysiadu allbynnau mwy penodol sy'n adlewyrchu eu hymyriadau. Dylid nodi hefyd bod prosiectau mewn rhai achosion wedi nodi'r rhain fel allbynnau disgwylidig tra bod eraill yn adrodd ar ddata rhifiadol ar gyfer yr hyn a gyflawnwyd.

Tabl 5.1: Allbynnau cyffredin y Gronfa Trawsnewid

| | |
|-------------------------|--|
| Defnyddwyr gwasanaethau | <ul style="list-style-type: none"> • Nifer yr ymholiadau a gafwyd • Nifer y galwadau a dderbyniwyd / a wnaed • Nifer yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd / a wnaed • Nifer y defnyddwyr gwasanaethau a welwyd • Nifer y defnyddwyr gwasanaethau a ymgysylltodd / a gefnogwyd • Proffil demograffig y bobl a ymgysylltodd • Pobl sy'n derbyn ymyriadau penodol • Pobl a gafodd asesiad / cynllun • Pobl a gafodd dechnoleg neu offer/cyfarpar |
| Ymgysylltiad ehangach | <ul style="list-style-type: none"> • Nifer y staff/pobl a hyfforddwyd • Nifer y sefydliadau a ymgysylltodd • Nifer y meddygfeydd dan sylw • Nifer yr ysgolion a ymgysylltodd |
| Gweithgareddau | <ul style="list-style-type: none"> • Adnoddau a grëwyd • Nifer yr apwyntiadau / ymgynghoriadau a gynhaliwyd |

| | |
|---------------------|---|
| | <ul style="list-style-type: none"> • Nifer y cynlluniau / asesiadau a gwblhawyd • Nifer y grwpiau a sefydlwyd • Asedau cymunedol a nodwyd • Amseroedd ymateb i alwadau / atgyfeiriadau a dderbynnir • Ymyriadau a gynhaliwyd ar gyfer pobl (e.e. siopa, casglu presgripsiynau) • Nifer y cyfarpar / offer sydd ar waith • Nifer y cyfeillion digidol a benodwyd • Nifer y cleifon a ryddhawyd |
| Bodddhad ac ansawdd | <ul style="list-style-type: none"> • Cyfran y defnyddwyr gwasanaethau a chanddynt farn gadarnhaol am y gwasanaeth • Defnyddwyr gwasanaethau sy'n gwerthfawrogi'r gwasanaeth a ddefnyddiwyd |

5.25 Gellir gwneud y sylwadau canlynol am natur ac ansawdd yr adroddiadau ar ddata allbwn a nodir mewn adroddiadau gwerthuso prosiectau/rhanbarthol:

- nid yw'r amserlen ar gyfer adrodd ar allbynnau bob amser yn glir ac mae'n amrywio ar draws prosiectau h.y. nid yw'n hysbys a yw'r allbynnau fel nifer y cleifion a welwyd neu nifer y derbyniadau bob mis wedi'u cyflawni, bob chwarter neu bob blwyddyn ac nid yw'n hysbys bob amser a yw cyfanswm yr allbynnau a adroddir yn cwmpasu cyfnod y prosiect cyfan ynteu a yw'n cwmpasu cyfnod penodol o amser (e.e. blynyddol). At ei gilydd, gallai pob prosiect adrodd ar allbynnau mewn ffordd fwy craff. Nid oes cysondeb bob amser o ran y math o ddata allbynnau sy'n cael eu cofnodi gan brosiectau rhanbarthol sy'n gweithredu ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol. Er enghraifft, mewn un prosiect, roedd gwahanol ddata allbynnau yn cael ei gasglu ar draws dwy ardal awdurdod lleol er gwaethaf y ffaith bod y prosiect wedi mabwysiadu dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Canfuwyd bod prosiect arall yn casglu llawer o ddata ar berfformiad a gweithgaredd ond nad oedd yn bosibl eu coladu mewn modd cyson.
- mae rhai prosiectau yn adrodd ar allbynnau a gyflawnwyd mewn ffordd sy'n caniatáu monitro cynnydd dros amser, e.e. cyflwynir allbynnau misol neu chwarterol. Mewn

llawer o'r achosion hyn, mae'r allbynnau cychwynnol yn cael eu mabwysiadu fel data gwaelodlin sy'n caniatáu i farn gael eu llunio ynghylch maint y newid a gyflawnwyd:

Mae'r prosiect Dydd Mawrth yw Pob Dydd yng **Nghwm Taf Morgannwg** (Pen-y-bont ar Ogwr) yn nodi data misol ar gyfer galwadau i'r tîm meddygol symudol a galwadau am ambiwlans a osgowyd ar gyfer 2019/20 a 2020/21. Mae'r data'n dangos cynnydd yn nifer y galwadau am ambiwlans a osgowyd (e.e. o ychydig dros 200 i dros 300 y mis rhwng 2019/20 a 2020/21). Mae'r data hefyd yn dangos amseroedd ymateb gwell ar gyfer y tîm ymateb meddygol symudol.

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yng **Ngogledd Cymru** yn adrodd ar nifer o allbynnau allweddol a gyflawnwyd, yn aml yn erbyn y waelodlin. Er enghraifft, mae ei elfen Cymunedau Digidol yn adrodd ar nifer yr ipads a brynwyd ac a ddefnyddir (1,127 o ddyfeisiau o gymharu â 427 o ddyfeisiau ar y waelodlin) a nifer y cyfeillion digidol a benodwyd (390 o gymharu â llinell sylfaen o sero).

Mae elfen un o'r prosiect **Gofal Arennol Cydweithredol** yn adrodd ar allbynnau chwarterol fel nifer yr unedau arenol a wardiau sy'n defnyddio presgripsiynu electronig a gweinyddu meddyginiaethau (EPMA), sy'n dangos cynnydd yn ystod 2020 i 15 lleoliad o'r fath erbyn mis Mawrth 2020. Yn yr un modd, mae'r prosiect yn adrodd ar nifer y bobl sydd ar hemodialysis mewn canolfan, sy'n dod o dan yr EPMA, sydd eto'n dangos cynnydd yn ystod 2020 o 453 i 742 o gleifion.

- ychydig iawn o brosiectau sydd wedi gosod targedau allbwn neu fesur perfformiad i'w cyflawni. Mewn rhai achosion nid yw'r allbynnau hyn yn arbennig o ystyrlon gan eu bod yn adlewyrchu darpariaethau neu fewnbynnau hanfodol y byddai disgwyl iddynt eu cael gan y prosiect e.e. nifer y timau amlddisgyblaethol a sefydlwyd. Mae eraill, fodd bynnag, yn tueddu i fod yn fwy strategol a hirdymor eu natur. Er y dylid cadw'r

rhain yn ein barn ni, byddai gwerth eu rhannu'n dargedau blynyddol, o ystyried eu natur hirdymor:

Mae'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yng **Ngogledd Cymru** yn nodi allbynnau gwaelodlin (sero), targed (14) a gwirioneddol (3) ar gyfer nifer yr ardaloedd iechyd a gofal cymdeithasol integredig a sefydlwyd ledled y rhanbarth. Yn yr achos penodol hwn mae COVID-19 wedi gohirio'r gwaith a disgwylir i dargedau newydd gael eu gosod ar gyfer 2021/22.

Deilliannau

- 5.26 Mae amrywiaeth eang yn y dystiolaeth sy'n cael ei chasglu a'i hadrodd ar draws y rhanbarthau i ddangos bod prosiectau'r CT yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd. Mae pum rhanbarth yn gwneud hyn i raddau gan fod ganddynt o leiaf rywffaint o dystiolaeth ar gyfer y deilliannau sy'n cael eu cyflawni gan eu prosiectau CT tra bod y ddau ranbarth sy'n weddill yn cydnabod bod angen iddynt wella eu dull gweithredu. Mae adroddiadau gwerthuso rhanbarthol yn dadlau'n gyffredin, gan fod y deilliannau a fwriadwyd ar gyfer prosiectau'r CT yn rhai hirdymor, y bydd y dystiolaeth sy'n cael ei chasglu ar allbynnau a deilliannau tymor byr yn rhoi rhyw syniad a yw prosiectau'n cael effaith fuddiol ar ddefnyddwyr gwasanaethau a'r ddarpariaeth.
- 5.27 Gan fod COVID-19 wedi tarfu ar y gwaith o gasglu data gwerthuso, mae adroddiadau gwerthuso rhanbarthol yn aml yn dibynnu ar adborth ansoddol a deunydd o astudiaethau achos i ddangos y gwahaniaeth sy'n cael ei wneud gan brosiectau. Mae rhai adroddiadau yn gosod metrigau ar gyfer deilliannau meintiol, ac amlygir y rhain fel enghreifftiau yn yr adran hon.
- 5.28 Mae dau adroddiad gwerthuso rhanbarthol yn argymhell bod y BPRh yn blaenoriaethu ac yn gwella eu gwaith i ddangos y gwahaniaeth y mae prosiectau'r CT yn ei wneud:
- daw un adroddiad gwerthuso rhanbarthol i'r casgliad fod y dystiolaeth ar ddeilliannau yn waith yn ysbeidiol ac anghyson⁸, bod y dull gweithredu yn amrywio ar draws gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol yn y rhanbarth, a bod dystiolaeth gyfyngedig o ddull systematig o werthuso rhaglenni ar draws pob un o'r rhaglenni. Yn yr achos hwn

⁸ t.37

mae'r dystiolaeth a ddarperir ar gyfer deilliannau yn anecdotaidd ei natur ac mae'r adroddiad yn argymhell y dylai cofnodi deilliannau gael ei ymgorffori'n llawn mewn prosesau casglu data ledled y rhanbarth.

- canfu adroddiad gwerthuso rhanbarthol arall mai prin yw'r data meintiol cyfyngedig a gasglwyd⁹ gan argymhell bod y BPRh yn datblygu ac yn monitro metrigau perfformiad, i fesur effeithiau diriaethol y rhaglen a chyfrifo enillion ar fuddsoddiad, arbedion ariannol, a chost a budd.

Deilliannau ar lefel prosiect

5.29 Mae Tabl 5.2 yn amlinellu'r deilliannau a adroddir yn gyffredin (penodedig a mesuradwy) sy'n cael eu cyflawni ar draws prosiectau'r CT. Maent wedi'u cyffredinoli cyn belled ag sy'n bosibl o ystyried bod prosiectau wedi pennu deilliannau mwy penodol sy'n adlewyrchu eu hymyriadau.

Tabl 5.2: Deilliannau cyffredin yr adroddir amdanynt o ran y CT

| | |
|--|--|
| Deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau | <p><i>Mynediad at wasanaethau</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynediad at wasanaethau yn nes at y cartref / yn eu cartref eu hunain • Mynediad at wasanaethau pan fydd eu hangen • Mynediad at wasanaethau 'sy'n bwysig' iddyn nhw • Mynediad at wasanaethau yn gynharach / llai o amseroedd aros • Mynediad at ofal o safon uwch • Pobl sy'n derbyn cymorth gan y gwasanaethau priodol • Llwybrau clinigol gwell a byrrach <p><i>Manteision a'r gwahaniaeth a wnaed</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Llai o unigrwydd a gwell cysylltiad cymdeithasol • Mwy o hyder • Gwella iechyd a lles meddyliol • Mwy o annibyniaeth gartref • Llai o ddibyniaeth ar wasanaethau statudol |
|--|--|

⁹ t.28

| | |
|---|--|
| <p>Deilliannau i deuluoedd a phlant</p> | <ul style="list-style-type: none"> • Plant sy'n Derbyn Gofal yn aros yn sefydlog • Plant yn aros yn eu cymunedau lleol • Plant yn derbyn gofal gan eu teuluoedd • Plant yn cael mynediad at wasanaethau cyffredinol • Gwell rhianta • Gwell perthnasoedd o fewn teuluoedd • Gwell ymddygiad gan blentyn/person ifanc • Gwell deilliannau addysgol a chyflogaeth i bobl ifanc • Teuluoedd yn dod yn fwy gwydn |
| <p>Deilliannau i'r gwasanaeth a ddarperir</p> | <p><i>Modelau gweithio</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Gwell cyfathrebu rhwng gwahanol wasanaethau • Staff yn gweithio mewn ffordd fwy integredig a chydlynol ar draws disgyblaethau • Staff ar draws y sefydliad partner yn fwy hyderus i weithio gyda gwahanol gynulleidfaoedd • Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well • Mwy o ddefnydd o atebion digidol <p><i>Lleihau'r galw ac arbed costau</i></p> <ul style="list-style-type: none"> • Llai o dderbyniadau i'r ysbyty • Rhyddhau cleifion yn gyflymach o'r ysbyty • Aros yn yr ysbyty am gyfnod byrrach • Llai o alw ar feddygon teulu • Llai o alw ar wasanaethau cludo mewn ambiwlans • Lleihad mewn gwasanaethau gofal heb ei drefnu • Llai o angen am becynnau gofal cymdeithasol • Arbedion o ran costau |

5.30 Mae'r dystiolaeth a gyflwynwyd ar gyfer sicrhau deilliannau ar draws prosiectau a ariennir yn cael ei hystyried isod. Mae'n amhosibl cydgrynhoi'r dystiolaeth neu gwmpasu pob prosiect yn yr adroddiad macro hwn, felly defnyddir prosiectau penodol i ddangos sut mae'r deilliannau hyn yn cael eu cyflawni. Diben yr enghreifftiau canlynol yw bod yn enghreifftiau dangosol, yn

hytrach na bod yn gofnod cynhwysfawr o'r gwahaniaeth sy'n cael ei wneud gan brosiectau'r CT yn eu cyfanrwydd.

Deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau - mynediad at wasanaethau

- 5.31 Mae dau o brosiectau **Caerdydd a Bro Morgannwg** (Gwasanaethau Ataliol Ewch â Fi Adref ac Ewch â Fi Adref a Mwy, Prosiectau 4 a 5) yn adrodd eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau sydd bellach mewn sefyllfa i elwa yn sgil cyfathrebu gwell am yr hyn sy'n bwysig iddyn nhw, cael eu rhyddhau'n gynharach gyda chymorth a'u cyfeirio at wasanaethau eraill. Defnyddir mesurau a fabwysiadwyd ar gyfer y prosiect (e.e. nifer y cleifion unigol a gefnogir pan gânt eu rhyddhau, nifer y cleifion unigol a gefnogir gyda materion yn ymwneud â thai, neu achosion a ddatryswyd yn ystod y cyswllt cyntaf) fel tystiolaeth ar gyfer y deilliannau hyn yn ogystal ag astudiaethau achos unigol sy'n tynnu sylw at yr amser sy'n cael ei arbed i glinigwyr a staff wardiau pan fydd materion yn cael eu datrys yn uniongyrchol gan brosiectau.
- 5.32 Mae'r prosiect Cadw'n Iach Gartref yng **Ngwm Taf Morgannwg** yn adrodd ar wyth deiliant allweddol gan gynnwys mwy o bobl yn derbyn gofal yn eu cartref eu hunain, llai o bobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty a mwy o bobl yn cael mynediad at wasanaethau galluogi pan fydd eu hangen arnynt. Mae dwy astudiaeth achos yn dangos yn effeithiol sut mae deilliannau cadarnhaol, fel ymateb i atgyfeiriadau yn fwy prydlon, y galw'n gwastatáu drwy gydol yr wythnos a'r gallu i ymateb yn gyflym i anghenion a nodwyd, yn cael eu cyflawni. Mae'r prosiect yn enghraifft dda o waith atal effeithiol ac ymyrraeth gynnar drwy wasanaeth ymateb cyflym: 'The multidisciplinary nature of the SW@H2 has fostered a practical, 'can do' approach and a sense of shared responsibility for ensuring better outcomes for individuals.'¹⁰
- 5.33 Adroddiad y prosiect Dydd Mawrth yw Pob Dydd yng **Nghwm Taf Morgannwg** (ardal Pen-y-bont ar Ogwr) ei fod yn cael effaith gadarnhaol ar amseroedd ymateb gwell ar gyfer y timau ymateb symudol, a thrwy hynny gynnig gwasanaeth mwy amserol a chyfrifol i ddefnyddwyr. Daw'r adroddiad i'r casgliad fod y cynnydd mewn gweithgaredd yn gwella'r deilliannau i bobl sydd wedi defnyddio eu larymau teleofal drwy sicrhau ymateb mwy prydlon, gan atal unrhyw oedi hir i'r rhai sydd wedi cwmpo, sicrwydd mwy prydlon ac atgyfeirio/triniaeth fwy prydlon¹¹.

¹⁰ (t42-43)

¹¹ Adroddiad Diweddaru Rhanbarthol y Gwerthusiad y Gronfa Drawnewid Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg, Mai 2021

- 5.34 Adroddodd y prosiect Ein Cynllun Cymdogaeth yng **Ngorllewin Morgannwg** fod yr amser aros i ddefnyddwyr gwasanaethau sy'n cael mynediad at ofal yn y cartref wedi gostwng o 42 diwrnod i 29 diwrnod, oherwydd i lwybrau ail-alluogi gwell gael eu cyflwyno ar gyfer gofal ac adolygiad yn y cartref.
- Deilliannau i ddefnyddwyr gwasanaethau - y manteision a'r gwahaniaeth a wnaed*
- 5.35 Mae'r adborth gan ddefnyddwyr y Gwasanaeth Datblygu Cymunedol (drwy'r Model Cyflymu'r Clwstwr a Phrosiectau Presgripsiynau Cymdeithasol Di-dor yng **Ngshaerdydd a Bro Morgannwg** yn awgrymu gwell llesiant meddyliol a llai o unigedd ac unigrwydd o ganlyniad i'r ymyrraeth, boed hynny drwy weithgareddau grŵp neu drwy fynediad at gymorth un i un fel costau ffôn rheolaidd, ymweliadau â chartrefi neu gymorth i bobl tra byddant yn gwarchod eu hunain.
- 5.36 Mae prosiect Iechyd a Llesiant Cymunedol **Cwm Taf Morgannwg** yn adrodd y bu gwelliant i lesiant defnyddwyr gwasanaethau, gan ddefnyddio asesiadau a gynhaliwyd cyn ac ar ôl y prosiect gan staff proffesiynol
- 5.37 Mae'r Dull Un Tîm sy'n Canolbwyntio ar Bobl yng **Nghwm Taf Morgannwg** (Ardal Pen-y-bont ar Ogwr) yn darparu tystiolaeth bod nifer y cwynion a dderbyniwyd oherwydd negeseuon a gollwyd a chyfathrebu gwael wedi lleihau a bod adborth cadarnhaol wedi'i gasglu ar gyfer y gwasanaeth un pwynt mynediad a roddwyd ar waith. Mae enghreifftiau o astudiaethau achos yn dangos sut mae'r prosiect wedi gallu cefnogi pobl i aros gartref am gyfnod hwy.
- 5.38 Mae'r prosiect Gwasanaethau Di-dor i Bobl ag Anableddau Dysgu yng **Ngogledd Cymru** yn rhaglen eang gyda sawl ffrwd waith arbrofol ar raddfa fach. Daw'r adroddiad gwerthuso rhanbarthol i'r casgliad fod arwyddion cadarnhaol bod newid yn dechrau digwydd a bod cyflawniadau cynnar i'w gweld. Mae rhai ffrydiau gwaith, megis y ffrwd waith Pontio i Deuluoedd yn Sir Ddinbych a Chonwy, yn adrodd ar fanteision i bobl ifanc a'u teuluoedd sydd wedi ymgysylltu â'r gwasanaeth hwn
- 5.39 Mae Rhaglen Trawsnewid Iechyd Meddwl ICAN yng **Ngogledd Cymru** wedi nodi sawl deilliant allweddol i'w cyflawni ond mae llai o gapasiti yn ystod y pandemig COVID-19 wedi cyfyngu ar werthusiad manwl gan ddefnyddio, er enghraifft, offer cydnabyddedig fel Graddfa Llesiant Meddyliol Caeredin Warwick. Er gwaethaf hyn, mae'r dystiolaeth gychwynnol yn awgrymu bod gwasanaethau ICAN yn effeithiol o ran cynorthwyo pobl i sicrhau gwell ansawdd bywyd, perthnasoedd mwy sefydlog, goresgyn stigma, cynnal gwaith sefydlog a hobiau. Canfu'r gwerthusiad hefyd fod y prosiect yn effeithiol o ran lleihau'r galw gan

ddefnyddwyr am wasanaethau eraill e.e., roedd tua hanner y defnyddwyr gwasanaethau a arolygwyd yn teimlo bod gwasanaethau ICAN wedi eu helpu i osgoi gorfod mynd i'r ysbyty, cael eu rhyddhau pan oeddent yn barod, aros gartref yn eu cymuned a gofalu am eu llesiant meddyliol eu hunain.

- 5.40 Awgryma'r dystiolaeth ragarweiniol a gasglwyd fel rhan o werthusiad y prosiect **Gofal Arennol Cydweithredol** y dylai cyflwyno elfen un arwain at well cymorth i gleifion o ran nodi, atal a rheoli clefyd yr arenau mewn ffordd gynaliadwy. Dylai fod gan gleifion fynediad mwy cyfartal at dimau amlbroffesiynol arbenigol drwy wasanaethau allgymorth a chael mwy o fynediad i'w cofnodion eu hunain drwy ddyfeisiau personol. Cesglir barn defnyddwyr gwasanaethau i ddilysu'r deilliannau hyn dros weddill cyfnod cyflawni'r CT.

Deilliannau i deuluoedd a phlant

- 5.41 Awgryma'r dystiolaeth ar gyfer y prosiect ICEBERG yng **Ngwent** fod y prosiect yn cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd gan y gallant gael cymorth yn gynharach nag y byddent wedi'i gael o'r blaen a thrwy hynny gael gwasanaeth gwell a mwy amserol. Yn ogystal â'r deilliannau hyn i deuluoedd, mae'r gwerthusiad hefyd yn nodi bod staff rheng flaen yn fwy hyderus wrth reoli achosion eu hunain gan leihau'r angen i atgyfeirio achosion at eraill, mae staff yn gweithio mewn ffordd fwy integredig a chydlynol ar draws disgyblaethau (addysg, gofal cymdeithasol, y trydydd sector ac iechyd) ac mae potensial ar gyfer cynaliadwyedd ariannol hirdymor.
- 5.42 Awgryma tystiolaeth werthuso gychwynnol ar gyfer prosiect Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc Bwthyn y Ddôl yng **Ngogledd Cymru** fod y gwasanaeth yn cael ei werthfawrogi gan ddefnyddwyr a'i fod yn helpu i fynd i'r afael yn well ag anghenion teuluoedd a'u cefnogi i ddod yn fwy gwydn. Fodd bynnag, mae angen mwy o dystiolaeth i ddangos effeithiolrwydd y dull o gyflawni deilliannau tymor hwy fel galluogi plant i aros yn eu cymunedau lleol.
- 5.43 Canfu gwerthusiad o'r prosiect Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc - Gwasanaeth Therapi Amlsystem Gogledd-ddwyrain Cymru yng **Ngogledd Cymru** fod y dystiolaeth yn gyfyngedig gan mai dim ond naw achos a oedd wedi cwblhau eu taith gyda'r gwasanaeth adeg y gwerthusiad, ac o'r herwydd roedd maint y sampl yn rhy fach i ddod i unrhyw gasgliadau pendant. Er gwaethaf hyn, canfu adolygiad o ffeiliau achos dystiolaeth gadarnhaol gychwynnol o well rhianta, gwell perthnasoedd o fewn teuluoedd, gwell ymddygiad gan blentyn/person ifanc ynghyd â gwell llesiant emosiynol ymhlith plant a phobl ifanc.

5.44 Adroddodd y Prosiect Ein Cynllun Cymdogaeth yng **Ngorllewin Morgannwg** fod nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn y rhanbarth wedi aros yn sefydlog, o ganlyniad i gyflwyno Hybiau Cymorth Cynnar.

Deilliannau ar gyfer gwasanaethau - modelau gweithio

5.45 Mae elfen Hyb Gofal Integredig Prosiect 1, Model Cyflymu'r Clwstwr yng **Nghaerdydd a Bro Morgannwg** yn sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cael eu hintegreiddio'n well, gydag adborth gan staff proffesiynol yn cael ei ddefnyddio fel tystiolaeth i gefnogi hyn. Nododd un cyfrannwr at y gwerthusiad mai '*un o'r pethau a wnaeth greu rhwystredigaeth fawr i mi fel meddyg teulu oedd y diffyg cyfathrebu rhwng gwahanol wasanaethau... felly mae wedi bod yn wych cael yr Hyb yno i ddarparu'r cydlyniant a gwaith cydweithredol rhagorol rhwng y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol.*'

5.46 Ar gyfer Prosiectau 4 (Gwasanaethau Ataliol Ewch â Fi Adref) a 5 (Ewch â Fi Adref a Mwy) yng **Nghaerdydd a Bro Morgannwg**, mae tystiolaeth o gyfathrebu a chydweithio gwell rhwng ysbytai a lleoliadau cymunedol ynghyd â thystiolaeth o gleifion yn cael eu rhyddhau'n gyflymach o ysbytai a'r nifer lleiaf posibl o gleifion yn aros i gael eu rhyddhau o ganlyniad.

5.47 Mae adroddiad gwerthuso rhanbarthol y Prosiect Home First yng **Ngwent** yn nodi bod arwyddion cynnar bod y prosiect yn dechrau newid ethos y rhai sy'n gweithio yn Home First neu gydag ef, gan ei fod yn prysur ddod yn opsiwn a ffeirir i eraill. Mae'r adroddiad yn cydnabod bod mesur y newid hwn mewn diwylliant yn heriol ond awgryma tystiolaeth gynnar fod mwy o bobol ar draws ysbytai yn gwybod am y gwasanaeth bellach ac mae adborth gan y staff yn awgrymu ei fod wedi dod yn wasanaeth sydd wedi bwrw gwreiddiau ledled y rhanbarth.

5.48 Mae adroddiad gwerthuso'r Rhaglen Trawsnewid Cymunedol yng **Gogledd Cymru** yn darparu rhywfaint o dystiolaeth gychwynnol ar gyfer y deilliannau sy'n cael eu cyflawni ond mae'n cydnabod ei bod yn 'rhy gynnar yn y rhaglen i ddangos yr effaith lawn ar ddeilliannau.' Mae gan y rhaglen gynlluniau trawsnewid hirdymor fel creu endidau iechyd a gofal cymdeithasol integredig ledled y rhanbarth, ac mae hyn yn debygol o gymryd amser. Mae tri o'r endidau hyn wrthi'n cael eu sefydlu, yn erbyn targed o 14. Mae'r prosiect hefyd yn gweithio ar y dystiolaeth ar gyfer yr effaith y bydd yn ei chael ar bobl gan ei fod yn dal i gyfeirio at 'fanteision posibl' ar hyn o bryd.

Deilliannau i wasanaethau - lleihau'r galw ac arbed costau

- 5.49 Adroddodd elfen ymatebydd symudol y prosiect Technoleg Gynorthwyol yng **Nghwm Taf Morgannwg** ei bod wedi cael effaith gadarnhaol ar osgoi galwadau am ambiwlans a chludo pobl i'r ysbyty. Er enghraifft, adroddwyd bod 1,883 o alwadau brys a 1,734 o achosion o gludo pobl i'r ysbyty wedi'u hosgoi dros gyfnod o chwe mis yn ystod 2020/21.
- 5.50 Adroddodd y prosiect Timau Iechyd a Llesiant Cymunedol yng **Nghwm Taf Morgannwg** ostyngiad mewn llwybrau gofal heb ei drefnu fel cludo pobl i'r ysbyty a llai o gysylltiadau â meddygon teulu y tu allan i oriau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a gefnogir gan y prosiect. Tybir bod y deilliannau hyn wedi digwydd o ganlyniad i ymyriadau ond ni chânt eu mesur mewn unrhyw ffordd.
- 5.51 Mae'r prosiect Dydd Mawrth yw Pob Dydd yng **Nghwm Taf Morgannwg** (Ardal Pen-y-bont ar Ogwr) wedi defnyddio'r CT i gyflogi staff ychwanegol sydd wedi caniatáu iddo ehangu ei dîm. Awgryma'r data fod y prosiect wedi gallu cynyddu'r ddarpariaeth, gwella amseroedd ymateb yn ogystal â lleihau'r galw ar y gwasanaeth ambiwlans. Noda'r adrodd gwerthuso rhanbarthol fod cyfanswm y costau a arbedwyd gan y prosiect oddeutu £1.4m sy'n cynnwys £285k o gostau'n gysylltiedig â diwrnodau gwely mewn ysbytai, £537k o gostau'n gysylltiedig â galwadau tîm ymateb symudol a £537k o gostau'n gysylltiedig â dyddiau gwely mewn ysbytai (ar sail £114 fesul diwrnod gwely).
- 5.52 Mae'r prosiect Datblygu Cymunedau Cydlynol Cadarn yng **Ngwm Taf Morgannwg**, (Ardal Pen-y-bont ar Ogwr) yn helpu i ddargyfeirio defnyddwyr gwasanaethau o wasanaethau prif ffrwd. Er enghraifft, nododd fod 394 o ddefnyddwyr gwasanaethau wedi cael eu dargyfeirio o wasanaethau prif ffrwd dros gyfnod adrodd o naw mis, a bod y defnyddwyr gwasanaethau hyn yn dweud bod eu hiechyd a'u llesiant wedi gwella.
- 5.53 Ar draws y prosiect Dull System Gyfan Clwstwr yng **Ngorllewin Morgannwg** amcangyfrifir bod cyflwyno'r elfen Ward Rithwir wedi arwain at ostyngiad o 45 y cant mewn derbyniadau i'r ysbyty mewn un ardal ac adroddwyd bod safon gofal 44 y cant o gleifion y Rhith Ward wedi gwella. Yn yr un modd, mae Prosiectau 1 a 2 (Model Cyflymu'r Clwstwr a Phrosiectau Presgripsiynau Cymdeithasol Di-dor yng **Nghaerdydd a Bro Morgannwg**) yn adrodd bod llai o dderbyniadau brys yn y clwstwr cyn dechrau'r pandemig COVID-19.
- Prosiectau nad oes ganddynt dystiolaeth o ddeilliannau hyd yma*
- 5.54 Mae llond llaw o brosiectau/rhanbarthau lle y canfu adroddiadau gwerthuso rhanbarthol ei bod yn rhy gynnar i ddangos a ydynt yn cyflawni'r deilliannau a fwriadwyd neu a yw COVID-19 wedi effeithio ar weithgareddau cyflawni neu werthuso prosiectau:

- canfu un adroddiad gwerthuso rhanbarthol fod y dystiolaeth ar ddeilliannau yn dal i fod yn anecdotaidd ei natur ac mae'n argymhell bod angen ymgorffori deilliannau yn llawn mewn prosesau casglu data rhanbarthol. At hynny, noda'r gwerthusiad fod gwahaniaethau yn y dull o werthuso ar draws y rhanbarth a bod hyn wedi cyfyngu ar allu'r BPRh i asesu'r deilliannau sy'n cael eu cyflawni
- mae adroddiad gwerthuso rhanbarthol arall yn nodi'r her o asesu effaith ymyriadau, yn anad dim oherwydd diffyg data gwaelodlin ond hefyd oherwydd nad yw llawer o'r deilliannau a nodwyd yn fesuradwy ac nad oes ganddynt unrhyw ddangosyddion perfformiad allweddol
- canfuwyd bod y pandemig wedi llesteirio un prosiect rhag dangos ei effaith bosibl ac o ganlyniad dim ond yn rhannol y gwelir dystiolaeth o'r deilliannau a gyflawnwyd drwy astudiaethau achos ac adborth ar y gwasanaeth.
- nid oedd gan brosiect arall dystiolaeth ar gyfer cyflawni'r deilliannau, yn anad dim oherwydd nad oedd fframwaith gwerthuso wedi'i roi ar waith a bod y dystiolaeth ar gyfer y gwahaniaeth a wnaed wedi'i gyfyngu i nifer fach o astudiaethau achos.

Deilliannau ar lefel rhaglen

5.55 Mae Model Rhesymeg Damcaniaeth Newid y Gronfa Trawsnewid yn nodi tri deilliant canolraddol ar lefel rhaglen, sef:

- parhau â modelau CT effeithiol ar ôl y cyfnod cyllido
- modelau'r CT yn disodli'r dulliau gweithredu sy'n dod i ben ac yn creu enillion o ran costeffeithlonrwydd
- cynyddu a mabwysiadu modelau CT effeithiol yn ehangach, gan gynnwys ar draws rhanbarthau eraill.

5.56 Rydym yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael mewn adroddiadau gwerthuso rhanbarthol ynghylch a yw'r tri deilliant rhaglen hyn yn cael eu cyflawni.

Parhau â modelau CT effeithiol ar ôl y cyfnod cyllido

5.57 Mae llond llaw o werthusiadau rhanbarthol/prosiect yn ystyried a fydd prosiectau CT cyfredol yn parhau ar ôl 2022, pan fydd cymorth y CT yn dod i ben. Ym mis Ebrill 2021, gyda 12 mis yn weddill o'r gronfa gyfredol, roedd yr adroddiadau'n awgrymu y gellid parhau â thua 13 o brosiectau (gan gynnwys **Gofal Arennau Cydweithredol**, sy'n brosiect ar lefel genedlaethol)

ar ôl 2022. Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen rhagor o gyllid allanol i helpu i gyflawni uchelgeisiau trawsnewidiol hirdymor llawer o brosiectau.

5.58 Mae nifer o'r adroddiadau gwerthuso rhanbarthol yn rhybuddio y gallai prosiectau ddod i ben yn 2022 os na fydd y cyllid yn parhau. Mewn rhai achosion, adroddwyd y bydd angen cyllid amgen i gynnal y capasiti gwasanaeth ychwanegol a gefnogir drwy'r CT ac mewn achosion eraill, bydd yn fwy heriol i brosiectau nad ydynt wedi cychwyn eto ac nad ydynt wedi dangos y gwahaniaeth y gallant ei wneud i gyflwyno'r achos dros eu parhad drwy gyllid craidd.

5.59 Canfuwyd ambell enghraifft lle mae prosiectau, neu agweddau ar brosiectau, yn debygol iawn o barhau ar ôl 2022. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y prosiect model Technoleg Gynorthwyol yng **Nghwm Taf Morgannwg** y gellid ei gynnal yn rhannol drwy ffi unffurf wythnosol o £2.85 yr wythnos, a ganiateir o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, ond byddai'n rhaid cynyddu'r gyfradd 426% i dalu costau gwirioneddol y gwasanaeth, pan ddaw cyllid y CT i ben. Bydd angen sicrhau cyllid o fewn cronfeydd iechyd a gofal cymdeithasol y rhanbarth er mwyn caniatáu i'r prosiect fynd yn ei flaen
- gwasanaeth y Tîm Amlddisgyblaethol Estynedig sy'n rhan o'r prosiect Dull System Gyfan Clwstwr ar draws **Gorllewin Morgannwg**. Yn yr achos hwn, mae'r rhan fwyaf o feddygfeydd teulu sy'n cymryd rhan wedi cytuno i gyflogi staff y tîm amlddisgyblaethol yn y tymor hir, ar ôl i gyllid y CT ddod i ben
- er bod perygl y bydd y prosiect Ein Cynllun Cymdogaeth yng **Ngorllewin Morgannwg** yn dod i ben yn 2022, mae'r adborth a gafwyd o'n hymchwil sylfaenol yn awgrymu bod y rhanbarth yn bwriadu parhau â'r daith hon p'un a oes cyllid allanol ar gael ai peidio.

Modelau'r CT yn disodli'r dulliau gweithredu sy'n dod i ben ac yn creu enillion o ran costeffeithlonrwydd

5.60 Mae rhywfaint o dystiolaeth gychwynnol wedi'i nodi mewn adroddiadau gwerthuso prosiectau/rhanbarthol ar gyfer y posibilrwydd o arbed costau drwy brosiectau'r CT, ond ar y cyfan, prin yw'r dystiolaeth o ran yr enillion costeffeithlonrwydd cyffredinol a gyflawnwyd ar draws rhaglenni rhanbarthol. Ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael hefyd y bydd modelau CT newydd yn disodli unrhyw ddulliau gweithredu presennol a fydd yn dod i ben o ganlyniad. Yn hytrach, mae'r rhan fwyaf o'r dadleuon dros barhau â modelau CT newydd yn cael eu

gwneud yng nghyd-destun lleihau'r galw am wasanaethau statudol eraill a gwella profiadau defnyddwyr gwasanaethau.

- 5.61 Mae enghreifftiau o'r dystiolaeth sydd ar gael ar osgoi neu arbed costau wedi'u nodi isod.
- ar draws **Cwm Taf Morgannwg**, mae cyfrifiadau o'r costau a gaiff eu harbed o ganlyniad i brosiectau CT yn fwy datblygedig nag mewn rhanbarthau eraill:
 - mae'r prosiect Cadw'n Iach Gartref wedi'i ddatblygu ar sail tystiolaeth bod prosiectau tebyg eraill (e.e. prosiect Eiddilwch Gwent, Ymddiriedolaeth Nuffield a'r Kings Fund) wedi cyflawni arbedion cost ond mae'r adroddiad gwerthuso rhanbarthol yn cydnabod efallai na all rhaglenni gofal integredig gynhyrchu arbedion cost pendant ond mae'n darparu'r deilliant gorau i'r unigolyn a'r gweithwyr proffesiynol dan sylw ac yn arwain at newid diwylliannol pwysig.
 - amcangyfrifir bod dau brosiect (Technoleg Gynorthwyol a phrosiectau Cadw'n Iach Gartref) wedi osgoi 1,934 o achosion o gludo pobl i'r ysbyty a thrwy hynny arbed £451k o gostau ambiwlans a £268k o gostau ysbytai eraill.
 - mae'r costau sy'n cael eu harbed gan y prosiect CHWBT oddeutu £2.96m o ganlyniad i osgoi achosion o gludo pobl i'r ysbyty mewn ambiwlans, derbyniadau i'r ysbyty yn sgil hynny ac osgoi cyswllt â gwasanaethau meddygon teulu.
 - cyfrifir bod costau sy'n cael eu harbed drwy'r Tîm Ymateb Symudol fel rhan o'r prosiect Dydd Mawrth yw Pob Diwrnod rhwng £537k a £759k y flwyddyn.
- 5.62 Ar draws rhanbarthau eraill, rhoddir rhywfaint o ystyriaeth i arbed neu osgoi costau, ond mae'r rhain yn llai datblygedig yn gyffredinol. Er enghraifft:
- mae'r **Prosiect Gofal Arenol Cydweithredol** (Prosiect Cenedlaethol) yn y costau y gellid eu harbed o ganlyniad i ddarparu hemodialysis i gleifion gartref (ar gost o £24,000 y claf y flwyddyn) o'i gymharu â thua £31,000 mewn uned ddialysis yn ysbyty'r GIG. Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar hyrwyddo hemodialysis drwy ddatblygu adnoddau i hyfforddi pobl i ymgymryd â hyn gartref ac felly dim ond ar y cyd â datblygiadau eraill y gellir disgwyl iddo wneud rhywfaint o gyfraniad at yr arbedion hyn.
 - nodir rhai arbedion costau fel rhan o brosiect Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc - Gwasanaeth Therapi Amlsystem Gogledd-ddwyrain Cymru yng

Ngogledd Cymru, ond mae maint y sampl a ddefnyddir yn rhy fach i ddod i gasgliad pendant ar hyn o bryd

- mae Rhaglen Iechyd Meddwl ICAN yng **ngogledd Cymru** yn bwriadu llunio achosion busnes i fod yn sail i benderfyniadau buddsoddi yn y dyfodol ledled y rhanbarth
- mae prosiect ICEBERG yng **Ngwent** yn amlinellu astudiaethau achos enghreifftiol i ddangos yr enillion ariannol ar fuddsoddiad, ond mae angen gwaith pellach i ddatblygu tystiolaeth gynhwysfawr. Yn yr achos hwn, mae'r adroddiad gwerthuso yn ystyried pa ddarpariaeth brif ffrwd y byddai angen ei lleihau er mwyn cynnal y prosiect fel ymyrraeth sy'n niwtral o ran cost. Ystyrir sawl opsiwn, megis nifer y plant y byddai angen iddynt osgoi lleoliadau gofal preswyl bob blwyddyn (11 o blant bob blwyddyn ar gost o £4,750 yr wythnos a fyddai'n cyfateb i'r gyllideb flynyddol o £2.6m ar gyfer y prosiect)
- mae rhai elfennau o brosiect **Powys** wedi gallu nodi arbedion dangosol. Er enghraifft, mae Maes A: Plant sy'n Derbyn Gofal yn eu Cynefin yn nodi arbedion dangosol posibl blynyddol y gellid eu cyflawni o ganlyniad i sicrhau deilliannau megis lleihau lleoliadau y tu allan i'r sir a darparu lleoliadau maethu mewnol, yn hytrach nag allanol. Fodd bynnag, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, nid oedd yr arbedion cost hyn wedi'u cadarnhau.

Cynyddu a mabwysiadu modelau CT effeithiol yn ehangach, gan gynnwys ar draws rhanbarthau eraill.

- 5.63 Mae tystiolaeth bod rhai prosiectau a ariennir gan y CT, neu elfennau ohonynt, wedi'u haddasu o fodolau peilot a gyflwynwyd mewn man arall. Byddai'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, elfen Lymffoedema Clinigol y prosiect Dull System Gyfan Clwstwr yng **Ngorllewin Morgannwg** a addaswyd o brosiect peilot a gyflwynwyd gan BIP Caerdydd a'r Fro.
- 5.64 Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd bod prosiectau cyfredol a ariennir gan CT, neu elfennau o'u gweithgareddau, yn cael eu cynyddu o fewn rhanbarthau penodol, ar ôl dechrau mewn un ardal awdurdod lleol neu glwstwr. Er enghraifft, mae rhai o ffrydiau gwaith ICEBERG yng **Ngwent** eisoes wedi'u cael eu hehangu'n ddaearyddol tra bod gan elfennau eraill o'r prosiect (fel y peilot Dull Ysgol Gyfan) y potensial i gael ei gyflwyno ledled y rhanbarth.
- 5.65 Sefydlwyd rhai prosiectau, fel y rhaglen Iechyd Meddwl ICAN yng **Ngogledd Cymru** fel prosiectau rhanbarthol yn y lle cyntaf.

- 5.66 Mae eraill (fel y ddau brosiect Ymyrraeth Gynnar a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc yng **Ngogledd Cymru**) wedi canolbwyntio ar sefydlu modelau newydd ac effeithiol o weithio mewn ardaloedd neu leoliadau penodol, gyda'r nod o'u rhoi ar waith yn y lle cyntaf, yn hytrach nag ehangu gweithgareddau ledled y rhanbarth cyfan. Yn yr un modd, ar draws **Caerdydd a Bro Morgannwg** dim ond mewn un clwstwr y mae dau brosiect (Prosiectau 1 a 2) yn cael eu cyflawni ar hyn o bryd, tra bod dau brosiect arall (Prosiectau 4 a 5) ond yn weithredol mewn ysbytai penodol yn y rhanbarth. Mewn sawl achos (e.e., Rhaglen Trawsnewid Cymunedol, **Gogledd Cymru**) mae ehangu prosiectau ar draws y rhanbarth wedi cael ei gyfyngu gan effaith COVID-19.
- 5.67 Mae'n werth nodi hefyd mai datblygiad pwysig arall, o leiaf mewn un rhanbarth - **Caerdydd a Bro Morgannwg** - yw cyflwyno dull mwy strategol o ymdrin â'r prosiectau CT hynny y mae cyfatebiaeth glos rhyngddynt. Yn y rhanbarth hwn, mae cynlluniau ar waith i ddatblygu cynllun cynhwysfawr i ddarparu dwy raglen drosfwaol (model gofal integredig yn seiliedig ar le a model gofal integredig ar gyfer plant a phobl ifanc) a fydd yn dod â mentrau a ariennir gan y CT a'r Gronfa Gofal Integredig (yn ogystal â ffynonellau cyllid eraill) yn agosach at ei gilydd. Mae hyn o bosibl yn cyd-fynd ag amcan gwreiddiol Cymru Iachach a rhaglen CT yn ehangach, o ystyried y canfuwyd bod gormod o brosiectau gwahanol wedi'u hariannu drwy'r rhaglen hyd yma.
- 5.68 Mae'r **Prosiect Gofal Arennol Cydweithredol** efallai'n eithriad yn yr ystyr mai'r bwriad o'r cychwyn oedd i'r prosiect hwn gael ei ehangu ar lefel genedlaethol. Mae cyfle pellach i ehangu'r prosiect hwn er mwyn caniatáu cyflwyno EPMA i unedau a wardiau dialysis mewn rhanbarthau eraill, a thrwy hynny ganiatáu i arloesedd rhanbarthol gael ei ehangu'n genedlaethol ledled Cymru.

Dadansoddiad cost a budd

- 5.69 Ychydig iawn o dystiolaeth ystyrion sydd ar gael o'r enillion ar fuddsoddiad neu arbedion ariannol gan brosiectau/rhaglenni CT hyd yma. Gellir priodoli hyn yn rhannol i adleoli staff monitro/gwerthuso dros y flwyddyn ddiwethaf ond hefyd i'r ffaith ei bod yn rhy gynnar i farnu a wnaed arbedion cost yn sgil y newidiadau a faint o arbedion a wnaed.
- 5.70 Yn gyffredinol, mae adroddiadau diweddarau'r gwerthusiad yn nodi y bydd 'enillion ar fuddsoddiad' yn fwy o ffocws i'r gwerthusiadau terfynol yn 2022, gyda sawl un yn cyfeirio at ddatblygu metrigau ariannol yn ystod 2021/22 fel rhan o fframweithiau ehangach dangosyddion rhaglenni/prosiectau. Gwneir y pwynt bod angen 'gwaith modelu cadarnach ar

draws y system' er mwyn deall yn well arbedion costau, ar y naill law, a chostau ychwanegol sy'n gysylltiedig â dulliau newydd a gyflwynir, ar y llaw arall. Nodir hefyd bod angen datblygu dros amser y math o dystiolaeth sydd ei hangen i ddangos enillion ar fuddsoddiad neu fuddion cost.

- 5.71 Serch hynny, mae adroddiad diweddarau'r gwerthusiadau yn cyfeirio at brosiectau sy'n sicrhau deilliannau cadarnhaol i ddinasyddion, gan arwain at ostyngiadau mewn costau a chynyddu effeithlonrwydd ar draws rhannau penodol o'r system iechyd a llesiant. Ar yr un pryd, dadleuir bod effeithiau COVID-19 wedi cuddio effaith mentrau penodol, yn anad dim y rhai sy'n ymwneud ag atal a rhyddhau cleifion yn gynnar.
- 5.72 Lle y cyflwynwyd amcangyfrifon o arbedion cost, mae adroddiadau diweddarau'r gwerthusiad yn nodi'n glir bod y rhain yn 'hapfasnachol' neu'n 'fras' ac yn seiliedig ar 'ddata cyfyngedig'. Defnyddiwyd rhywfaint o 'astudiaethau achos' i ddangos arbedion cost ar lefel defnyddiwr gwasanaeth. Mewn dau ranbarth, **Cwm Taf Morgannwg a Gwent**, lluniwyd amcangyfrifon o gostau gan ddefnyddio data nodweddiadol sy'n deillio o ffynonellau gan gynnwys y Swyddfa Archwilio Genedlaethol, Cymdeithas Feddygol Prydain, y King's Fund a'r bwrdd iechyd lleol. Yn y cyd-destun hwn, dadleuwyd bod angen cysondeb o ran y ffordd y gwneir cyfrifiadau buddsoddiad/cost a budd ar draws prosiectau/rhaglenni a rhanbarthau.
- 5.73 Awgryma adroddiadau diweddarau'r gwerthusiad fod arian CT wedi'i gydb lethu ag arian o ffynonellau eraill, yn anad dim ag arian o'r Gronfa Gofal Integredig, ond gan gynnwys hefyd gyllidebau craidd a chyfalaf a symiau llai sy'n deillio o ffynonellau amrywiol gan gynnwys Awdurdodau Lleol, Cyngor Celfyddydau Cymru a Chynghorau Tref.
- 5.74 Prin yw'r dystiolaeth o gynlluniau cynaliadwyedd clir ar gyfer gweithgareddau a gefnogir drwy'r CT. Yn y rhan fwyaf o achosion, y bwriad yw defnyddio 2021/22 i ddangos yr arbedion cost a'r gwelliannau i'r system a gynhyrchir ac i egluro trefniadau cyllido yn y dyfodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn, boed drwy gyllid craidd gan bartneriaid neu'n ddibynnol ar gyflwyno achosion busnes i Lywodraeth Cymru.

6. Cynaliadwyedd yn y dyfodol

- 6.1 Mae'r adran hon yn ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud mewn BPRh i ddatblygu achosion busnes a strategaethau ymadael er mwyn sicrhau cynaliadwyedd prosiectau CT llwyddiannus. Yn olaf, mae'r adran hon yn darparu rhai myfyrdodau gan randdeiliaid i lywio dulliau cyllido.

Cynaliadwyedd prosiectau'r CT

- 6.2 Yn ystod cyfweiliadau â rhanddeiliaid BPRh daeth yn amlwg fod sawl rhanbarth yn canolbwyntio ar gysoni eu holl brosiectau fel eu bod yn gweithio fel rhaglen CT gydlynol. Roedd y gwaith hwn wedi hen ddechrau mewn sawl rhanbarth ac roedd cynnydd yn cael ei wneud pan ddaeth COVID-19 â'r gwaith i ben yn ddisymwth.
- 6.3 Disgrifiodd sawl rhanddeiliad sut roeddent yn teimlo bod y dirwedd yn newid, gan symud yn gynyddol tuag at ddarparu cymorth cymunedol, a sbardunwyd yn bennaf gan y pandemig. Disgrifiodd y rhanddeiliaid sut roedd y cymorth cymunedol, a ddarparwyd gan lawer o brosiectau CT wedi bod yn hanfodol o ran 'cadw ein cymdeithas i fynd' drwy'r pandemig COVID-19 ac y byddai'r sefyllfa wedi bod yn waeth o lawer mewn sawl rhan o Gymru heb y cymorth a'r ymdeimlad o gymuned a ddarparwyd gan lawer o brosiectau cymunedol y CT. Yn wir, roedd hyn wedi helpu i atgyfnerthu'r angen i symud adnoddau i atebion cymunedol mwy ataliol yn y dyfodol.
- 6.4 Er bod rhai rhanbarthau (a rhai prosiectau unigol) yn gweithio ar gynaliadwyedd eu prosiectau CT ac yn awyddus i ddatblygu achos busnes cryf, nid yw hyn yn wir am bob prosiect. Mae rhai yn llai sicr ynghylch eu gallu i ddangos effaith gynaliadwy ar wasanaethau prif ffrwd:
- 'Nid wyf yn siŵr ein bod yn dadlau'r achos dros bwy ddylai dalu i'w gynnal'.
- 6.8 Yn gyffredinol, mae'r angen i ddatblygu achosion busnes bellach yn flaenllaw ym meddyliau rhanddeiliaid y BPRh, sy'n gwerthfawrogi bod hon yn dasg hollbwysig. Cydnabyddir fwyfwy y bydd y gallu i ddangos bod y cyllid yn cynnig gwell gwerth am arian (naill ai drwy fod yn fwy cost-effeithiol neu fel gwasanaeth osgoi costau) yn cael ei bennu gan y dystiolaeth y gellir ei chynhyrchu. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o'r adroddiadau gwerthuso rhanbarthol yn cynnig argymhellion ynghylch datblygu metrigau a dangosyddion y gellid eu defnyddio i ddadansoddi cost a budd. Yn yr un modd, mae'r adroddiadau gwerthuso rhanbarthol yn

galw'n gyson ar y BPRh i ddatblygu cynlluniau cynaliadwyedd prosiectau ymhellach a gweithio tuag at sefydlogrwydd ariannol erbyn mis Mawrth 2022.

Caerdydd a Bro Morgannwg

Mae tîm y rhaglen yn BIP Caerdydd a'r Fro wedi bod yn gweithio ar gam pontio'r CT ac mae'n datblygu cynllun cynhwysfawr ar gyfer cam nesaf y blaenoriaethau yn ei ranbarth gan ragweld unrhyw ddulliau cyllido yn y dyfodol.

Mae'r egwyddorion allweddol ar gyfer blwyddyn olaf buddsoddiad y CT yn cynnwys:

- symleiddio a chysoni prosiectau, gan gynnwys ar draws ffrydiau cyllido
- cynllunio a chyflawni yn seiliedig ar y ffaith bod y rhaglen yn dod i ben, gyda chynlluniau ymadael clir ar gyfer cyllid grant
- osgoi buddsoddiad na ellir ei fforddio mewn gwasanaethau
- cyflymu'r broses o ddarparu gwasanaethau integredig a
- buddsoddi mewn arweinyddiaeth ar lawr gwlad i sbarduno darpariaeth leol.

Drwy weithio yn unol â'r egwyddorion hyn, nod y BPRh yw mynd i'r afael ag argymhellion a nodwyd gan ei werthuswr annibynnol ynghylch yr angen i ystyried sefydlogrwydd ariannol a chyllid yn y dyfodol, yr angen i edrych ar integreiddio gwasanaethau ymhellach ar draws y rhanbarth a mwy o ryngweithio rhwng prosiectau.


Mae'r strwythur llywodraethu o fewn y BPRh wedi'i ddatblygu ymhellach er mwyn sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i adlewyrchu'r elfennau rhyngddibynnol rhwng prosiectau tymor byr a ariennir a blaenoriaethau rhanbarthol tymor hir.

Mae'r dull gweithredu ar gyfer 2021/22 wedi'i ddatblygu ar sail cysoni prosiectau â dwy raglen waith allweddol. Mae hyn yn cynnwys prosiectau a ariennir gan y CT a'r Gronfa Gofal Integredig, yn ogystal â gwasanaethau a mentrau ehangach. Mae tîm y rhaglen CT yn gweithio gyda chwmni ymgynghori allanol i ddiffinio'r model a'r cwmpas ar gyfer y rhaglenni.

| | |
|--|--|
| <ul style="list-style-type: none"> •P1+2: Materion yn ymwneud â llesiant a phresgripsiynu cymdeithasol •P3: Brysbennu gan Feddygon Teulu •P4+5: Ewch â Fi Adref | <p>Model gofal integredig yn seiliedig ar ofal</p> |
| <ul style="list-style-type: none"> •P6: Datblygu dull sy'n dangos ymwybyddiaeth o ACE wrth ymdrin â phlant a phobl ifanc gwydn | <p>Model gofal integredig ar gyfer gofal a chymorth pobl ifanc</p> |

'Mae yna deimlad nawr bod y cyfan wedi dod ynghyd yn y dull gweithredu a'r strwythur newydd hwn, y gellid dadlau nad oedd yno o'r blaen. Roedd fel moment Eureka pan sylweddolwyd bod y cyfan yn ffio gyda'i gilydd ac yn gwneud perffaith synnwyr.'

O ran ei drefniadau llywodraethu, mae'r BPRh yn rhoi'r gorau i ganolbwyntio ar wasanaethau a sefydliadau ac yn troi ei sylw at bobl a lleoedd. O'r herwydd, bydd tair thema allweddol i'r gweithgareddau ar gyfer y rhanbarth: Dechrau'n Dda; Byw'n Dda a Heneiddio'n Dda. Bydd pob math o ofal yn cael ei gynnwys yn y tri grŵp hyn gan gynnwys gofal a chymorth arbenigol, gofal a ddarperir gartref ac adnoddau yn y gymuned i gynorthwyo pobl i greu eu datrysiadau eu hunain. Y nod tymor hwy yw annog symudiad tuag at atebion yn y gymuned, a thrwy hynny flaenoriaethu gwaith atal ac ymyrraeth. Roedd y rhaglen CT wedi bod yn hanfodol o ran creu'r foment 'eureka' hon o sut yr oedd pob prosiect yn gweithio o fewn model ehangach i'w cyflawni yn y dyfodol ac mae wedi helpu i ddarparu eglurder ar gyfer y dyfodol.



Blaenoriaethau cyllido ar gyfer y dyfodol

- 6.5 Roedd y mater allweddol a godwyd gan rhanddeiliaid mewn perthynas â chyllid yn y dyfodol yn ymwneud â'r CT yn dod i ben yn 2022 ac roedd galwad gref iawn ar Lywodraeth Cymru i ystyried rhoi un rhaglen gyllido hirdymor strategol ar waith a fyddai'n parhau i gynnig cymorth i BPRh i drawsnewid eu darpariaeth iechyd a gofal. Dadleuodd y rhanddeiliaid na ellid byth trawsnewid gwasanaethau o ddifrif o fewn cyfnod cyllido byr, a oedd, yn yr achos hwn, yn cynnwys cyfnod hir o bwysau ac ansicrwydd digynsail, a bod angen rhoi dull cyllido tymor hwy ar waith er mwyn galluogi'r gwaith hwn i barhau.
- 6.6 Roedd pryder ymhlith rhanddeiliaid a gyfwelwyd bod prosiectau'r CT ar fin dod i ben yn ddisymwth neu 'gwympto oddi ar glogwyn'. Roedd adroddiadau eisoes ynghylch y ffaith bod natur fyrdymor cyllid y CT yn arwain at staff yn symud i swyddi mewn mannau eraill yn eu sefydliadau er bod rhai BPRh wedi cyhoeddi contractau parhaol i staff allweddol, sy'n helpu i fynd i'r afael â'r mater hwn.

- 6.7 Roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen mwy o amser i brosiectau CT aeddfedu, cyflawni eu hamcanion a dangos eu gwerth. Dadleuwyd y byddai cyfnod ychwanegol o gyllid, o bosibl ar ffurf cyllid graddedig, yn caniatáu i brosiectau wneud iawn am yr amser a gollwyd yn sgil COVID-19.
- 6.8 O ran y dyfodol, galwodd mwyafrif rhanddeiliaid y BPRh ar Lywodraeth Cymru i ystyried datblygu un 'model cydlynol' y gellid ei ddefnyddio i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Dadleuodd sawl rhanddeiliad y byddai'n rhesymegol cyfuno rhaglenni'r CT a'r Gronfa Gofal Integredig yn un gronfa ac iddi gylch gwaith a phwrpas wedi'i ddiffinio'n glir. Byddai symleiddio'r cyllid fel hyn yn helpu i leihau'r gofynion adrodd a monitro ar BPRh, a oedd yn parhau i gael eu hystyried yn rhy feichus ar hyn o bryd.
- 6.9 Adeg y gwaith maes, galwodd y rhanddeiliaid am eglurder cynnar ynghylch sut y byddai unrhyw raglenni trawsnewid yn y dyfodol ar draws y sector yn cael eu hariannu, er mwyn caniatáu digon o amser i BPRh gynllunio a datblygu cynigion o safon. Mae BPRh yn dymuno bod mewn sefyllfa lle y gall eu cynigion cyllido yn y dyfodol gael eu llywio gan asesiadau o'r boblogaeth a chynlluniau ardal, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion eu rhanbarth.
- 6.10 O ystyried y farn hon, byddai'n well gan lawer o BPRh i unrhyw raglen gyllido strategol newydd gael cyfnod paratoi hwy nag a roddwyd iddynt yn hanesyddol. Y model a ffefrir ar gyfer llawer o BPRh fyddai un lle mae cyllid y CT yn cael ei leihau'n raddol o fis Mawrth 2022 ymlaen gan ganiatáu iddynt gynllunio'n ddigonol ar gyfer unrhyw gronfa strategol newydd: 'Mae 2022/23 yn gyfle i newid pethau a gwneud pethau'n wahanol. Mae angen i ni aildrefnu pethau'.
- 6.11 O ran blaenoriaethau ar gyfer cyllid yn y dyfodol, er bod gan bob rhanbarth farn wahanol yn dibynnu ar eu hanghenion rhanbarthol a lleol eu hunain, roedd rhanddeiliaid yn cydnabod bod y themâu allweddol yn cynnwys atal derbyniadau i'r ysbyty, cyflwyno prosiectau adref o'r ysbyty yn ehangach, datblygu gwasanaethau mwy integredig i blant, a sicrhau gofal o ansawdd gwell i oedolion sy'n agored i niwed. Soniodd rhai y dylai gwasanaethau plant hefyd ddod yn agwedd fwy amlwg ar unrhyw gyllid yn y dyfodol.
- 6.12 Roedd y rhanddeiliaid yn gytûn bod angen sgysiau ar lefel genedlaethol, yn ogystal â rhanbarthol, i gytuno ar y themâu blaenoriaeth ar gyfer unrhyw raglen gyllido yn y dyfodol. Awgrymodd rhai y byddai'n fuddiol cynnal sgwrs genedlaethol, yn cynnwys cyfres o

seminarau, i helpu i ddatblygu a mynegi'r themâu hyn mewn dogfen ar lefel rhaglen o'r cychwyn.

'os mai trawsnewid yw'r agenda, mae angen diffinio hynny'n well, ac mae angen i ni wneud hyn mewn partneriaeth'.

- 6.13 Cafwyd galwad gref i roi fframwaith deilliannau perfformiad clir ar waith o'r cychwyn cyntaf ar gyfer unrhyw raglen gyllido yn y dyfodol, a fyddai wedi'i ategu gan ddangosyddion perfformiad cydlynol a chyffredin y gallai pob rhanbarth adrodd yn eu herbyn. Byddai hyn yn galluogi proses gyson o osod a monitro gwaelodlinau a fyddai yn ei dro yn caniatáu dadansoddiad mwy gwybodus o'r modelau neu'r dulliau sy'n cyflawni'r deilliannau gorau ac yn caniatáu dadansoddiad cadarn o'r elw ar fuddsoddiad.
- 6.14 Rydym yn deall bod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ers hynny y bydd cronfa refeniw newydd i gefnogi integreiddio yn cychwyn ym mis Ebrill 2022 pan ddaw'r CT a'r Gronfa Gofal Integredig presennol i ben. Bydd swyddogion yn gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol i ddylunio manylion y rhaglen newydd, gan ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglenni cyfredol.

7. Casgliadau ac argymhellion

7.1 Mae'r bennod hon yn cyflwyno ein casgliadau, yn seiliedig ar yr adolygiad desg a'r gwaith maes, ac mae'n cynnig argymhellion i Lywodraeth Cymru a BPRh eu hystyried ar gyfer y dyfodol.

Cyflawni'r rhaglen

7.2 Mae ein canfyddiadau allweddol o'r dystiolaeth o gyflawni'r rhaglen a ddarperir mewn adroddiadau gwerthuso ar lefel ranbarthol/prosiect yn dangos y canlynol:

- ni fu unrhyw newidiadau mawr i fodelau gweithio ers yr adroddiad canol cyfnod, ond mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar lawer o brosiectau drwy orfod addasu eu ffyrdd o weithio, cyflymu eu gweithgareddau neu eu gohirio.
- gwelodd sawl prosiect, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â rhwydweithiau cymunedol, osgoi derbyniadau i ysbytai, darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc, a gofal a alluogir gan dechnoleg, gynnydd yn y galw a gwell dealltwriaeth ar draws y sector iechyd a gofal o'u galluoedd i dynnu pwysau oddi ar wasanaethau allweddol.
- ceir darlun cymysg o ran cyflymder y newid. Er bod rhai prosiectau wedi gweld newid cyflymach (yn bennaf y rhai sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth a nodir uchod) nid yw eraill wedi gweld datblygiad tebyg dros y flwyddyn ddiwethaf, yn bennaf oherwydd effaith y pandemig ar argaeledd staff ac anawsterau o ran ymgysylltu â phobl yn ystod y cyfnod hwn
- mae gwariant y CT wedi cynyddu'n sylweddol ers yr adroddiad canol cyfnod, ac mae rhan helaethaf y cyllid bellach wedi'i ddyrannu
- mae prosiectau yn adrodd ar ffactorau tebyg sy'n eu galluogi i gyflawni eu hamcanion. Maent yn cynnwys dull system gyfan, y defnydd o ddatrysiadau digidol a newid amlwg yn niwylliant y gweithle
- erys heriau i brosiectau, yn enwedig lle mae angen gwneud gwaith traws-sefydliadol gyda sawl awdurdod lleol neu lle mae cwrpas a phwrpas prosiect yn parhau i fod yn aneglur. Mae'r prosiectau hynny sydd â systemau rheoli prosiectau llai cadarn hefyd wedi cael trafferthion
- mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar drefniadau llywodraethu, a chafodd y rhain eu cwtogi neu eu hatal. Lle mae trefniadau llywodraethu wedi parhau, cynhaliwyd cyfarfodydd ar-lein sydd wedi arwain at ymgysylltu â rhanddeiliaid yn well,

proses symlach o wneud penderfyniadau a phartneriaid yn gweithio'n fwy effeithiol i gyflawni pethau

- ailsefydlwyd trefniadau llywodraethu ar ddiwedd 2020-21 ac, mewn sawl rhanbarth, lluniwyd trefniadau llywodraethu newydd i sicrhau eu bod yn gymesur ac yn addas ar gyfer yr amgylchiadau presennol
- cyn y cyfnod cyntaf o gyfyngiadau symud yn sgil COVID-19, roedd ymgysylltiad dinasyddion, y gweithlu a rhanddeiliaid yn dod yn fwy amlwg mewn prosiectau, a gwelwyd ambell enghraifft o gydgyhyrchu. Fodd bynnag, ers hynny, mae'r pandemig wedi cael effaith ddifrifol ar yr agwedd hon ac mae cyfranogiad dinasyddion wedi'i gyfyngu i raddau helaeth i ofyn am adborth gan ddefnyddwyr drwy arolygon. Defnyddiwyd dulliau tebyg i gael barn staff a rhanddeiliaid.

Allbynnau a deilliannau'r rhaglen

7.3 Mae ein canfyddiadau allweddol mewn perthynas â thystiolaeth a nodwyd mewn adroddiadau gwerthuso ar lefel ranbarthol/prosiect fel a ganlyn:

- ers yr adroddiad canol cyfnod, mae BPRh wedi mynd ati i ddatblygu damcaniaethau sylfaenol ar gyfer fframweithiau newid a gwerthuso er mwyn gwerthuso'r gwahaniaeth y mae prosiectau CT yn ei wneud. Mewn rhai achosion, mae'r fframweithiau gwerthuso hyn wedi'u llywio gan ddata gwaelodlin ac mae rhanbarthau'n mabwysiadu dangosfwrdd o ddangosyddion i fonitro'r cyflawniadau. Mae'r cynnydd a wnaed i weithredu fframweithiau gwerthuso yn amrywio o un rhanbarth i'r llall, gyda diffyg cynnydd yn cael ei briodoli'n bennaf i effeithiau'r pandemig COVID-19. Daw llawer o adroddiadau gwerthuso ar lefel prosiect/rhanbarthol i'r casgliad fod angen gwaith pellach ar ddatblygu a gweithredu fframweithiau deilliannau'r rhaglen, gan gynnwys mabwysiadu dangosfwrdd o ddangosyddion er mwyn monitro effaith y rhaglen yn yr hirdymor.
- ers yr adroddiad canol cyfnod, gwelwyd newid ar draws llawer o ranbarthau/prosiectau i fabwysiadu mesurau y gellir eu meintio i ddangos eu cynnydd ac adrodd ar yr allbynnau sy'n cael eu cyflawni. Mae llawer o brosiectau bellach yn gallu adrodd ar nifer y defnyddwyr gwasanaethau sydd wedi ymgysylltu â nhw a/neu ar y gweithgareddau a gynhaliwyd
- o gymharu â'r cam adrodd canol cyfnod, mae rhywfaint o dystiolaeth ar waith bellach i ddarparu arwyddion cynnar o leiaf o'r manteision a ddaw yn sgil prosiectau i

ddefnyddwyr gwasanaethau a gwasanaethau yn fwy cyffredinol, er nad yw hyn yn gyson ar draws pob prosiect neu ranbarth.

- ychydig iawn o brosiectau'r CT sy'n ystyried ac yn adrodd ar fetrigau sy'n rhoi darlun o fanteision ariannol eu gweithgareddau, er bod llawer bellach yn mabwysiadu mesurau y gellir eu meintoli ar gyfer y cynnydd a'r allbynnau a gyflawnir. Dros y flwyddyn sy'n weddill o'r cyfnod cyflawni, byddai gwerth i'r BPRh ganolbwyntio ar gyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad neu'r arbedion ariannol sy'n deillio o brosiectau'r CT
- Mae BPRh yn ymwybodol iawn o'r angen i ystyried opsiynau cyllido ar gyfer y dyfodol a chynaliadwyedd y gweithgareddau a ariennir ar hyn o bryd drwy raglen y CT. Mae angen cynllun ymadael ar lefel prosiect neu raglen, yn seiliedig ar dystiolaeth werthuso. Mae angen ystyried a fydd prosiectau'n parhau, ac a fyddant yn cael eu hariannu o gronfeydd prif ffrwd neu a fydd angen buddsoddiad tymor byr arall arnynt.

Edrych i'r dyfodol

7.4 Wrth edrych i'r dyfodol, amlinellodd BPRh rai canfyddiadau allweddol yn eu hadroddiadau ac yn ystod y cyfweiliadau gan gynnwys y canlynol:

- mae'r rhanbarthau bellach yn gweithio ar gysoni eu prosiectau i greu model mwy cydlynol ac mae diddordeb cynyddol yn yr hyn y mae'r CT wedi'i gyllido a gwerthfawrogiad cynyddol o hynny, gyda sawl agwedd ar raglenni'r CT, yn enwedig ymyriadau yn y gymuned, yn darparu cymorth hanfodol yn ystod y pandemig.
- mae'r prosiectau a ariennir mewn sefyllfa fregus ar hyn o bryd oherwydd mai dim ond tan ddechrau 2022 y mae cyllid ar gael. Ceir diffyg eglurder ynghylch sut y bydd darpariaethau'n cael eu hariannu ar ôl y dyddiad hwn ac mae staff allweddol eisoes yn symud ymlaen i swyddi eraill mwy diogel
- gyda llai na blwyddyn yn weddill, a'r angen i lunio achosion busnes a strategaethau ymadael, mae prosiectau'n sylweddoli, yn absenoldeb gwaelodlinau, fframweithiau gwerthuso ac felly dystiolaeth gadarn o'r effaith a'r gwahaniaeth a wnaed, ei bod yn dod yn fwyfwy anodd cyflwyno dadl dros brif ffrydio neu barhau â'r cyllid ar gyfer rhai prosiectau
- ni ellir trawsnewid gwasanaethau dros gyfnod o dair blynedd ac mae dadl gref dros ymchwilio i'r angen am raglen sengl tymor hwy i ariannu'r broses o drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol, lle y gellid cyfuno

gwasanaethau integredig fel y rhai a ariennir drwy'r CT a'r Gronfa Gofal Integredig ar hyn o bryd yn un gronfa ac iddi gylch gwaith a phwrpas strategol wedi'u diffinio'n glir

- gwers allweddol i unrhyw raglen gyllido yn y dyfodol yw'r angen am fframwaith gwerthuso gyda metrigau a deilliannau perfformiad clir a chyson sydd wedi'u diffinio'n dda ac wedi'u hamlinellu o'r dechrau.

Argymhellion

- 7.5 Rydym yn gwneud yr argymhellion canlynol ond yn nodi y dylid ystyried y rhain ochr yn ochr â'r gyfres o argymhellion a amlinellwyd yn yr adroddiad gwerthuso canol tymor y llynedd (wedi'u crynhoi yn Ffigur 3.1 yr adroddiad hwn), gan fod y mwyafrif yn parhau i fod yn berthnasol.
- 7.6 Mae'r pedwar argymhelliad cyntaf isod yn ymwneud â gweddill cyfnod cyflawni'r CT tra bod argymhellion pump i wyth yn argymhellion strategol i lywio datblygiad y cyllid yn y dyfodol.

Argymhellion ar gyfer gweddill cyfnod cyflawni'r CT

Argymhelliad 1: Ar gyfer y cyfnod sy'n weddill, mae angen i brosiectau a ariennir gan y CT ganolbwyntio o'r newydd ar weithgareddau ymgysylltu â dinasyddion ac ystyried cynnwys hyn fel rhan o'u gweithgareddau adolygu a gwerthuso parhaus.

Argymhelliad 2: Mae angen i BPRh gofnodi tystiolaeth a chyfrifo'r enillion ar fuddsoddiad neu'r arbedion ariannol a gyflawnir, gan mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael o hyn ar draws y rhaglen a bydd yn hanfodol ar gyfer cyflwyno'r achos busnes dros gyllid prif ffrwd neu barhad unrhyw gyllid drwy unrhyw ddulliau cyllido yn y dyfodol.

Argymhelliad 3: Yn ystod y cyfnod sy'n weddill, mae angen i brosiectau a rhaglenni flaenoriaethu eu cynlluniau ymadael ar gyfer prosiectau a rhaglenni a ariennir. Mae hyn yn cynnwys dod ag unrhyw brosiectau sy'n annhebygol o gael eu gwireddu yn ystod yr amser sy'n weddill i ben a rhoi ystyriaeth fanwl i'r opsiynau tebygol ar gyfer y prosiectau hynny y bydd angen cefnogaeth barhaus arnynt.

Argymhelliad 4: Dylai BPRh barhau i weithredu'r trefniadau llywodraethu symlach ac effeithiol a gyflwynwyd mewn ymateb i COVID-19.

Argymhellion strategol tymor hwy:

Argymhelliad 5: Dylai Llywodraeth Cymru gydnabod bod trawsnewid yn broses hirdymor ac o'r herwydd ystyried sut y gall gefnogi prosiectau presennol y Gronfa Drawnewid y mae angen mwy o amser arnynt i ddangos eu heffaith. Mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellid rhoi trefniadau pontio di-dor ar waith o fis Ebrill 2022 ymlaen a thrwy hynny gael gwared ar y clogwyn cyllido presennol sy'n peri pryder i ranbarthau. Dylai unrhyw drefniadau cyllido yn y dyfodol fabwysiadu'r egwyddor o gyllid graddedig, i atgyfnerthu pwysigrwydd dangos effaith a chefnogi'r symudiad tuag at fwy o hunangynaliadwyedd.

Argymhelliad 6: Yn yr hirdymor fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru roi ystyriaeth briodol i gyfuno ffrydiau cyllido iechyd a gofal cymdeithasol, yn enwedig y CT a'r Gronfa Gofal Integredig, yn un gronfa strategol tymor hwy i ysgogi trawsnewidiad ar draws y sector. Byddem yn awgrymu y dylid cynllunio'r gronfa strategol hon mewn cydweithrediad â'r rhanbarthau fel un hirdymor i gefnogi trawsnewidiad cynaliadwy ar draws y sector.

Argymhelliad 7: Dylai unrhyw raglen gyllido strategol newydd gael ei hategu gan ddamcaniaeth newid a fframwaith gwerthuso clir sy'n amlinellu deilliannau lefel uchel sydd wedi'u diffinio'n glir o'r cychwyn cyntaf. Dylai'r deilliannau hyn gael eu hategu gan fesurau neu ddangosyddion y gellir eu monitro dros amser i olrhain effaith y rhaglen. Dylid disgwyl i ddarpariaethau a ariennir gyfrannu at y deilliannau strategol hyn ac adrodd yn erbyn set gyffredin o ddangosyddion.

Argymhelliad 8: Dylai unrhyw raglen gyllido strategol newydd ddarparu eglurder ar y themâu/meysydd blaenoriaeth trosfwaol ar gyfer cyllid. Dylid datblygu'r themâu hyn a chytuno arnynt mewn ar y cyd â'r BPRh a dylai'r rhaglen gyllido anelu at ariannu prosiectau sydd â chynlluniau clir a photensial i ehangu dros amser.

Atodiad A: Model Rhesymeg Theori Newid ar gyfer Rhaglen y Gronfa Trawsnewid

| Deilliannau Cyffredinol | Deilliannau Tymor Canol | Allbwn | Gweithgaredd | Mewnbyn |
|--|---|--|---|---|
| <p>Unigolion Unigolion yn cyrchu gwasanaethau iechyd a gofal iechyd a gofal teg a di-dor</p> <p>Unigolion yn byw bywydau hir, iach a hapus</p> <p>Unigolion yn byw'n annibynnol am gyhyd â phosibl ac yn cyrchu gwasanaethau mor agos â phosibl at eu cartrefi</p> <p>Unigolion mwy grymus yn cymryd dull rhagweithiol ac ataliol at iechyd a gofal</p> <p>Gwasanaethau Newid mewn diwylliant ar draws y gweithlu iechyd a gofal er mwyn creu dull system-gyfan o weithredu</p> <p>Effaith gadarnhaol ar y dangosyddion perfformiad allweddol ar draws iechyd a gofal</p> <p>Gwell a lmiad ac integreiddiad rhwng gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>Mwy o ffocws ar adnoddau cymunedol, atal, les ac ymyrraeth gynnar, gan ddarparu gwasanaethau mor agos â phosibl at adref</p> | <p>Parhau â modelau effeithiol y CD ar ôl i'r cyllid ddod i ben</p> <p>Modelau'r CD yn cymryd lle dulliau cyfredol sydd wedi darfod ac yn creu buddion o ran darbodaeth</p> <p>Datblygu a mabwysiadu modelau effeithiol y CD yn ehangach, gan gynnwys ar draws rhanbarthau eraill</p> | <p>Profi a chyflawni modelau rhanbarthol gweladwy ac arloesol</p> <p>Datblygu ac ehangu modelau ar gyflymdra cynt nag yn niffyg y cyllid</p> <p>Tystiolaeth gadarn am ba modelau sy'n gweithio (a pha rai sydd ddim) a'r gwahaniaeth a wnaed</p> <p>Clustnodi modelau y gellir eu cynnal a'u datblygu yn y dyfodol</p> | <p>Nifer gyfyngedig o fodolau gofal newydd wedi eu cynllunio ar y cyd gan y sector cyhoeddus ac iechyd/gofal</p> <p>Ymgeisio a chymradwyo prosiectau peilot arloesol a thrawsnewidiol</p> <p>Recriwtio ac ymestyn y gweithlu iechyd/gofal</p> <p>Cyflwyno a chyflawni dulliau newydd o weithio sy'n canolbwyntio ar integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>Monitro a gwerthuso llwyddiant modelau peilot</p> | <p>Ymgrych genedlaethol ucheigeisio am bolisi a chynllun i drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol</p> <p>Ysgogwyr Newid Cenedlaethol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Y Nod Pedwarplwg • Yr Egwyyddorion Cynllunio • Gofal Iechyd Darbodus • Cenedlaethau'r Dyfodol <p>Strwythurau a dulliau blaenorol y Byrddau Partneriaeth Ranbarthol e.e. darpariaethau ICF</p> <p>Cyllid arian iro, wedi i neilltuo a'i gronni dan gyfyngiadau amser (£100m)</p> <p>Tystiolaeth am beth sy'n gweithio mewn mannau eraill</p> |
| <p>Ffactorau Allanol</p> <ul style="list-style-type: none"> • Capasiti a set sgiliau cyfyngedig ar draws y gweithlu iechyd a gofal yn cyfyngu ar recriwtio a chadw staff <ul style="list-style-type: none"> • Cyfnod cyflawni cyfyngedig o ran amser • Ansicrwydd ynghylch y twf yn y galw am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol <ul style="list-style-type: none"> • Cyfyngiadau a diffygion ariannol ar draws y gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol | | | | |

Atodiad B: Crynodeb o brosiectau'r Gronfa Drawsnewid

Mae'r atodiad hwn yn nodi crynodeb o'r 30 prosiect a ariannwyd trwy'r Gronfa Drawsnewid ar draws y saith Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (RPBs), gan gynnwys y prosiect Gofal Arennau Cydweithredol ledled Cymru.

BPRh Caerdydd a Bro Morgannwg

Dyfarnwyd cyllid i'r BPRh ar gyfer saith prosiect, a gymeradwywyd yn Rhagfyr 2018:

Model Cyflymu'r Clwstwr: gan ddefnyddio dulliau datblygu cymunedol yn seiliedig ar asedau, nod y prosiect yw datblygu gweithlu lles lleol, gan gynnwys tîm amlddisgyblaeth, pobl sy'n darparu presgripsiynau cymdeithasol, cysylltiadau cymunedol ac adnoddau datblygu cymunedol.

Presgripsiynau Cymdeithasol Di-dor: un pwynt mynediad at wasanaethau annibyniaeth a llesiant ar y we ac ar y ffôn a gwasanaethau gofal sefydlog ac anghymhleth. Bydd practisau ymarferwyr cyffredinol yn gallu defnyddio'r dechnoleg hefyd.

Error! Reference source not found.: datblygu gwasanaeth Brysbennu effeithiol ar gyfer meddygon teulu sy'n darparu cymorth ac yn atal pobl rhag gorfod gweld meddyg teulu oni bai bod angen meddygol.

Gwasanaethau Ataliol Ewch â Fi Adref: un pwynt mynediad newydd o fewn yr ysbyty sy'n defnyddio sgysiau 'Beth sy'n Bwysig' i ddarparu cymorth holistaidd wedi ei deilwra sy'n bodloni anghenion yr unigolyn o ran llesiant, gan ddarparu ymyraethau ataliol a chynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol.

Ewch â Fi Adref a Mwy: model gofal newydd a fydd yn gweithio gyda charfan o gleifion sy'n fwy anghenus ac sydd angen pecyn mwy dwys o gymorth ail-alluogi a gofal cartref, gan gynnwys gwasanaeth dros nos a gofal cofleidiol lle bo angen.

Datblygu Dull Gweithredu sy'n ymwybodol o ACE i greu Plant a Phobl Ifanc Gwydn: bydd tîm gwytnwch yn gweithio mewn ysgolion i gynorthwyo llesiant emosiynol plant, gan ddod â'r agweddau cysylltiad, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs ac iechyd meddwl i mewn i wasanaeth holistaidd sy'n cwmpasu addysg, iechyd a gofal cymdeithasol.

Datblygu Timau Cymunedol Integredig sy'n Seiliedig ar Le: glasbrint newydd 'sy'n seiliedig ar le' ar gyfer gwasanaethau a fydd yn pennu cwmpas isafswm y gwasanaethau y

gellid eu darparu ar lefel clwstwr/lleoliad/awdurdod lleol ac Ôl-troed BIP mewn ffordd gynaliadwy.

BPRh Cwm Taf Morgannwg

Mae cydran Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys yr wyth prosiect canlynol, a gymeradwywyd ym Mehefin 2019:

Error! Reference source not found.– i ddarparu'r gwasanaeth hwn trwy ddefnyddio model gweithlu darbodus a rhaglen brysbennu gydategol sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd artiffisial.

Tîm Clwstwr Cymunedol Uwch – gan adeiladu ar y dull 'rith-ward' a arbrofwyd yng Nghlwstwr Gogledd Cynon, nod y dull amlddisgyblaeth hwn yw darparu cymorth ar gyfer y 3% sy'n defnyddio'r gwasanaethau'r mwyaf mewn practis meddyg teulu.

Error! Reference source not found. – timau amlddisgyblaeth sy'n gweithio mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, Unedau Meddygol Acíwt ac Unedau sy'n gwneud Penderfyniadau Clinigol. Maen nhw'n asesu unigolion mewn unedau Damweiniau a Brys a'u nod yw atal derbyniadau diangen, ynghyd â model 'rhyddhau i asesu' â'r nod o glustnodi pobl yn gynt yn eu siwrnai ysbyty, a allai gael cymorth gwell gartref.

Segmentu'r Boblogaeth a Haenu Risgiau – dull newydd o asesu anghenion iechyd gan ddefnyddio dulliau segmentu'r boblogaeth. Mae sgoriau risg cleifion unigol yn cael eu cyfrifo trwy gysylltu a dadansoddi data sylfaenol ac eilaidd, a haenu'r risgiau.

Error! Reference source not found. – gwasanaeth sy'n cynnig uned cymorth ac achub ac offer mwy arbenigol fel teclynnau datgelu codymau sy'n cysylltu â chanolfan fonitro.

Mae cydran Pen-y-bont yn adeiladu ar waith sy'n cael ei wneud eisoes ym maes integreiddio gwasanaethau. Ffocws y tair ffrwd gwaith ar gyfer ardal Pen-y-bont felly yw cyflymu'r newid o fewn y gwasanaethau integredig hyn:

Error! Reference source not found.**Saith Diwrnod yr Wythnos** – dros ddiwrnodau estynedig a gofal a chymorth gyda'r nos. Y nod yw sicrhau dull cydlynol o ddarparu gwasanaethau lle mae'r llif o bobl i mewn ac allan o wasanaethau'n barhaus ac yn hygyrch.

Error! Reference source not found. – darparu un tîm amlddisgyblaeth o broffesiynolion gofal sylfaenol sy'n canolbwyntio ar bobl yn seiliedig ar rwydweithiau clwstwr cymunedol,

fel y gellir cyflawni asesiadau amserol ac ymatebol ar gyfer unigolion sy'n derbyn gofal a chymorth gartref.

Error! Reference source not found. – dull cydweithredol o gymhwyso dulliau ataliol o weithredu a fydd yn cyfoethogi llesiant poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

BPRh Gwent

Cafodd pedwar prosiect eu cymeradwyo yn BPRh Gwent yn Chwefror 2019:

Dull gweithredu system-gyfan i atal a darparu ymyrraeth gynnar yw'r Error! Reference source not found.. Bydd yn creu rhwydwaith o asedau llesiant cymunedol ar sail olion troed priodol sy'n seiliedig ar le. Mae'n cynnwys creu strwythurau a rhwydweithiau; datblygu hybiau yn y gymuned, darparu hyfforddiant a chymorth i bobl i hybu llesiant a ffyrdd o gyrchu gwybodaeth yn rhwydd.

Bydd prosiect Error! Reference source not found. yn datblygu model gweithlu cynaliadwy ar draws Gofal Sylfaenol, yn cynyddu argaeledd gwasanaethau arbenigol yn agosach at adref, ac yn datblygu un pwynt mynediad ar gyfer gwybodaeth a chyngor.

Error! Reference source not found. yw darparu mynediad di-dor at ofal iechyd meddwl ar gyfer plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, ac mae'n cynnwys ymyrraeth gynnar â'r nod o atal anghenion a gofal rhag dwysáu lle bo modd.

System ddi-dor o gymorth i hwyluso rhyddhau unigolion o'r ysbyty ar y cyfle cynharaf posibl yw Error! Reference source not found. â ffocws ar wardiau arhosiad byr a'r bobl hynny nad oes angen eu derbyn am arhosiad yn yr ysbyty.

BPRh Gogledd Cymru

Mae yna bedwar prosiect o dan adain BPRh Gogledd Cymru:

Cymeradwywyd **Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol: Cydweithio dros Gymunedau Lleol** ym mis Mawrth 2019, a'i nod yw gweithio gyda'r sector annibynnol a'r trydydd sector i ffrwyno sgiliau'r gweithlu gofal yn well, a datblygu rolau a chyfleoedd gyrfaoel yn well o fewn ac rhwng sefydliadau, gan ddefnyddio gwahanol fodolau o gyflogaeth i greu gweithlu cynaliadwy â chefnogaeth o fewn pob clwstwr. Elfen allweddol o fodel y gwasanaeth hwn yw cyfraniad y trydydd sector wrth gynorthwyo gwasanaethau llesiant, hyrwyddo cynhwysiant a chyfranogaeth a chydlynu presgripsiynau cymdeithasol.

Mae'r prosiect **Ymyrraeth Gynnar Integredig a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc**

Gogledd Cymru (C&YP) a gymeradwywyd ym Mawrth 2019 yn cwmpasu tair elfen, sef:

- ymgyrch amlasiantaeth i wella iechyd emosiynol, lles a gwytnwch plant a phobl ifanc trwy ymyrraeth gynnar ac atal
- datblygu ymyraethau 'ymateb cyflym' (allgymorth mewn argyfwng) ar gyfer plant a theuluoedd ar gyrion gofal
- datblygu gwasanaethau preswyl tymor byr er mwyn helpu i ddychwelyd plant a phobl ifanc sydd ar gyrion gofal adref yn effeithiol.

Cymeradwywyd partneriaeth **Gogledd Cymru Law yn Llaw: At Wasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu** rhwng chwe awdurdod lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol (BIP) Betsi Cadwaladr yn Rhagfyr 2019 a'i nod yw sicrhau bod pobl ag anableddau dysgu yn mwynhau gwell ansawdd bywyd a'u bod yn teimlo'n ddiogel. Mae yna bum ffrwd gwaith, gan gynnwys:

- strwythurau integredig
- datblygu'r gweithlu
- comisiynu a chaffael
- newid diwylliant a chymunedau
- technoleg gynorthwyol.

Nod y prosiect **Error! Reference source not found.**, a gymeradwywyd yn Ionawr 2019, yw rhoi system gofal fwy integredig ar waith drwy:

- hyrwyddo iechyd a lles emosiynol ac atal argyfyngau iechyd meddwl
- darparu ymateb holistaidd ac amserol at anghenion unigol, a chynorthwyo pobl i gadw'n ddiogel yn eu cymuned
- datblygu gweithluoedd gan gynnwys darparu hyfforddiant argyfwng ar gyfer staff y rheng flaen ar draws sefydliadau
- datblygu cartrefi mwy hygyrch a phriodol ar gyfer pobl sydd mewn perygl o argyfwng iechyd meddwl.

BPRh Powys

Mae gan BPRh Powys¹² naw llif gwaith cyflymydd penodol i gefnogi ei brosiect Lles Gogledd Powys. Nod y ffrydiau gwaith hyn yw cefnogi cyflwyno model gofal integredig newydd fel y'i mynegir yn y [Strategaeth Iechyd a Gofal ar gyfer Powys](#).

Mae cyllid rhaglen Lles Gogledd Powys yn cefnogi cyflwyno newid tymor hir sy'n ofynnol i gefnogi datblygiad campws llesiant aml-asiantaeth newydd a newid tymor byr mewn perthynas â ffyrdd newydd o weithio y gellir eu gweithredu nawr. Mae'r ffrydiau gwaith canlynol yn canolbwyntio ar y newid tymor byr:

Nod **Plant sy'n Derbyn Gofal yn eu Cynefin** yw lleihau'n ddiogel nifer y plant sydd mewn lleoliadau y tu allan i'r Sir, a'u dychwelyd yn nes at adref trwy greu a datblygu capasiti maethu mewnol ychwanegol, sefydlu darpariaeth breswyl a chapasiti llety, a chynyddu adnoddau.

Nod **Rhyddhau i Ymadfer ac Asesu** (D2RA) yw cynorthwyo pobl i adael yr ysbyty pan fo'n ddiogel ac yn briodol iddynt wneud hynny, a pharhau â'u gofal a'u hasesiad y tu allan i'r ysbyty.

Nod **Adolygiadau o Bell – Ethel** – yw lleihau amser a chostau teithio staff sy'n cyflawni adolygiadau o ddefnyddwyr gwasanaethau mewn cartrefi gofal preswyl trwy ddefnyddio llechen Ethel, sef dyfais fawr â sgrin gyffwrdd a ddyluniwyd ar gyfer pobl hŷn, a fydd yn hwyluso galwadau fideo gyda defnyddiwr y gwasanaeth.

Mae **Dychwelyd yr Asesiad Cyn Llawdriniaeth i Bowys** yn cynnwys amryw o lwybrau a phrosesau asesu fel y gall cleifion gael fynd i leoliadau yn y gymuned i gael asesiadau cyn llawdriniaeth, profion gwaed, EGCs ac i lenwi'r holl waith papur perthnaso.

Nod **Gwaith Atal wedi'i Dargedu** yw gwella'r deilliannau iechyd ar gyfer plant mewn cymunedau difreintiedig yng ngogledd Powys trwy ganolbwyntio ar raglenni iechyd a llesiant mewn ysgolion cynradd.

Bwriad **Rhith-feddygfeydd ac eFwcio** yw defnyddio technolegau digidol i wneud gofal iechyd arbenigol yn fwy hygyrch i gleifion.

Bydd **Cartrefi Digidol** yn galluogi pobl i glustnodi a phrynu offer i'w cynorthwyo i fyw'n annibynnol.

¹² Mae'r rhain wedi cael eu categorioedd fel ffrydiau gwaith yn hytrach na phrosiectau unigol oherwydd eu graddfa gymharol fach o gymharu â'r prosiectau a ariennir ar draws ardaloedd BPRh eraill.

Bydd **Gofal â Chymorth Technoleg** yn defnyddio technoleg i gynnig gwell dewisiadau i bobl ac i atal derbyniadau i'r ysbyty/symud pobl i ofal preswyl cyn pryd.

Nod Dull y **Tîm Integredig Trawsffiniol** yw rhoi cyfle i Bowys ailgyflunio'r ffordd y mae gwasanaethau iechyd a llesiant cymunedol yn gweithio.

BPRh Gorllewin Morgannwg

Cymeradwywyd dau brosiect ar draws BPRh Gorllewin Morgannwg:

Cymeradwywyd y **Dull System-gyfan y Clwstwr** ym mis Mawrth 2019 ac mae hwn werth £10.6 m. Hwn yw'r mwyaf o'r ddau brosiect dan arweiniad BIP Bae Abertawe ac mae'n cael ei gyflwyno ar draws pob un o 8 ardal glwstwr yr ymarferwyr cyffredinol yn Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Ei amcan yw darparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn nes at adref, ac mae'n canolbwyntio ar hunanofal ataliol.

Prosiect £5.8 m dan arweiniad y gymuned yw **Ein Cynllun Cymdogaeth**. Fe'i cymeradwywyd ym mis Chwefror 2019, ac mae'n cael ei weithredu mewn lleoliadau penodol (Cwmtawe a Lluchwr yn Hyb Gogledd Abertawe, a Llansawel a'r Felin yn ardal awdurdod Castell-nedd Port Talbot). Mae'r prosiect yn adeiladu ar y ddarpariaeth gyfredol ac mae'n mabwysiadu dull o ddatblygu sy'n seiliedig ar asedau.

BPRh Gorllewin Cymru

Mae tri phrosiect yn cael eu cyflawni ar draws Gorllewin Cymru, a rhoddwyd cymeradwyaeth i'r rhain yn Chwefror 2019:

Nod **Gofal Rhagweithiol â Chymorth Technoleg**, sy'n cael ei gyflawni gan gwmni masnachu awdurdod lleol sy'n eiddo'n llwyr i Gyngor Sir Caerfyrddin (Delta Wellbeing), yw rhoi model newydd o hunangymorth a gofal rhagweithiol ar waith trwy blatfform TG soffistigedig. Mae'r model yn cynnwys offeryn asesu; monitro galwadau'n rhagweithiol, tîm cymorth lles, unedau ymateb cyflym a chymorth yn y gymuned (gan gynnwys prosiect cynhwysant digidol i leihau unigrwydd a theimladau ynysig; cymorth gofalwyr a gwasanaeth atal codymau rhagweithiol).

Bydd Error! Reference source not found.yn galluogi cleifion sy'n wynebu argyfwng i gael eu gweld a chael triniaeth gan broffesiynolion iechyd a gofal cymdeithasol perthnasol yn eu cymunedau, er mwyn lleihau derbyniadau i ysbytai a'i gwneud yn haws eu rhyddhau'n gynnar.

Mae Error! Reference source not found. yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar le, gan weithio gyda phoblogaethau cyfan ar lefel gymunedol. Mae sawl cydran i'r rhaglen a fydd yn gweithio i fynd i'r afael ag unigrwydd a theimladau ynysig, a meithrin cymunedau cefnogol a gwydn, gan gynnwys ymgyrch caredigrwydd rhanbarthol, cymell gwirfoddoli a chynorthwyo hybiau gweithredu lleol i ddatblygu gweithgareddau rhyng-genhedlaeth. Mae'r rhaglen yn cael ei dylunio a'i chyflawni gyda phartneriaid o'r trydydd sector ac mae'n adeiladu ar y model cysylltiadau cymunedol. Wrth galon hyn mae'r nod o daclo problemau fel unigrwydd a theimladau ynysig.

Gofal Arennau Cydweithredol (dan ofal BPRh Cwm Taf Morgannwg)

Mae'r prosiect yn darparu cynllun rhaglen pum pwynt ar gyfer trawsnewid gofal arenau yn ddigidol i bobl â chlefyd cronig yr arenau (CKD) yng Nghymru:

1. Gweinyddiaethau rhagnodi a meddyginiaethau electronig gan ddefnyddio cofnod claf electronig arenol Cymru gyfan (EPMA-REPR)
2. Darparu gwasanaethau arenol yn ddigidol. Creu a danfon dogfennau yn ddigidol i ofal sylfaenol gan ddefnyddio EPR arenol i awtomeiddio gohebiaeth electronig ac integreiddio â systemau TG y GIG
3. Crynodebau gofal arenol digidol. Cyhoeddi crynodebau gofal arenol i systemau nad ydynt yn arenol, megis Porth Clinigol Cymru i gynorthwyo i wneud penderfyniadau clinigol diogel ar y cyd
4. Gwyliadwriaeth CKD gofal sylfaenol ac ymyrraeth wedi'i thargedu i gydnabod, atal a darparu rheolaeth wedi'i thargedu o glefyd yr arenau yn y boblogaeth gyffredinol ledled Cymru trwy system wyliadwriaeth CKD ddigidol a system rhybuddio deallus
5. Galluogi hunanofal â chymorth trwy ddarparu'r gefnogaeth, yr offer a'r llythrennedd iechyd i gael mynediad digidol at gofnodion gofal trwy borth claf a galluogi gofal iechyd cyd-gynhyrchiol gwybodus

Atodiad C: Cwestiynau Ymchwil Diwygiedig ar gyfer y Gronfa Trawsnewid

Cwesitynau Ymchwil Diwygiedig ar gyfer y Gronfa Drawnewid

| Modelau Gweithredu |
|---|
| 1. Pa newidiadau a wnaed i'r prosiectayu yn ystod y Rhaglen, yn enwedig mewn ymateb i bandemig COVID-19? |
| 2. Pa effaith mae newidiadau a wnaed i brosiectau yn ystod y rhaglen wedi ei gael ar allu'r prosiectau i drawsnewid y gwasanaeth? |
| 3. Pa ffactorau llwyddiant allweddol sy'n galluogi trawsnewid, yn enwedig mewn ymateb i heriau COVID-19? |
| 4. I ba raddau gall y prosiectau trawsnewid brofi symudiad cynaliadwy tuag at wasanaethau ataliol? |
| 5. I ba raddau y gall y prosiectau trawsnewid ddangos cynnydd, yn enwedig mewn ymateb i heriau COVID-19? |
| 6. I ba raddau mae'r prosiectau trawsnewid wedi mynd i'r afael â <ul style="list-style-type: none"> • Egwyddorion Dylunio AHW? • 5 ffordd o weithio Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (tymor hir, integreiddio, cynnwys, m cydweithredu, atal)? |
| 7. Beth yw'r ffactorau llwyddiant allweddol ar gyfer gweld cynnydd, yn enwedig wrth ymateb i effaith COVID-19 ar wasanaethau? |
| Cyflymder y Newid |
| 8. Sut mae cyflymder y newid wedi ei effeithio o ganlyniad i ymateb i heriau COVID-19? |
| 9. Pa rwystrau a wynebwyd yn yr ymdrechion i greu trawsnewidiad? Sut y gellid fod wedi lliniaru'r rhain? |
| Ymgysylltu |
| 10. I ba raddau y bu'r gweithlu a dinasyddion yn rhan o ddatblygiad parhaus y prosiectau trawsnewid (pa ddulliau ymgysylltu a ddefnyddiwyd i wneud hyn?) |
| 11. Pa newidiadau ymddygiad o fewn y gweithlu/dinasyddion sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r prosiectau yma? |
| Llywodraethiant |
| 12. Sut mae trefniadau llywodraethu wedi addasu er mwyn ymateb i COVID-19? |
| 13. Pa effaith mae unrhyw newidiadau i brosesau a threfniannau llywodraethiant wedi eu cael ar ddarparu deilliannau? |
| Cost a Budd |

| |
|--|
| <p>14. Has the TF resulted in any return on investment / financial savings / improved citizen outcomes? A yw'r Gronfa Trawsnewid wedi cynhyrchu unrhyw enillion ar fuddsoddiad (RoI) / arbedion ariannol / gwell deilliannau i'r dinesydd?</p> |
| <p>15. Sut mae'r defnydd o gyllid y gronfa drawsnewid law yn llaw gyda adnoddau eraill e.e. ICF, cyllid craidd, cyllid argyfwng COVID-19 wedi cynhyrchu gwell deillannau?</p> |
| <p>Deilliannau ac Effeithiau</p> |
| <p>16. Pa dystiolaeth sydd gennych o newdiadau o'r gwaelodlin/sefyllfa wreiddiol ar gyfer prosiectau a ariannwyd?</p> |
| <p>17. Beth yw'r prif ddeilliannau a gyflawnwyd gan brosiectau a ariannwyd gan y Gronfa Trawsnewid?</p> |
| <p>18. Pa dystiolaeth sydd gennych o'r newid a wnaed/effaith a gyflawnwyd gan brosiectau'r Gronfa Trawsnewid?</p> |
| <p>19. Sut y gellir cynnal y deilliannau a'r effeithiau yma heibio Mawrth 2021?</p> |
| <p>20. Beth yw'r gwersi allweddol sydd wedi eu dysgu fydd o fudd i raglenni trawsnewid yn y dyfodol?</p> |

Atodiad CH: Canllaw Trafod ar gyfer Cyfweiliadau Diweddariad Blynyddol Gwerthusiad y Gronfa Trawsnewid

Adran A: Ymwneud â'r Gronfa Drawsnewid

1. Dywedwch wrthyf am:
 - a. Eich rôl
 - b. Eich sefydliad
 - b. Eich ymwneud gyda'r Gronfa Drawsnewid

Adran B: Gweithredu'r Rhaglen

Modelau Gweithredu

1. Pa newidiadau sylweddol sydd wedi eu gwneud i'ch prosiectau Cronfa Drawsnewid ers y tro diwethaf i ni siarad?
 - Beth fu effaith COVID-19 ar brosiectau?
2. I ba raddau mae prosiectau yn parhau wedi'u alinio i :
 - Nodau ac amcanion y Gronfa Drawsnewid?
 - Yr Egwyddorion Dylunio?
 - Athroniaeth Gofal Iechyd Darbodus?
 - Pum ffordd o weithio Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol?
 - Symudiad tuag at wasanaethau ataliol?

Cyflymder y Newid

3. Beth sydd wedi ei gyflawni hyd yma?
4. Pa gynnydd a wnaed yn erbyn y cynllun gwaith a'r gwariant a ragwelwyd?
5. Beth sy'n gweithio'n dda?
6. Beth fu'r heriau o ran gweithredu?
7. Beth fu cyflymder y newid o fewn prosiectau?

Llywodraethiant

8. A fu unrhyw ddatblygiadau neu newid i drefniadau llywodraethu ers y tro diwethaf i ni siarad? A fu unrhyw newidadau o ran:
 - Perchnogaeth prosiectau ar lefel uwch-reolwyr o fewn y BPRh?
9. Prosesau, polisiau neu drefniannau newydd?
10. Beth yw'r rhwystrau i newid?

Ymgysylltu

11. Ym mha ffordd mae'r gweithlu a'r dinesydd wedi bod yn rhan o brosiectau dros y flwyddyn ddiwethaf?

12. Pa dystiolaeth sydd yna fod staff a/neu ddinasyddion yn gweithio neu'n ymddwyn yn wahanol?
13. Sut mae partneriaid amrywiol wedi bod yn rhan o'r prosiect? Pa fanteision neu heriau sydd wedi codi o'r herwydd?
14. Beth sydd wedi gweithio'n dda ai peidio o ran ymgysylltu?

Adran C: Deilliannau sy'n dechrau dod i'r amlwg

15. Beth yw negeseuon a chanfyddiadau allweddol unrhyw waith gosod gwaelodlin a wnaed gan y rhanbarth yn hydref 2020 i Lywodraeth Cymru?
16. Pa fathau o ganlyniadau sy'n cael eu cyflawni gan brosiectau'r Gronfa Drawsnewid yn eich rhanbarth? (Archwiliwch ganlyniadau'r Fframwaith Canlyniadau AHW yn benodol ac ystyriwch y dystiolaeth sydd ar gael o'r adroddiad gwerthuso rhanbarthol)?
17. Pa ffactorau / allanolion sydd wedi effeithio ar gyflawni'r canlyniadau hyn (caled a meddal)? (Archwiliwch o gwmpas COVID-19, materion sefydliadol, blaenoriaethau polisi, blaenoriaethau cyllidebol y DU / Cymru)
18. O weithredu'r Gronfa Drawsnewid hyd yma, a allwch chi feddwl am unrhyw ganlyniadau annisgwyl sydd wedi'u cyflawni / a allai gael eu cyflawni?

Deilliannau a Mesurau Perfformiad

19. Pa fesurau perfformiad neu brosesau casglu tystiolaeth sydd wedi'u datblygu ers i ni siarad ddiwethaf?
 20. Beth sy'n cyfrif am unrhyw berfformiad cryf neu wan o ran cyflawni canlyniadau cynnar?
 21. Pa fylchau, os o gwbl, sydd yn y gwaelodlin dystiolaeth ar gyfer mesur deilliannau a pherfformiad?
- ### Cost a Budd
22. Pa dystiolaeth gynnar sydd o enillion ar fuddsoddiad a / neu arbedion ariannol?
 23. gysylltiadau sydd ag adnoddau cyllido eraill e.e. ICF neu gyllidebau craidd?
 24. Beth yw'r cynlluniau cynnar sydd ar waith i sicrhau cynaliadwyedd ariannol ar gyfer y prosiect?

Adran CH: Gwersi a Ddysgwyr ac Ystyriaethau i'r Dyfodol

25. Beth yw ffactorau llwyddiant allweddol rhaglen y Gronfa Drawsnewid o'ch profiad hyd yn hyn?
26. A yw eich profiad o weithredu prosiectau Cronfa Drawsnewid yn awgrymu bod angen newid unrhyw elfen o'i chyflenwi mewn unrhyw ffordd?
 - a. Ar drothwy blwyddyn olaf cyllid TF, a oes angen unrhyw newidiadau i gyflawni?

-
27. Beth yw'r gwersi allweddol ar gyfer cyllido darpariaeth drawsnewidiol yn y dyfodol ar draws y sector iechyd a gofal cymdeithasol?
28. A oes unrhyw beth arall nad ydym wedi'i drafod yr ydych chi'n meddwl sy'n bwysig i ni ei ystyried?